

# ECO'R WYDDFA

Rhif 117

MEDI 1986

Pris: 20c

## Y FRO GYMRAEG?

'Rhydd i bawb ei farn ac i bob barn ei llafar' medd yr hen air; a datgan ei farn yn ddi-flewyn ar dafod a wnaeth y Dr Meredydd Evans, Llywydd y Dydd, ddydd Llun yn 'Steddfod Abergwaun. A'r farn honno oedd fod angen ymwrthod â'r meddylfryd dwyieithog os am gadw'r Gymraeg yn fyw.

Yng nghwrs ei araith, dywedodd fod tuedd gan rai cymdeithasau yn ein cymunedau lleol i gefnu ar y Gymraeg ac i weithredu'n ddwyieithog pan fyddai'r di-Gymraeg yn eu plith. Cwrteisi yw hynny yn ôl rhai, ond mae cwrteisi o'r math yn gwanychu ein Cymreictod. A pheidied darllenwyr yr 'Eco' â meddwl mai problem ardaloedd eraill yw hon. Yn ddiweddar bwm mewn pwyllgor lleol o tua phymtheg o bobl. 'Roedd un neu ddau yn ddi-Gymraeg. Oherwydd ein cwrteisi taeg o 'beidio â phechu' ein 'cyfeillion di-Gymraeg', aeth y trafod (ac eithrio ambell i unigolyn) yn fuan yn uniaith Saesneg. Ai dyma'r math o aml-ieithrwydd yr ydym am ei arddel?

## CADARNLE'R IAITH

Efallai fod eraill o'r darllenwyr yn cusuro'u hunain drwy dybio fod bro'r 'Eco' yn un o gadarnleoedd yr iaith Gymraeg. Cysidwrch y ffigurau canlynol o Gyfrifiad Poblogaeth 1981:

Nifer y siaradwyr Cymraeg yn Arfon Wledig (sef Arfon heb gynnwys trefi Caernarfon a Bangor) - 83%

Nifer y siaradwyr Cymraeg yng Nghlwt y Bont a Brynrefail - llai na 79%; yng Nghaeathro - llai na 74%; yn y Fachwen, yn Ninorwig ac yng Ngheunant - llai na 69%; ac ym Metws Garmon - llai na 65%.

Hynny yw, mewn SAITH o bentrefi'r fro mae nifer y siaradwyr Cymraeg yn is na'r cyfartaledd am Arfon Wledig. Ac yr oedd hyn yn 1981. Beth tybed yw'r sefyllfa erbyn heddiw? A faint gwaeth fydd y sefyllfa erbyn y Cyfrifiad nesaf?

Oherwydd ein 'cwrteisi', 'rydym ninnau hefyd yn helpu i Seisnigo ein bro. Trown yn ôl at araith y Dr Meredydd Evans - 'Dilynw'n esiampl ein cymdogion, y Saeson. A dybiwch y bydden nhw'n barod i dderbyn amlieithrwydd yn eu cymdeithasau lleol nhw? Mae gofyn y cwestiwn yn ateb.'

### PLYGU RHIFYN HYDREF

Canolfan Waunfawr  
6 o'r gloch

## PLYGU'R ECO

Onid yw'n wyrthiol sut mae'r Eco'n llwyddo i gyrraedd eich stepan drws unwaith y mis - hynny yw, i'r rhai sy'n ymwybodol o'r holl waith sydd ynghlwm â chynhyrchu papur bro. I eraill mae dyfodiad y misolyn yn ganiataol, a pheth braf yw cael suddo mewn cadair esmwyth fwrw Sul i bori'n hamddenol drwy ei gynnwys.

Dim ond un agwedd o waith y papur bro yw'r gorchwyl o'i blygu bob mis. Yn wir, dyma'r un dasg y byddai unrhyw aelod o'r gymdeithas, yn hen neu'n ifanc, yn gallu cynnig help llaw o dro i dro. Serch hynny mae'r Eco wedi mynd yn ddibynol ar griw go fach o blygwyr ym mhob pentref bron. Diolch o galon am y selogion. Er bod cannoedd ar gannoedd o ddarlennwyr brwd, prin yw'r rhai sy'n fodlon troi allan hyd yn oed unwaith y flwyddyn am awr neu ddwy i blygu. Ie wir, dim ond dwywaith ar y mwyaf mae'r dasg yn disgyn ar eich pentref mewn blwyddyn gron.

Felly, y tro nesaf y clywch bod plygu'r Eco yn eich pentref beth am ddangos eich cefnogaeth. Meddyliwch mor braf fyddai eistedd yn y gadair esmwyth 'na gan ddarllen yr Eco'n ymwybodol mai chi a'i plygodd!

## LLWYDDIANT YN Y GENEDLAETHOL

### DAWNS WERIN




Idwal Williams o Lanrug a enillodd y wobwr gyntaf am gyfansoddi Dawns Ffair. Nid dyma'r tro cyntaf iddo ennill yn y Genedlaethol. Meddai'r beirniad am y ddawns "...dawns gelfydd dros ben a fydd o ddiddordeb arbennig i ddawnswyr a gwylwyr."

### DRAMA



Gwyddom eisoes am ddawn Eurig Wyn o'r Waunfawr i sgwennu sgript afaelgar - bu canmol brwd i'r gyfres 'Abwyd' a deledwyd eisoes ar S4C. Yng nghystadleuaeth y ddrama, cafodd gannoliaeth uchel am ei ddrama "Lloches y Cynghorydd Henry Jones M.B.E." Disgrifiwyd hi gan y beirniad fel "ffars amserol sy'n ymgorffori sefyllfa gyfoes ... mae iddi elfennau digri iawn."

### TRIAWD OFFERYNNOL




Yn y gystadleuaeth i driawd Offerynnol, daeth tri o'r Waunfawr yn drydydd. Uchod gwelir Anthony Marston a'i chwaer Joanna o Flaen y Nant, ac Iwan Ellis, Glyn Awel.

### "AM Y CORAU"



## RHAGLEN RADIO



Bu Rol Williams o'r Waunfawr yn llwyddiannus mewn dwy gystadleuaeth yn Adran Llên yr Eisteddfod. Daeth i'r brig mewn cystadleuaeth yn gofyn am sgript i raglen radio. Dewisodd olrhain hanes sefydlu cwmni Lein Fach yr Wyddfa, ac yn ôl y beirniad, gwnaeth "ddefnydd effeithiol o 'ohebydd' i roi sylwebaeth". Gwobrwywyd ef hefyd am gyfansoddi Sgwrs Radio bum munud, addas ar gyfer rhaglen fel "Rhwyng Gŵyl a Gwaith."

## ENILLWYR ERAILL

Nid yw llwyddiant cenedlaethol yn ddieithr i Fand Deiniolen, ac eleni eto, daethant â chlod i'r ardal ar ôl taith flinedig i Abergwaun. Roedd chwech o fandiau'n cystadlu, a chanmolwyd hwy i gyd gan y beirniad mewn cystadleuaeth glos iawn. Wedi hir bendroni daeth y canlyniadau, a Deiniolen yn ail gydag 84 o bwyntiau, dau bwynt yn unig tu ôl i'r enillwyr o Bontarddulais.

Llongyfarchiadau hefyd i Dafydd Thomas o Lanrug, a enillodd ar gystadleuaeth yn gofyn am gasgliad o enwau caeau unrhyw ardal, ynglŷd â mapiau ac eglurhad ar yr enwau. Canmolwyd ef gan y beirniad am "waith cymen ac ysgolheigaidd."

Y mae yna enillydd arall a chysylltiad a'r fro, sef Irma Hughes-de-Jones o'r Gaiman, Patagonia a enillodd wobwr gyda chlod ar "Atgofion Eisteddfodol y Wladfa". Yr oedd taid Irma o Glwt-y-bont, un o feibion William Jones, Coed Helen a'i nain oedd Gwyneth Vaughan, yr awdures. Dyma a ddywed y beirniad "Gwaith taclus mewn Cymraeg sy'n batrwm i lawer ohonom ni yng Nghymru."

Ar nos Wener, 12fed o Fedi, bydd Parti Clychau'r Grug, dan arweiniad Mrs. Glenys Griffiths, Bethel, yn cystadlu yn y rhaglen "Am y Corau" a deledir ar S4C. Cynhyrchiad Ffilmiau'r Nant yw'r gyfres gerddorol newydd hon. Rhaid gwyllo ar y noson i weld a fu Clychau'r Grug yn fuddugol ai peidio.



# ECO'R WYDDFA

RHIF 117  
MEDI

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd  
Cibyn, Caernarfon

Cyhoeddwyd gyda chymorth  
Cymdeithas Gelfyddydau  
Gogledd Cymru

## SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION

**CYFFREDINOL AC ERTHYGLAU:** Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-Nant, Pontrhyallt, Llanrug. (C'fon 3515)

**GOLYGYDD NEWYDDION:** Amranwen Lynch, Gwyddfor, Penisarwaun (Llanberis 870575).

**GOLYGYDD CHWARAEON:** Dafydd Evans, 9 Sycharth, Penisarwaun. (Llanberis 872407)

**TREFNYDD NEWYDDION YSGOLION:** Iwan Lloyd Williams, Bryn Idris, Llanberis (870515)

**DYDDIADUR Y MIS:** Mrs. Jane Roberts, 'Rallt Isaf, 3 Peny Bont, Ffordd Capel Coch, Llanberis. (871561)

**FFOTOGRAFFYDD:** Gwyndaf Jones, 60 Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4669). Gwyndaf Hughes, Glasgoed, Llanrug. (C'fon 77263)

**TREFNYDD HYSBYSEBION:** John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug (C'fon 5605)

**TREFNYDD GWERTHANT:** Arwyn Roberts, Haffle, Ffordd yr Orsaf, Llanrug (C'fon 5510)

**TREFNYDD ARIANNOL:** Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

**TREFNYDD GWERTHANT POST:** Mrs E. Whiteside Thomas, Dolwar, Llanrug. (C'fon. 4778)

**GOHEBWYR PENTREFI:** Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich ardaloedd:

**BETHEL:** Geraint Elis, Cilgeran (Portdinorwic 670726).

**BRYNREFAIL:** Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580.

**CAEATHRO:** Mrs Beryl Roberts, Llerallt, Erw Wen. (Caernarfon 3536)

**CEUNANT:** Ifan Parry, Morwel, (Waunfawr 321)

**CWM-Y-GLO:** Mrs Iris Rowlands, Glaraon (Llanberis 872275)

**DEINIOL:** W.O. Williams 6 Rhyd fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

**DINORWIG:** Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian.

**LLANBERIS:** Iola Sellers, 13 Dôl Elidir, Llanberis.

**LLANRUG:** Mrs Gillian Morris, Annedd Wen, Tal-y-bont. (Caernarfon 76075)

**NANT PERIS:** Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrig-y-druidion, Nant Peris.

**PENISARWAUN:** Mrs Ann Evans, 9 Sycharth, (Llanberis 872407)

**TAN-Y-COED:** Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

**WAUNFAWR:** Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)

**TREFNYDD PLYGU:**

## Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg  
**HYDREF 2il**  
Deunydd i law'r  
golygyddion perthnasol  
**NOS FAWRTH**  
**MEDI 23ain**  
os gwelwch yn dda

# LLYTHYRAU

## SAFLE'R GYMRAEG Y DAFARN NEU'R CAPEL? YMATEB I FARN "SYLWEBYDD"

Annwyl Olygydd

'Roeddwn yn falch o ddeall fod Sylwedydd yn mynychu capel ac yn derbyn rhywbeth o hynny. Ni wn ddigon am farddoniaeth na llenyddiaeth i fynegi barn ar y campweithiau mae Sylwedydd yn awgrymu sydd wedi deillio o gymdeithas y dafarn. Mi wn, ar y llaw arall, ddigon am y llanast cymdeithasol a welais yn Llundain a Lerpwl o ganlyniad i ddylanwad y dafarn ar nifer fawr o bobol, a Chymry yn eu plith.

Nid wyf yn gwybod beth ydi'r ateb i gwestiwn Sylwedydd ynglŷn â'r Cymry ifanc sy'n frwdfrydig dros Gymreictod adeg lecsiwn a.y.b. ond yn cefnu ar y Capel. 'Rwyf wedi sylwi er diwedd y rhyfel 1914-18 fod aelodaeth y capeli wedi bod ar i waered. Efallai fod erchyllterau'r lladdfa a gefnogwyd mor frwdfrydig gan rai Gweinidogion wedi gwneud cenedlaethau o bobl ifanc yn sinicaidd. Mae'n anodd cysoni'r Grefydd a esgorodd ar gymaint o bethau da, megis y Wladwriaeth Les ar un llaw, ac a gefnogodd laddfa'r Somme (a gwae'r neb a wrthdystiai ar boen cael ei ddienneddio fel llwfrddyn). Ond pwy sy'n arwain y mudiad heddwch heddiw? Gwelir llawer o weinidogion y genhedlaeth hon yn cael eu cosbi am eu safiad dros heddwch.

Oes, mae newid cymdeithasol mawr yn ein pentrefi; rhai yn deillio o golli'r diwydiant cynhenid — y llechfaen, a'r lleihad yn y nifer sy'n gweithio ar y tir. Mae colli'n diwydiant cynhenid yn rhan o ddiffyg atebolrwydd cymdeithasol y gyfandrefn gyfalafol nad oes iddi wreiddiau yn yr ardal, na pherchnogaeth gan y gweithwyr eu hunain. Mae'r ymdrech i ddenu diwydiannau eraill o Loegr wedi cychwyn mewnllifiad o estroniaid nad oes gan y rhan fwyaf ohonynt y diddordeb lleiaf yn hanes a diwylliant y Cymry. Mae bai hefyd ar lywodraeth ganol a lleol am eu bod yn penodi pobl ddi-Gymraeg i swyddi allweddol ac felly yn tanseilio'r iaith. Ni all yr ysgolion cyfun ddianc o'u cyfrifoldeb am eu methiant i arwain plant i sylweddoli fod llawer o swyddi da ar wahân i fod yn athrawon i gyflenwi gofynion Lloegr. Ni all y pwyllgorau cynllunio osgoi rhan o'r cyfrifoldeb gan iddynt ganiatáu codi stadau o dai di-alw-amdanynt yn y broydd Cymraeg. Mae enghreifftiau o estroniaid di-waith yn Lloegr yn gwerthu eu tai yno ac yn prynu tai yng Nghymru am hanner y pris a gafwyd. Mae plant llawer o'r rhain yn creu helyntion yn ein hysgolion a'u hiaith Saesneg nhw'n echrydus o fudr, rhywbeth sy'n adlewyrchu natur eu cartrefi.

Yn sicr, mae'n unfed awr ar ddeg ar y Gymraeg oni fynnir Deddf Iaith newydd, mynnu pob bil yn ein hiaith ein hunain ac mewn llawer man gwrthod siarad Saesneg (fel mae'r Ffrancwyr yn ei wneud) a chefnogi

pob sefydliad lle mae'r Gymraeg yn gyfrwng.

Un llygedyn o oleuni a welaf ar ffurfafen ddigon du ydi'r galw cynyddol gan ein brodyr di-Gymraeg yn y De, Cymry wedi colli'r iaith ond sy'n mynnu addysg trwy gyfrwng y Gymraeg i'w plant. Pan oeddwn yn byw yng Nghaerdydd (58-62) un Ysgol Gynradd Gymraeg oedd yn y ddinas. Bellach mae pedair ac un Ysgol Gyfun (ar wahân i'r rhai ym Morgannwg Ganol a'r Gorllewin).

Rai dyddiau yn ôl cefais lythyr oddi wrth berthynas imi (un a fydd yn cael yr Eco ym Mhatagonia). Dyfynnaf: "Darllen llythyr yn yr Eco a chyd-weld â phob gair ohono ac ar y diwedd gweld mai W.A. Jones, fy nghefnider annwyl, oedd wedi ei sgrifennu... mae gen i ofn mai'r dafarn a'i chwmni sy wedi difetha'r Wladfa Gymreig yma yn anffodus." Efallai y gwna Sylwedydd bendroni tipyn dros y geiriau olaf yna gan fardd y Wladfa bell, Irma Hughes de Jones.

Yn gywir,

W.A. Jones  
Y Dalar Deg,  
Llanrug

Annwyl Syr,

Gair a Gweithred

Mi ges hwrdd o sgrifennu i'r wasg yr haf'ma; swydd ddigon dielw. Er, yn fy achos i mae o'n ymarferiad da i gywasgu byr eiriau i ofod. Multum in parvo chwalad y Proffer stalwm.

Mewn un llythyr a gyhoeddwyd mewn papur saesneg, tynnais sylw at y ffaith fod mewnfydwyr i'r Dywysogaeth yn gyndyn o gysylltu eu henwau wrth eu cyfraniadau i'r colofnau gohebiaeth. Sylwais i ddim ar fref o atebiad, ond dychmygwch fy ngwaradwydd pan welais — yn ystod yr union gyfnod — SYLWEBYDD; Cymro pur, honedig yn gwneud yr un peth yn yr Eco — a hynny ddwywaith.

Does gen i ddim o'r cymwysterau i ddatgan barn ar ei sylwadau pan mae yn cymharu cynhyrsgaeth y capel a'r dafarn, gan na fyddaf yn mynd i'r un o'r ddau sefydliad. Ond hyn sy' wir. Ar gyflwr y gymdeithas gymysg yr ydym yn trigo ynddi ar hyn o bryd, mae ei ddadl yn graff, ac wedi ei gosod yn drefnus, ac nis gall neb ei gwadu. Mae'r dydd yn amlwg nesau pan fydd tŷ pen Coronation Street yng Nghwm Penant, os na fydd yna goelcerthi anferth wedi bod yn y cyfamsr.

Y trueni yw, fod y dyn, drwy gelu ei hunaniaeth yn methu ennyn ein diffuantrwydd, a'r arwyddocad y gallwn gasglu oddi wrth ei druth mae'n siwr gen i yw hyn.

Os yw dyn yn arswydo cysylltu ei enw wrth ei fref yn ei blwyf ei hun, mae hi'n siwr o fod yn waeth na mae SYLWEBYDD yn ei amlygu. Mae hi wedi mynd i'w chrogi yn barod.

Yn gywir,  
John E. Williams  
Y Gors, Allt Riwth,  
Pontrhyallt.

## CYNGOR CYFFURIAU GWYNEDD

Annwyl Olygydd

Dyma'r amser y bydd ysgrifenyddion gwahanol gymdeithasau yn tynnu allan raglenni gaeaf. Os bydd cymdeithas o bobol ifanc neu rieni am glywed sgwrs ar broblem cyffuriau yna ymofynner â swyddfa Cyngor Cyffuriau Gwynedd, Yr Hen Ficerdy, Stryd Waterloo, Bangor neu ffonio Bangor 353360. 9.30—1.00 pm dyddiau gwaith.

Yn ddiffuant,  
Y Parch. J. Aelwyn Roberts  
Ysgrifennydd

## SYLW I CHWARAEON

Annwyl Olygydd

Rwy'n awyddus i roi cyfle i'ch darllenwyr gael mwy o sylw a rhagor o gyhoeddusrwydd i unrhyw gystadlaethau chwaraeon yn eich ardal.

Mae'r rhaglen 'Chwaraeon' ar Radio Cymru yn ailddechrau Sadwrn Medi'r 6ed, ac ar gyfer y tymor newydd yr ydym am ddarlledu yn wythnosol restr o'r gweithgareddau o bob rhan o Gymru. Hoffwn i ysgrifenyddion a swyddogion y gwahanol gampau ysgrifennu atom, gan roi cymaint o fanylion ag sy'n bosibl, gan gynnwys poster i ati ynghyd ag enwau'r trefnyddion a rhifau ffôn.

Ysgrifennwch at: Hysbysebion 'Chwaraeon', Adran Chwaraeon Radio Cymru, Canolfan Ddarlledu'r BBC, Llandaf, CAERDYDD, CF5 2YQ

Edrychaf ymlaen at ymateb brwd gan eich darllenwyr.

Yr eiddoch yn gywir,

Emyr Wyn Williams  
Cynhyrchydd 'Chwaraeon'  
BBC Radio Cymru

## CHWARAE TEG — CWIS CHWARAEON RADIO CYMRU

Mae Radio Cymru yn chwilio am dimau o dri i gystadlu mewn cwis chwaraeon sy'n dechrau yn yr Hydref. Huw Llywelyn Davies fydd wrth y llyw.

'Dydyn ni ddim yn chwilio am arbenigwyr', meddai'r cynhyrchydd Ceri Wyn Richards. 'Cwestiynau cyffredinol iawn fyddan nhw: ar hwl a mwynhad y bydd y pwyslais.'

Mae croeso i Aelwydd yr Urdd, Clybiau Ffermwyr Ifanc, Clybiau Chwaraeon, Clybiau Cinio — yn wir, pa le bynnag y bydd tri wedi ymgynnull ynghyd, i ysgrifennu at Ceri Wyn Richards, Cynhyrchydd 'Chwarae Teg', Ystafell 3007, Canolfan y BBC, Llandaf, Caerdydd CF5 2YQ.

MAE'R  
**SAMARIAID**  
YN GWRANDO,  
YN ABBEY ROAD



**BANGOR**  
**354646**



## CYMDEITHAS ADDYSG Y GWEITHWYR

Mae rhaglenni'r Gymdeithas, sy'n cynnwys manylion am ddosbarthiadau 1986-87, yn awr ar gael yn y llyfrgelloedd, canolfannau, siopau, etc., a chan Ysgrifenyddion lleol ein dosbarthiadau.

Fel arfer, mae amrywiaeth diddorol o gyrsgau ar gael, a hynny am bris rhesymol. Felly, gyda'r dydd yn byrhau, beth am ymuno â dosbarth yn eich ardal? Dyma gyfle i chwi fwynhau cwmniaeth, mynd i'r afael â phwnc o'r newydd, trafod, mynegi barn, neu yn syml, gwrandao a mwynhau.

Os bydd arnoch angen mwy o wybodaeth am gyrsgau yn eich ardal, cysylltwch ag Ifor Baines (Athro-Drefnydd): Ffôn - Penygroes 881328.

### DINORWIG

**Trin a Thrafod Cerddi:** Mr. Ifor Baines, B.A. Dydd Iau, 7.00 yn y Ganolfan. 5 cyfarfod o Fedi 18.

### LLANBERIS

**Dysgu Cymraeg--Learning Welsh:** Dr. Sylvia Prys Jones Dydd Mawrth-Tuesday. 7.00 pm yn-at Ysgol Dolbadarn. 20 cyfarfod-meetings o-from Fedi-September 23.

**Gwerthfawrogi Celfyddyd:** Mrs Barbara Owen, A.T.D. Dydd Llun, 7.00 pm yn Ysgol Dolbadarn. 20 cyfarfod o Fedi 22.

**Cwrs arbennig ar gyfer trigolion Plas Pengwaith**—i'w drefnu yn yr Hydref. Manylion pellach gan yr Athro-Drefnydd.

### LLANRUG

**Astudiaethau Lleol:** Mr Gwilym Trefor Jones B.A. Dydd Llun, 7.00 pm yn yr Ysgol Gynradd. 10 cyfarfod o Fedi 22.

**Gwerthfawrogi Celfyddyd:** Mrs Barbara Owen A.T.D. Dydd Gwener, 7.00 pm yn Ysgol Brynrefail. 20 cyfarfod o Fedi 26.

### WAUNFAWR

**Yr Anifail yn ei Gynefin:** Mr. Duncan Brown. Dydd Llun, 7.00 pm yn yr Ysgol Gynradd. 6 chyfarfod o Ionawr 19.

## 'BLAS BYW'

Annwyl ddarllenwyr,

Wedi i ni fod ar ofyn cynifer o bobl dros y misoedd diwethaf wrth baratoi 'Blas Byw', carem fanteisio ar y cyfle hwn i estyn diolch diffuant iawn i bawb a fu'n gysylltiedig â'r llyfr mewn unrhyw fodd.

Hoffem yn benodol dynnu eich sylw at gyfraniadau hael nifer o bobl ledled Cymru a fu'n ymwneud â'r broses o'i gyhoeddi, a'i gael yn barod, mewn byr amser, ar gyfer Eisteddfod Abergwaun. Yn arbennig, diolch i Dafydd Meirion a'r staff yn Stiwdio Mei, Penygroes, am fod yn fodlon i fwrw'r cwch i'r dwfn hefo ni: 'roedd ei barodrwydd i ymgymryd â'r gwaith cysodi a chynllunio, a hynny am hanner y gost arferol, yn allweddol i fodolaeth y llyfr. Diolch o galon hefyd i Argraffdy Arfon, Penygroes, a fu'n gyfrifol am argraffu'r tudalennau mor lanwaith, ac i Wasg Ffrancon, Bethesda, am argraffu'r clawr - y ddwy wasg hefyd yn gwneud hynny am hanner y gost arferol. Cynlluniwyd y clawr gan Bob

Williams o gwmni Magma, Biwmares, (cynllunydd logo Arian Byw hefyd, gyda llaw) a roddodd ei wasanaeth - a'r ffotograffau a dynnodd ei hun - yn rhad ac am ddim. Diolch o galon iddo yntau am greu clawr mor drawiadol, ac i Wasg Gomer am roi'r sglein arno - hefyd yn ddi-dâl. Daeth y cyfan ynghyd yng ngweithdy Tremewan, Abertawe, lle cafodd 'Blas Byw' ei rwymo - eto am bris gostyngol - llawer o ddiolch iddynt hwythau am waith mor chwim a destlus.

Cyfranwyd yr holl elw o werthiant y llyfr ar faes yr Eisteddfod yn Abergwaun gan y llyfrwerthwyr a stondinau eraill i Gronfa Arian Byw, a bellach mae staff y Ganolfan Lyfrau Cymraeg yn gofalu am ei ddosbarthu - yn ddi-dâl — i nifer o siopau llyfrau ledled Cymru, sydd eto wedi cytuno gyfrannu'r rhan fwyaf — y cyfan mewn rhai achosion — o'u helw i Gronfa Arian Byw. 'Rydym yn ddiolchgar dros ben iddynt i gyd am bob cymwynas.

Gan i gwmniau ac unigolion ledled Cymru, drwy nodd tudalennau, gyfrannu'n hael tuag at gostau cynhyrchu'r llyfr, bydd y gyfran fwyaf bosibl o'r arian o'i werthiant yn mynd i gronfa Arian Byw.

Wrth reswm heb y deunydd crai ni fyddai 'Blas Byw' yn bod — felly estynnwn ddiolchiadau allweddol i'r cogyddion a'r arlunwyr am gyfraniadau mor flasu a deniadol!

Y cyfan sydd ei angen felly yw i chwi ei brynu! Efallai'n wir for Arian Byw yn swyddogol yn dirwyn i ben — a phwy all beidio ag edmygu a diolch i Osian Wyn Jones am ei egni a'i weledigaeth yn ei sefydlu — ond mae'r angen yn parhau. Cydweithiodd llawer o bobl, yn barod iawn i wireddu'r syniad o gyhoeddi'r llyfr — sydd, yn y pen draw, yn fynegiant o brotest, Hoffem feddwl fod 'Blas Byw' yn fwy na chyfraniad ariannol i'r gronfa — ond yn hytrach, y bydd ei weld yn y gegyn o ddydd i ddydd yn ein hatgoffa o'n baint o gael byw mewn llawnder ac heb angen a'n dyletswydd parhaol tuag at eraill sy'n llai ffodus na ni,

Yn ddiffuant

Marred Jones a Siân Gruffydd,  
Caerdydd.

## CYLCHGRONAU'R URDD AR EU NEWYDD WEDD

Annwyl Ddarllenwyr,

Datblygiad calonogol iawn yn ystod y blynyddoedd diwethaf fu'r cynnydd yn nifer yr oedolion sy'n darllen Cymraeg yn rheolaidd yn sgîl llwyddiant eithriadol y papurau bro yng Nghymru. Ein cyfrifoldeb ni yn Adran Cylchgronau'r Urdd yw paratoi deunydd darllen Cymraeg i blant Cymru, darllenwyr y papurau bro yn y dyfodol. Tybed a yw eich plant chi yn cael cyfle i dderbyn ac i ddarllen Cylchgronau'r Urdd bob mis?

O fis Medi ymlaen bydd pob un o'n cylchgronau wedi eu hail-gynllunio'n ddeniadol ac yn lliwgar, a bydd eu delwedd yn fwy cyfoes ac apelgar nag erioed. Byddant yn cynnwys digonedd o

gwisiau, posau, cystadleuthau, cartwnau, storiâu ac erthyglau difyr.

Y ddau gylchgrawn ar gyfer Cymry Cymraeg yw — DERYN, comic lliwgar i blant dan 8 oed, sy'n addas i'w ddarllen iddynt neu ganddynt, a CYMRU'R PLANT, sy'n tynnu at ei gant oed, ar gyfer darllenwyr 9 - 14 oed, yn llawn amrywiaeth diddorol gan gynnwys cyfres o storiâu antur newydd sbon gan un o hoff awduron y plant, J. Selwyn Lloyd.

Ceir darpariaeth ar gyfer dysgwyr hefyd, — BORE DA, i ddysgwyr 7 - 12 oed, yn llawn cartwnau, deunydd darllen syml, cystadleuthau a gwaith y dysgwyr eu hunain, a MYND, ar gyfer dysgwyr mewn ysgolion uwchradd ac oedolion sy'n dysgu'r iaith. Addaswyd cynnwys MYND i gyd-fynd â gofynion yr arholiadau TGAU newydd, a bydd y defnyddiau sydd ynddo yn anhepgor i athrawon a disgyblion sy'n paratoi ar gyfer yr arholiad hwnnw.

Ceir cwynion mynych gan rieni nad yw eu plant yn cael cyfle i brynu'r cylchgronau hyn yn yr ysgolion mwyach. Os ydych am i'ch plant gael darllen y cylchgronau hyn bob mis, cysylltwch ag Adran y Cylchgronau, Swyddfa'r Urdd, Aberystwyth, ac fe ellir trefnu i'w hanfon i chi'n rheolaidd bob mis.

### PWYLLGOR AMDDIFFYN EIFIONYDD

Annwyl Olygydd

Gresynai Pwyllgor Amddiffyn Eifionydd fod Cyngor Dosbarth Dwyfor wedi methu'r cyfle i wneud safiad pendant a digyfaddawd ar fater yr 800 o dai haf arfaethedig ym Morfa Bychan. Bellach symudwyd arweiniad y frwydr o siambr y Cyngor a swyddfeydd y cyfreithwyr i ddwylo pobl Eifionydd. Eisoes cyhoeddwyd taflen gan Bwyllgor Amddiffyn Eifionydd i'w dosbarthu drwy'r fro; ynddi gosodir safbwynt y Pwyllgor yn eglur, ac fe amlinellir effeithiau'r datblygiad dinistriol hwn ar gymeriad Cymraeg a Chymreig Eifionydd. Ym mis Medi cynhelir cyfarfodydd cyhoeddus ym mhentrefi Eifionydd ac Ardudwy i egluro'n fanwl oblygiadau'r datblygiad hwn ar y fro. Bydd y cyfarfodydd hefyd yn gyfrwng i gadarnhau'r gefnogaeth i ymgyrchoedd Pwyllgor Amddiffyn Eifionydd.

Ysgrifennodd swyddogion y Pwyllgor at y datblygwyr yn eu hatgoffa fod mwyafrif llethol pobl y fro yn gwrthwynebu eu cynlluniau a dywedwyd wrthynt nad oes croeso iddynt yn Eifionydd. Fe'u rhybuddwyd hefyd fod Pwyllgor Amddiffyn Eifionydd yn barod i ymgyrchu yn gyson a diflino i rwystro'r datblygiad.

Emlyn Jones  
Tŷ'r Ysgol  
Morfa Bychan  
Porthmadog

**Cefnogwch  
ein  
Hysbysebwy**

## DILYN 'HEDDIW'



Ar nos Fercher, 15 Hydref bydd rhaglen gylchgrawn newydd S4C yn cychwyn — rhaglen newydd ond wedi ei seilio ar hen batrwm llwyddiannus a phoblogaidd.

Gobeithir cynnwys y gair **Heddiw** yn nheiti y gyfres newydd gan mai ei phrif nod yw cyflwyno eitemau tebyg i'r rhai ysgafn, bachog hynny fyddai'n rhan mor ddifyr o'r hen **Heddiw** — cyn dyfodiad S4C.

Dau gynhyrchydd y rhaglen gylchgrawn newydd fydd Wil Aaron, a arferai weithio ar yr **Heddiw** blaenorol, ac Iwan Roberts a fu am flynyddoedd yn ohebydd gyda'r **Dydd**. Bydd uned gamera yn, Ne Cymru ac un yn y Gogledd yn bwydo eitemau i'r rhaglen gan ddefnyddio'r technegau electronig diweddaraf — fformat Betacam.

Bydd tri chyflwynydd; Gwyn Llewelyn, a fu tan yn ddiweddar yn un o brif gyflwynwyr **Newyddion Saith**; Lyn Ebeneser, a fu am flynyddoedd yn ohebydd gyda'r **Cymro** ac sy'n gyfarwydd i wylwyr S4C fel cyflwynydd **Pwy Sy'n Perthyn**; a Catrin Beard o Gaerdydd, cyn-gyflwynydd y rhaglen gwis boblogaidd i blant **Ysgoloriaeth**.

Bydd y rhaglen gylchgrawn newydd yn elfen barhaol yn amserlen y sianel ac yn creu cyswllt agos rhwng S4C a chymunedau ledled Cymru. Y gobaith yw y bydd cymdeithasau ac unigolion ledled y wlad yn cynnig syniadau am eitemau yn ogystal â'r newyddiadurwyr proffesiynol. Ni fydd y cylchgrawn yn cael ei gyflwyno o stiwdio ond yn hytrach yn ymweld â gwahanol leoliadau ledled y wlad.

Yn ogystal bydd yma gydweithio rhwng y rhwydwaith o gynhyrchwyr annibynnol sy'n treiddio bellach i bron bob rhan o Gymru. Dyma fenter unigryw yn y maes annibynnol sef, cyd-gysylltu'r cwmniau trwy gynnig iddynt raglen ganolog y gallant ddarparu eitemau ar ei chyfer fel bo angen a phan ddont ar draws stori berthnasol yn eu hardaloedd eu hunain.

Rhaglen yr holl gynhyrchwyr annibynnol gyda'i gilydd fydd hon ac fe'i cynhyrchir gan ei huned gynhyrchu annibynnol ei hun.

**YN EISIAU  
TREFNYDD  
PLYGU I'R  
ECO**

**CYSYLLTER AG  
UNRHYW UN O'R  
GOLYGYDDION**



# DEINIOLEN

**GOHEBYDD: W.O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)**

## CLWB ELIDIR

Bydd Clwb Elidir yn ail ddechrau ar Fedi 9fed.

## MERCHED Y WAWR

Cynhaliwyd pwyllgor o'r uchod nos Lun, Mehefin 30 yn y Ganolfan. Etholwyd yr aelodau canlynol yn swyddogion am y flwyddyn Medi 1986 hyd Mehefin 1987. Llywyddes, Mrs. Jane Eirlys Williams, Ysgrifenyddes, Mrs. Megan Morris, Trysoryddes a Dosbarthwraig y Wawr, Mrs. Marian Wyn Williams; i ofalu am y llestri a'r tripiâu, Mrs. Jane Jones a Mrs. Mary Morris; Gohebydd y Wasg, Miss Kathleen Jones. Aelodau eraill y pwyllgor, Mrs. Beryl Hughes, Mrs. Gladys Jones, Miss Nancy Owen, Mrs. Peri Evans, Mrs. Betty Jones, Mrs. Kathleen Davies, Mrs. Miriam Lewis. Mae rhaglen amrywiol wedi ei threfnu ar gyfer y tymor newydd fydd yn dechrau ar nos Lun, Medi 15fed. Y siaradwr gwadd fydd Jane Edwards, y nofelydd enwog. Estynnir gwahoddiad cynnes iawn i aelodau newydd i ymaelodi â Merched y Wawr. Bu aelodau'r gangen a'u ffrindiau ar daith ddigrl nos Wener, Gorffennaf 18fed. Paratowyd y daith gan Mrs. Jane Jones a Mrs. Mary Morris. Cafwyd lluniaeth yng Ngwesty Kimmel Manor, Abergele. Roedd pawb wedi mwynhau noson hynod o ddifyr. Diolchwyd i Mrs. Jones a Mrs. Morris gan Mrs. Jane Eirlys Williams.

## PANEL PENTREF DEINIOLEN

Newyddion da i ieuencid y pentra!

Yn dilyn ymholiadau'r Panel uchod, mae Awdurdod Addysg Gwynedd wedi cytuno i'r Clwb Ieuencid fod yn agored ddwy waith yr wythnos yn ystod tymor 1986-87. Ni wyddys ar hyn o bryd pa nosweithiau fydd y Clwb ar agor, ond hysbysebhir hynny cyn gynted a phosib. Hyderir y gwneir llawn ddefnydd o'r noson ychwanegol, ac y caiff yr Arweinydd a'r Clwb gefnogaeth frwd yr ifaninc.

Bydd cyfarfod yn y Caban, am saith o'r gloch, nos Iau, 4ydd o Fedi, i drefnu gogyfer a Disgo i'w chynnal yn Neuadd y Ganolfan, ar nos Wener, 12fed o Fedi. Nodwch y dyddiad, a dewch yno i fwynhau awr neu ddwy o ddifyrwch. Gwylwch am y posteri am fanylion pellach.

## YN GWELLA

Da clywed fod Mr. R.O. Williams, 4 Tai Caradog yn gwella a Mr. Jason Jones, Gallt-y-Foel. Bu i'r ddau gael damwain yn ystod y mis a aeth heibio. Gwellhad buan iddynt.

## SEFYDLIAD Y MERCHED

Ni fu cyfarfod o'r Sefydliad mis Gorffennaf, ond aethpwyd ar wibdaith i weld y Ganolfan Nyddu yn Llanberis, ac oddiyno wedyn i Glantraeth, Sir Fôn i gael swper. Cafwyd noson ddifyr iawn a phawb wedi mwynhau ei hun. Diolchwyd i Mrs. Marian Williams am drefnu'r wibdaith gan Mrs. J. Eirlys Williams a Mrs. Beti Wyn Davies. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 1af, pan ddisgwylir Miss Margaret Williams, Bangor i siarad am Fwydydd lechyd.

## Y BADAU ACHUB

Yn ystod wythnos ym mis Gorffennaf, casglwyd £66.30 yn Neiniolen a Dinorwig er budd y Badau Achub.

Y casglwyr oedd Miss Nicky Marzelos - £22.04; Miss Heather a Mathew Hughes - £10.40; Miss Iona Wyn Williams, Dinorwig - £7.37; Mrs. Eileen Hughes - £2.97; Mrs. Yvonne Hughes a Mrs. Gloria Thomas - £8.65; Mrs. Rosina Worth a Mrs. E. Price - £14.67. 'Roedd hyn yn cynorthwyo'r trefnwyr i wneud cyfanswm cylch Caernarfon yn £1,457.74. Diolch i bawb am eu hymdrech.

## LLONGYFARCHIADAU

I lan, 10 Rhes Marian ar enill Gradd B.Sc. gydag anrhydedd mewn Microbioleg yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Bydd lan yn mynd ymlaen i astudio Meddygaeth yng Ngholeg Meddygaeth Prifysgol Cymru, Caerdydd. Pob dymuniad da iti lan.

Y gystadleuaeth nesaf i'r Seindorf yw ar Fedi 20fed ym Mae Colwyn. Bydd pum Band yn y gystadleuaeth yma, pryd y chwaraeir rhaglen o ugain munud yr un gan pob Band. (Entertainment Programme).

Ar y 6ed o Fedi bydd y Seindorf yn chwarae yn niwrnod agored Gwaith Pŵer Dinorwig.

## PRIODAS AUR

Hoffa Mr. a Mrs. Emlyn Griffiths, Rhes Uchaf, Rhiwlas, ddiolch i'r teulu, cyfeillion a chymdogion am y llu anrhegion a chardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur dathlu eu Priodas Aur ar Fehefin 17eg.

Mae Emlyn yn enedigol o Tan-yr-Henffordd, Clwt-y-Bont, ond yn byw yn Rhiwlas ers dros 50 o flynyddoedd.

## BREHNINES Y CARNIFAL

Ar ran Sioned, Brenhines y Carnifal eleni, dymuna Mr. a Mrs. Evans, Tai Gweledfa ddiolch i Bwyllgor y Carnifal, i Delyth Hunter am y Gwisgoedd, i Gloria Thomas an wneud y Goron, ac i'r holl ardalwyr am yr anrhegion a'r arian a dderbyniodd. Diolch yn fawr iawn.

## ETHEL MAY ROBERTS

Yn dawel yn ei chartref, 8 Cynfi Terrace, bu farw Ethel May Roberts, priod y diweddar Hugh Lloyd Roberts, a'i rhagflaenodd 37 o flynyddoedd yn ôl. Bu'n byw yn yr ardal ar hyd ei hoes ac yn aelod ffyddlon yn Eglwys Cefn-y-Waun. Bu'n Gogyddes am rai blynyddoedd yn Ysgol Llandinorwig hyd nes i honno gau ac yna yn Ysgol Brynrefail, Llanrug.

Pan yn ifanc, ac yn wir ar hyd ei hoes ei diddordeb mawr oedd canu. Bu'n cystadlu a chadw cyngherddau fel unawdydd ac aelod o bartion. Bu'n aelod o Gôr Merched Llanberis am flynyddoedd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf bu'n un o arweinyddion y gân yn Eglwys Cefn-y-Waun.

Dymuna teulu y diweddar Ethel May Roberts ddiolch o galon am y caredigrwydd a ddangoswyd tuag ati tra yn yr ysbyty ac yn wael gartref. Diolch hefyd am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsom yn ein profedigaeth ac am haelioni'r ardalwyr. Trosglwyddir yr arian i Apêl Sganydd Ysbyty Gwynedd er cof amdani.

## DIOLCH

Dymuna Gwerfyl, Anna a Mrs. M. Morris, Rhydfadog ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd atynt yn eu profedigaeth. Hefyd am y rhoddion hael a dderbyniwyd tuag at Gronfa'r Clinic.

Dymuna Mrs. Vera Parry, Bro Dawela a Mrs. Elizabeth Evans, 2 Tai Gwyrfa, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt hwy a'u teuluoedd yn ddiweddar, ar achlysur colli eu mam.

Dymuna teulu'r diweddar Robert Jones, Blaen y Cae, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth.

Diolch hefyd am y rhoddion ariannol a dderbyniwyd tuag at Apêl Sganydd Corff Ysbyty Gwynedd

Dymuna Mr. John Williams ddiolch yn gynnes iawn i'r meddygon a staff Ysbyty Gwynedd. Hefyd i'r teulu oll a'r cymdogion a chyfeillion i gyd am bob caredigrwydd tra yr oedd yn yr ysbyty. Hefyd am y llu o gardiau. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Hugh John a'r teulu, 9 Maes Gwylfa, Deiniolen ddiolch i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd ac ymweliad tra yn Ysbyty Gobowen ac adref. Diolch i bawb.

Ac hefyd dymuna Mrs. James ddiolch am yr holl gardiau a'r blodau hardd a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. Diolch hefyd i staff Ward Glyder am eu gofal a'u caredigrwydd. Diolch yn fawr i bawb.

Dymuna Miss Dilwen Haf Williams, 6 Rhydfadog, ddiolch i'w mam a'i thad, y teulu a ffrindiau oll am yr anrhegion a'r arian a dderbyniodd pan yn dathlu ei phen-blwydd yn ddeunaw oed ar Orffennaf 28fed.

Dymuna Graham Williams ar yr achlysur o ddathlu ei ben-blwydd yn un-ar-hugain oed at Orffennaf 25ain. Diolch i bawb.

Dymuna Mrs. Bessie Roberts, 33 Pentre Helen, Deiniolen ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am eu caredigrwydd tuag ati tra bu yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Diolch hefyd i'r meddygon a'r nyrsus ar wardiau Alaw ac Aran. Diolch i bawb.

Dymuna Gwyn, 9 Maes Gwylfa, Deiniolen, ddiolch i'w deulu a'i ffrindiau am yr anrhegion, arian a chardiau a dderbyniodd ar ei ben-blwydd yn ddeunaw oed.

Hoffa Miss L.M. Lewis, Rhes Vaynol ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion a'r doctoriaid pan yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Dinbych yn ddiweddar.

Diolch i chwi oll ar ran ein merch Nicola Louwis Taylor. Am y nifer cardiau a'r anrhegion, i Delyth, Bull Inn am wneud y wisg, ac i Mrs. Land am drefnu'r blodau, a'r Pwyllgor i qvd.

## DYDDIADAU'R MIS

Bingo bob nos Wener yn y Band Room, yn dechrau am 8 o'r gloch.

Yn y Ganolfan bydd "Operation Sport" - Eyrn Williams, bob dydd Sadwrn o 10 am - 1 pm, i ddechrau ar Fedi 6ed.

## CARNIFAL DEINIOLEN

Gorffennaf 12fed 1986

Cafwyd cefnogaeth dda drwy'r wythnos. NOS LUN: Chwaraeon o dan ofal Mr Brymer Parry a Mr John Maxwell. Noson dda a digon o hwyl. Ni chawsom 'Tug of War' oherwydd torrodd y rhaff. Diolchiadau i Brymer a John Maxwell. NOS FAWRTH: Gemau pêl-droed 5 bob ochr o dan ofal Mr Gareth Hughes (Bala). Oherwydd bod cymaint o dimau bu raid gorffen y gemau nos Fercher. Diolch i Mr Hughes am ei amser a'i help. NOS FERCHER: Cyngerdd y plant yng Nghapel Eben (Festri) o dan ofal Mrs G. Davies a Mrs E. Williams. Arweinydd y cyngerdd oedd Mr Hefin Jones a'r gŵr gwadd oedd Mr J.E. Thomas, brodor o Ddeiniolen ond sydd yn awr yn byw yng Nghaernarfon. Ein diolch iddynt am fod mor barod i'n helpu a hefyd y plant am ein difyrro mor dda. NOS IAU: Disco i'r plant yn yr ysgol gan 'Sound Out' Disco ac unwaith eto noson dda iawn. Gobeithir cynnal Disco arall yn y dyfodol. NOS WENER: 'Pronto' yn y caban a Mr Evans yn galw. Noson fwynhaol. Ein diolch i Mr Evans am ei amser a'i amynedd. Hefyd 'roedd rownd



## BECWS DEINIOLEN

(D.E. & R.P. JONES)

Ffôn: LLANBERIS 870232

**BARA FFRES A THEISENNAU BLASUS**

Hefyd gwerthwyr CALOR GAS

## J.M. JONES a'i FEIBION

**GWAITH CERRIG BEDDAU**

## DEINIOLEN

(gyferbyn â'r Ysgol Gynradd)

Crefftwyr Gwaith Llaw Traddodiadol  
Cerrig o Bob Math ar Gael

**Ffôn: LLANBERIS 872518 (Dydd)  
Y FELINHELI 670124 (Nos)**



## DEINIOLLEN parhad

derfynol y dartiau yn y Bull a'r Wellington. SADWRN: Diwrnod y carnifal. Cychwynnodd yr orymdaith o Rydfadog o dan arweiniad Band Deiniolen a'r Majorettes. Agorwyd y Carnifal gan Mr John Williams a fu'n garedig yn dod ar fyr rybudd yn lle Mr Gwilym Effrwd Roberts. Brodor o Ddeiniolen yw Mr Williams ac yn awr wedi dychwelyd i'r ardal i fyw. Mr Edwin Evans oedd yr arweinydd a threfnodd bob dim yn ardderchog. Coronwyd y Frenhines Sioned a'r dywysoges Carolyn gan Mrs Clarice Roberts a oedd hefyd yn un o'r beirniaid. Y beirniaid eraill oedd Mr a Mrs John Williams, Mr Hywel Roberts a'r ferch Sioned. Carem ddiolch i'r plant a'u rhieni am eu gwaith a'u hymdrechion. Cafodd Sioned a Carolyn unsain gan ddau aelod o'r band pan oeddynt yn cael eu coronu. Diolch i Delyth am wneud y dillad i Sioned a'i llys a Carolyn ac i Gloria am wneud y goron. Gwaith gwyh iawn. Diolch hefyd i'r merched a wnaeth y wledd i'r frenhines, y dywysoges a'i

gwesteion. Diolch arbennig i Mrs E. Maxwell am wneud y deisen. Diolchwn hefyd i'r rhai a gyfrannodd at y gwobrau raffl ac fe hoffai'r pwyllgor ddiolch i bobl Deiniolen am gefnogi'r Carnifal.

## COFIWCH AM EISTEDDFOD GADEIRIOL GWAUN GYNFI

HYDREF 24ain  
a'r 25ain

## DINORWIG

Gohebydd: Mr D.J. Thomas, 8 Maes Eilian

Egwyl rhwng dau dymor yw hi ar hyn o bryd pan ysgrifennaf y nodiadau hyn - mae un tymor wedi dirwyn i ben gyda mis y gwyliau a thymor arall yn ail ddechrau gyda mis Medi.

Aeth cyfnod y cyrddau pregethu heibio yn "St. Mair" a "Sardis" a dim llawer i'w gofnodi o'r manau addoli hyn. Ynglŷn â "Sardis" fel ddylwn grybwyll i ni deimlo gwefr o weld Miss Ellen Wyn Jones, Ty'n Fawngog ar y teledu ar achlysur ei hymweliad â 'Garthewin', lle bu hi ar un adeg yn ymarfer ei doniau am myd actio ar lwyfan. Fe gofiof i'm ymysylltiad a fu rhwng y diweddar Mr. Saunders Lewis â theulu'r Wyniaid sy'n byw yng 'Ngarthewin', a'r symbyliad a roddwyd ganddo ef i'r ddrama Gymreig. Fe drawsfeiddianwyd cryn nifer o stadau eraill gan deuluoedd o drâs Seisnig.

### CROESO I'R ARDAL

Da oedd gan yr ardal ddeall bod tenantiaid newydd wedi ymsefydlu yn Nhŷ Capel Dinorwig (M.C.) Mr. a Mrs. William Morris a'u mab Mr. David Morris sydd yno bellach - y gŵr yn fab i Mr. David Morris, Cefn Coch, Deiniolen, a theulu Tŷ'r Ysgol, Dinorwig eisoes yn aelodau yng Nghapel Dinorwig - gwraig Tŷ'r Ysgol, hithau o'r un teulu. Mae Capel "Sardis" hefyd yn edrych ymlaen at weld teulu arall yn ymsefydlu yn y tŷ capel yn y dyfodol agos ar ôl gweld cwblhau'r trefniadau i gyfarfod â gofynion deddf gwlad, fel bod y cyfan ar sail ddiogel.

### Y GYMDEITHAS UNDEBOL

Fe gyfarfu nifer o arweinwyr Cymdeithas Ddiwylliadol Undebol yr ardal fel pwyllgor i adolygu'r trefniadau ar gyfer y tymor nesaf, ac fe benderfynwyd pwy oedd i lywyddu'r gwahanol gyfarfodydd ar hyd y tymor. Mae ysgrifennydd y W.E.A (yr ysgol nos ar lafar gwlad) yn brysur yn paratoi ar gyfer sesiwn byr arall, hwnnw'n gorffen cyn i gyrddau'r gymdeithas Ddiwylliadol ddechrau ar ôl yr Ŵyl Ddiolchgarwch.

### DIOLCH

Dymuna Mrs. M. Fleming, Maes Eilian ddiolch i'r teulu, cymdogion a chyfeillion am y cardiau, anrhegion a'r caredigrwydd a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd yn cael triniaeth lawfeddygol ac wedyn ar ôl dod adre'n ôl.

LLONGYFARCHIADAU'r ardal i Miss Gwyneth Davies, merch Mr. a Mrs. Gwilym Davies, 10 Bro. Elidir. Fe enillodd hithau radd neu ddiploma mewn Addysg.

### GWELLHAD

Fe fu Mrs. Fleming, 1 Maes Eilian am driniaeth law-feddygol ar ei llygad, ac mae'r dolur bellach wedi esmwythau, ac mae ar eiddo ddiwyllwr wellhâd. Anhwyf gyda'i llygaid sydd hefyd yn poeni Mrs. Bet Roberts, 7 Maes Eilian, ac mae hithau'n gobeithio mynd am driniaeth ym mis Medi.

Yn gynnar ym mis Awst fe fu Mrs. Katie Lewis, Maes Gwylfa, Clwt-y-Bont yn yr ysbyty a dod oddi yno. Yn Ninorwig yr oedd ei gwreiddiau hithau, gan mai un o ferched "Bryn Sardis" oedd hi - cyn symud ohoni yn gyntaf i "Hafod y Braich", ac wedyn i "Faes Gwylfa". Ein dymuniad yw y bydd yn ad-enill ei nerth, ac y cawn eto ei chwmmi yng Nghapel Sardis.

Gofid oedd clywed hefyd i Miss Lil Roberts, gynt o "Maen Gwyn", ond a symudodd o'r ardal i fyw ym Mangor, dorri ei choes yn ddiweddar, ac fe fu raid ei chludo hithau i'r ysbyty.

Fe ddaeth ton o dristwch i'r ardal o glywed am farwolaeth y Parch Ieuan Bryn Williams, Cyffylliog - yntau wedi bod yn gyn-weinidog yng Nghapel Dinorwig, a'i wraig wedi bod yn cyfeilio er hyfforddi llawer i ganu. 'Roedd Mr. Williams yntau'n gymeradwy iawn gan do o ieuencid yr ardal - rhai o Eglwys "St. Mair", eraill o "Sardis". Dyma'r adeg pan oedd bri ar Obeithlu yn y Festri. Nid pob gweinidog ysywaeth sy'n boblogaidd fel hyn - y ddawn i ddenu'r ieuanc heb fod ganddynt!

Heb fod ymhell o'r ardal hefyd mae Mrs. Roberts, "Bron Cyfni", Deiniolen hithau wedi bod am beth amser yn yr ysbyty, ond bellach adre'n ôl yn ei chynefin.

### LLONGYFARCHIADAU

Mae hi'n ddyletswydd arnom i longyfarch Band Deiniolen ar fod mor llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni. Fu fuom gryn dipyn ar eu gofyn i wasanaethu yn y Ganolfan yma, ac roeddynt yn barod iawn i roddi noson i ni yn y Gymdeithas Ddiwylliadol Undebol a phawb yn gwerthfawrogi pob cyfraniad o'r eiddynt.



Criw o hogia chwarel — pryd, pwy, lle?

CANMLWYDDIANT Y "CLOAD ALLAN" YN CHWAREL DINORWIG. HYDREF 29, 1875 hyd MAWRTH 2, 1876.

Dyddiaduron William Morris, Bron Fuches, Dinorwig (Stiward yn y Chwarel). Hydref 12, 1875 : Y chwarelwyr yn ymgynhyrfu, ac yn myned yn ganoedd at Graig yr Undeb i siarad.

Hyd 29: Y chwarelwyr trwy orchymyd, yn dechrau mudo eu holl arfau o'r chwarel. Hyd 30: Yn parhau i fudo eu harfau.

Hyd 30: "D.S. Cyfrif" heddyw, sef Oct 31, 1875. Dechreu talu am 3 o'r gloch nawn ar eu hymadawiad o'r Chwarel.

Tach 11: Stopio ychydig oedd yn parhau i lwytho.

Nov 28: Talu i'r gweddill gadd weithio hyd heddyw.

Rhag 14: Canoedd o derfysgwyr, meibion a merched, yn ymgynnull at Blue Peris a rhybuddir Mr. Davies a Parry, Elidir View i beidio myned i'r Chwarel na'r office; oddiyno at Rt Williams, Llidiart y Clo ac at Robt Roberts, Bryn Llys (doctor).

Rhag 31: Dim gweithio ers 9 wythnos. Caniatwyd i'r dynion weithio, neu dyfod i'r office i gymeryd gwaith y 14eg o Rhagfyr 1885 ond gwrthodasant fel diafliaid trwy fygythio Mr. Vivian, a'i orchymyn i ymadael a'r lle ar 10 munud o rybydd neu gymeryd y canlyniad. O ddynion yn proffesu bod yn Gristnogion!!!

Ion 11 1886: Cynig gwaith yr ail-waith i'r Chwarelwyr. Hwytiau yn gwrthod.

Chwef 6: 14eg wythnos heb weithio yn y Chwarel.

Chwef 8: Heddyw. Cynig i'r Chwarelwyr

gael gweithio trwy roddi eu henwau yn yr office - ond gwrthod.

Chwef 13: 15ed wythnos i beidio gweithio yn y Chwarel.

Chwef 15: Y chwarelwyr yn cwrdd ar Graig yr Undeb, oddiyno i'r office i roddi eu henwau am waith.

Chwef 20: 16ed wythnos heb weithio. Derbyn ticedau yn yr office heddyw i fyned at eu gwaith yn y chwarel.

Chwef 27: Dwy wythnos ar bymtheg heddyw heb weithio yn y chwarel.

Mawrth 2: Dechreu gweithio ychydig, lluwchfeydd eira yn rhwystro.

Yna â William Morris rhagddo i gofnodi y tywydd caled a wynebodd y chwarelwyr pan ddechreusant weithio. Gallwn ddychmygu y caledi a'r tloedi a ddioddefasant - dwy wythnos ar bymtheg heb waith - yna tair wythnos o rew ac eira ac oerni yn gwneud gweithio yn anodd.

Mawrth 1: Bwrw eira a lluwchio. Mawrth 2: Bwrw eira a lluwchio. Yn bur oer.

Maw 3: Bwrw eira a lluwchio.

Maw 4: Sych a rhewog.

Maw 5: Sych, oer a rhewog. Hen eira tew yn aros.

Maw 6: Sych, oer.

Maw 7: Sych, oer a hanlo.

Maw 8: Sych.

Maw 9: Dwyrein wynt a rhewi yn enbyd.

Maw 10: Sych a rhewi.

A thywydd fel yna barhaodd hyd y 19eg.

A. Thomas

Llanor

Awst 22, 1986

## SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

## 'INSULAFUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG

Ffôn: Llanberis 871376

## TAC SIS

# AMBERLINE

UNRHYW AMSER - UNRHYW BELLTER

Ffôn 670555



# WAUNFAWR

**Gohebydd: Mrs G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr)**

**CRONFA CANOLFAN WAUNFAWR**  
Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Mehefin a mis Gorffennaf:-

1. £40 Haydn Jones, Rhandir Mwyn.
2. £25 John Cadwaladr, 3 Glyn Afon.
3. £10 Susan Davies, Hafod Wen.

1. £40 I Bracegirdle, 23 Bro Waun.
2. £25 E.V. Hughes, Cae Main.
3. £10 B. Walker, Snowdonia park Hotel.

## EISTEDDFOD YR ARDAL

Mae rhestr testunau'r Eisteddfod eleni ar werth yn y ddwy siop leol. Hyderir fod cystadleuaeth wrth eich bodd ac y bwriwch ati'n frwdfrydig er mwyn cael 'Steddfod dda eto eleni.

## CEFNOGWYR Y NANT

Llongyfarchiadau i Bob Eaglestone, Tremallt, ar gwblhau Marathon yr Urdd yn y Bala. Yr oedd wedi ei noddi i godi arian ar gyfer tai i'r anabl yn Nant Gwrtheyrn a hyd yma casglwyd dros £60 o bunnoedd. Os oes unrhyw un sydd heb roi'r arian sy'n ddyledus, cysylltwch â Bob cyn gynted ag sy'n bosibl.

## YR URDD

Noson Ymaelodi yn y Ganolfan am 6.0 o'r gloch, nos Fercher, Medi'r 10fed.

**CYDYMDEIMLWN** â Mrs. Eurgain Eames, athrawes yn yr ysgol, ar golli tad.

## LLONGYFARCHIADAU

I Catherine a Meirion Jones, Crud yr Awel, ar fod yn nain a taid am y tro cyntaf. Ganwyd mab i Kevin a Bronwen;

I Carmen Pierce, Bryngwyn, ar ei phen-blwydd yn 18 oed, ac i Gethin Williams, Ardwyn, ar ei ben-blwydd yntau yn 18 oed.

I Huw Owen, 18 Tref Eilian, ar ei ddywedd iad â Karen Owen o'r Felinheli.

I Kevin Parry, 4 Bro Waun, ar ei briodas â Karen Evans o Fethel.

I VMALIE Griffiths, Bro Waun, ar ei phriodas â Steven Williams, o Gaernarfon.

I'r canlynol ar eu llwyddiant mewn arholiadau cerddorol yn ddiweddar:-  
**THEORI:** Gradd 1 - Elin Gwilym, Lidiart Wen; Alaw Meleri, Rhandir Mwyn. Gradd 2 - Rhys Sion, Pant Teg.

**PIANO:** Gradd 2 - Ella Wyn Jones, Graianfryn (Teilyngdod). Gradd 3 - Meilir Gwynedd, Nant (Teilyngdod); Bethan Wyn, Y Frenni (Teilyngdod). Gradd 4 - Euros Wyn, Y Frenni; Osian Gwynedd, Nant (Anrhydedd).

I oll o blant y pentref a wnaeth mor ardderchog yn eu arholiadau Lefel A, O a Otaw. Pob llwyddiant iddynt yn y dyfodol.

## YN YR YSBYTY

Anfonwn ein cofion a'n dymuniadau

gorau am lwyr wellhad buan, at Mrs. Faulkner, Penclip, a Mr. Robert Lewis Parry, Rhos Eilian. Gobeithiwn y cawn eu gweld adref yn o fuan.

## ADREF O'R YSBYTY

Bu nifer o drigolion y pentref yn yr ysbty yn ddiweddar sef Mrs. Ann Jones, Heulfryn, Mari Bevan, Swyddfa'r Heddlu, Miss Julie Roberts, Ael y Bryn, Mrs. Enid Jones, Tref Eilian, a Mr. Roy Allen, 2 Pen y Bont. Braf yw cael eu croesawu gartref yn holliaich.

## YR YSGOL FEITHRIN

Mehefin 27: Cynhaliwyd disco llwyddianus yn y Ganolfan ar gyfer plant y pentref.

Gorffennaf 10: Trip blynyddol y plant. Sŵ Bae Colwyn oedd terfyn y daith, a chafwyd diwrnod difyr gan y plant a'r rhieni.

Gorffennaf 11: Diolch i Robat Williams, Bryn Meurig am drefnu Helfa Drysor a achosodd gryn gwrpen i rai ohonom! Menna, Elfyn, Iris a Keith oedd yr ennillwyr - gyda Christine, Gary a Pearl yn cael y "booby".

Ffarweliodd y plant a'i hathrawes, Mrs. Eluned Davies o Fethel, ar ddiwedd y tymor. Diolch iddi am ei gwaith yn y cylch, a phob llwyddiant iddi yn ei swydd newydd. Mrs. Glenda Roberts, o Rhostryfan, fydd yr athrawes newydd. Fe fydd tymor yr Hydref yn dechrau ar Fedi 2, am 10 o'r gloch. Dewch am 'baned' a chael sgwrs â'r athrawes newydd. Mae'r Ysgol Feithrin yn agored o 9.15 am hyd 11.15 am boreau Llun i lau. Am fanylion pellach cysylltwch â Mrs. Sylvia Jones - ffôn Waunfawr 592.

Oherwydd gweithgareddau diwrnod Ras yr Antur ar Fedi 6ed, penderfynwyd peidio a chynnal Ffair Ha' Bach Mihangel ar Fedi 13eg yn lle hynny cynhelir Noson Goffi ym mis Hydref.

## CANGEN WAUNFAWR O BLAID CYMRU

Cafwyd noson llwyddiannus dros ben unwaith eto pan ddaeth aelodau'r Blaidd ynghyd am yr Helfa Drysor a'r Barbaciw blynyddol ar nos Sadwrn, 19eg o Orffennaf.

Achosodd y teithwyr dipyn o benbleth i drigolion yr ardal wrth graffu dros waliau'r gerddi tra'n ceisio canfod ystyr y cliws, ond chwarae teg daeth ambell berchen i'w cynorthwyo yn llawn chwilfrydedd. Ar ôl peth pendroni a phrysurdeb o gwmpas y gofologofn, gwelwyd sawl criw yn gorfod mynd yn ôl i'r man cychwyn i roi ail gynnig ar ambell gliw dyrys gan ochneidio.

Diddorol wrth fynd ymlaen oedd dod o hyd i sawl un mewn osgo go ryfedd fel pe bai'n ymarfer ar gyfer y Gemau Olympaidd. Cafwyd nifer yn cofleidio coed a pholion trydan, eraill



ar eu pengliniau o flaen carreg fawr yn eu cwmnau yn sylly i ffos.

Ni chafodd yr ardal erioed well sylw, wel nid ers llynedd beth bynnag, a'r trysor oedd barbaciw ardderchog, a'i haroglau yn codi o ardd 'Argoed' ymhell cyn datrys y cliw olaf.

Brafar ôl cyrraedd 'adref' oedd cael cwmni annisgwyl Henri ac Eifiona Roberts o Gaiman, Patagonia, Dr. John Gwilym Jones, Y Groeslon a John Roberts o Benygroes, ond llwyddodd yr aelod ieuengaf, sef Anna, merch fach newydd Joy ac Eifion Glyn i dynnu sylw pawb cyn diwedd y noson.

Rhoes y glaw mân esgus i rai ffoi am gysur y pentan wrth iddi nosi, lle cafwyd canu swynol iawn gan barti o dan arweiniad Helen, Ty'n Coed.

Ein diolchiadau i John Huws am baratoi'r Helfa Drysor ac iddo fo a'i wraig Heulwen am y croeso cynnes ar eu haelwyd, heb anghofio hefyd am waith Heulwen, Dic a Rob i fodloni'r boliau gwag buddugoliaethus. Edrychwn ymlaen at nosonystal flwyddyn nesaf.

MEDI 12ed yn Llety, Caeathro - Cynhelir Swper Glyndŵr ar y cyd efo Cangen Bontnewydd, y gŵr gwadd fydd Mr. Maldwyn Thomas. Os am docynnau cysyllter â Gill Brown.




## MERCHED Y WAWR

Nos lau, Mehefin 26, aeth 32 o aelodau Cangen Waunfawr o Ferched y Wawr am wibdaith i Nant Gwrtheyrn. 'Roedd yn noson arbennig o braf a chychwynnodd y merched ym mws Cwmni Arfonia

6.30 gyda'r nos mewn hwyliau da. Ar ôl cyrraedd roedd Land Rover y Ganolfan laith yn ein disgwyl ac fe aeth 11 o'r rhai oedd yn cyfaddef nad oeddynt mor heini a'r gweddill i lawr i Nant Gwrtheyrn gyda Mr. Dylan Morgan, Trefnydd y Ganolfan laith,

**AM DRIP CYFFYRDDUS, DIOGEL A RHAD  
I BLE BYNNAG Y BO . . .**



**BWSIAU ARFON**

**LLANRUG**

(ERIC MORRIS)

Ffôn: Caernarfon 5175  
neu Bangor 51981

**Aled Jones**

Peiriannydd  
Gwres Canolog  
a Phlymio

**4 Bryn Eglwys  
Penisarwaun  
Ffôn: Llanberis  
871047**

**OSMOND  
SHAW  
DEINIOLLEN**

Gwerthu  
a thrwsio  
Teledu Lliw  
Newydd ac Fel  
Newydd  
GWASANAETH  
ATEB  
FFÔN 24 AWR  
**LLANBERIS 870545**



## WAUNFAWR

wrth y llyw. 'Roedd digon o weiddi gan rai o'r merched wrth weld y dibynog. I ddigwyl y cerddwyr aethom i'r Capel sydd wedi ei ail-addasu, ac wedyn aeth Mr. Morgan a ni i weld y tai sydd wedi cael eu trwsio ac sydd wedi cael talu amdanynt gan wahanol gymdeithasau. Cafwyd amser difyr iawn a diweddiwyd y noson gyda swper da a oedd wedi ei baratoi gan y Ganolfan laith. Dwn i ddim os y ffaith eu bod wedi bwyta cymaint oedd yn gyfrifol a'i peidio, ond roedd 'na lawer mwy yn cael pas yn ôl i Lithfaen ar y Land Rover nag aeth arno ar y ffordd i lawr i'r Nant. Noson fendigedig a phawb yn canmol y daith.

Pan oeddym yn cyfarfod amser bywyd cyfeiriodd Mrs. Cadi Jones, y Llywydd, at waeledd Mr. John Williams, gŵr Mrs. Nelly Williams, aelod o'r Pwyllgor, a phenderfynwyd anfon ein dymuniadau gorau am wellhad buan iddo.

Croesawyd Mrs. Elen Jones, Stâd Bodhyfryd, yn aelod newydd, a llongyfarchwyd Mrs. Joy Glyn ar enedigath merch fach.

Diolchodd Mrs. Cadi Jones i aelodau'r Pwyllgor 1985-86 am eu cydweithrediad yn ystod ei thymor fel Cadeirydd, a diolchodd Mrs. Mary Vaughan Jones, i Mrs. Cadi Jones am ei gwasanaeth fel Cadeirydd.

## ATGOFION AM BENTREF Y WAUNFAWR

— drigain mlynedd yn ôl  
Mrs Hughes, Llys Meredydd

Deuthum i'r Waunfawr yn Nyrs yn 1926, blwyddyn y Streic Fawr. Y peth cyntaf a ddaeth i'm sylw oedd fod pawb yn y Waun yn cario coed, oherwydd 'doedd neb wedi cael glo ers amser, a doedd dim trydan yn y pentref. Yn ychwanegol at hynny, 'roedd oil lamp ar 'rations'. Felly, doedd dim ond coed amdani!

Yr adeg honno roedd llawer o siopau yn y Waunfawr. Cofiaf am ddeg siop groser, a thair o'r rheini'n gwerthu glo a blawdiau. Roedd siop Bryn Pistyll yn gwerthu pob dim, gan gynnwys dilladau pobl a phlant a dilladau gwelyau. Roedd yno hefyd bump o siopau bwtsiar a phedwar o gryddion. Ym Mhantafon roedd siop esgidiau ac yr oedd yma hefyd un siop yn gwerthu paent a phapur papuro. Credaf fod dau weithdy saer yma hefyd. Roedd yma ddigon o ddewis felly i borthi anghenion materol y pentrefwyr.

I ddiwallu eu hanghenion ysbrydol roedd dau weinidog



Owen Jones oedd biau'r siop uchod Methodist, un Annibynnol, un Ficer a chiwrat. Bellach, er bod nifer y tai yn y Waun wedi cynyddu, does ond rhyw ddwy siop yma, a dim un gweinidog.

Bryd hynny roedd mynd mawr ar y trên bach; caech fynd o stesion Waunfawr i Borthmadog am ddau swllt — yno ac yn ôl. Roedd iard lo yn y stesion, ac ar y trên y deuai'r nwyddau i gyd i'r siopau — neu ar dracson oed Morris a Jones. Un teliffon oedd yn y pentref, a hwnnw yn y Swyddfa Bost.

Un peth yn unig sydd heb newid

yn y pentref ers y dyddiau hynny yw Bysus Whiteway; credaf iddynt hwy fod ar y ffordd ers 1911.

Roedd gwaith y nyrs yn galed iawn yr amser hwnnw. Roedd yn rhaid talu am wasanaeth y doctor, ac felly at y nyrs y deuai pawb pan fyddent wedi brifo — roedd y nyrs i'w chael am ddim. Roeddwn yn gofalu am bedair o ysgolion ac yn gorfod ymweld â hwy o leiaf unwaith bob mis. Doedd dim sôn am gartrefi i'r henoed y pryd hwnnw, a gartref y câi pob plentyn ei eni. Does ryfedd fod gwaith nyrs mor brysus.

## ENILLWYR TARIANAU'R YSGOL GYNRADD



Enillwyd Tarian Gerddoriaeth yr Ysgol eleni gan Osian Gwynedd. Ef hefyd enillodd y Darian am y cywaith gorau. Enillwyd Tarian Pencampwraig Mabolgampau'r Ysgol gan Diane Davies a Tharian Pencampwr Mabolgampau gan Sam Pierce.

Derbyniodd y plant canlynol dystysgrifau am gadw'r ysgol heb golli: Gwenno Mai Owen, Gavin Owen, Sara Williams, Sam Pierce ac Osian Gwynedd. Llongyfarchiadau arbennig i Osian am ennill ei chweched dystysgrif. Un diwrnod yn

unig a gollodd tra yn yr ysgol gynradd.

Apwyntiwyd Mr. Gareth Wyn Williams yn ddirprwy brifathro'r ysgol i olynu'r diweddar Mr. R.H. Owen. Yn enedigol o dref Caernarfon bu'n dysgu yn ysgolion cynradd Penraeth a Llangefni. Dymunwn y gorau iddo a gobeithiwn yn fawr y bydd yn hapus yn ei swydd newydd.

**YN EISIAU  
GOHEBYDD NEWYDDION  
BETWS GARMON**

## BETWS GARMON

YMRYSON CŴN DEFAID - Awst 15, 16

'Roedd yr ymryson yn llwyddiant eto eleni gyda'r gwobrau'n mynd i:

**DOSBARTH CYNTAF** 1. J.G. Jones, Waunfawr, 2. E. Lewis, Llanfairfechan, 3. G. Pritchard, Llangybi, 4. Alan Jones, Pontllyfni, 5. E. Brooks, Talybont, 6. E. Griffith, Waunfawr, 7. H. Davies, Y Ffôr.

**AIL DDOSBARTH:** 1. J.R. Griffith, Talysarn, Cydradd 2il. E. Williams, Tregarth a A.H. Roberts, Ysbyty Ifan, 4. V. Hughes, Rhosmeirch, 5. J. Roberts, Rhosybol, 6. E. Roberts, Rhosybol, 7. E. Griffiths, Waunfawr.

**DOSBARTH tri:** 1. E. Lewis, Llanfairfechan, 2. V. Hughes, Rhosmeirch, 3. J.G. Jones, Waunfawr, Cydradd 4. J.G. Williams, Trefor, Môn a G. Jones, Tremadog, 6. E. Lewis, Llanfairfechan.

**DOSBARTH LLEOL:** 1. J.G. Jones, Waunfawr, 2. Emyr Evans, Betws Garmon, Cydradd 3. M. Owen, Ystrad Isa a 5. A. Williams, Garreg Fawr, 6. A. Williams, Garreg Fawr.

**Tlwsau Ychwanegol:** Tarian Goffa Morris Jones, Tŷ Coch: J.G. Jones, Waunfawr

Cwpan Goffa J. Lewis, Trosgol: J.G. Jones.

Cwpan dan 21 G. Thomas, Penygroes: V. Hughes, Rhosmeirch, Môn.

Cwpan dan 15 oed R a P Parry, Waunfawr: M. Owen, Ystrad Isaf.

Enillwyr y Raffl 1. Oen Cymreig - E. Williams, Gorffwysfa, Waunfawr; 2.

Sachaid o fwyd cŵn: J. Ellis, Nant Peris; 3. basgedaid o Nwyddau: C. Turnbull, Victoria, Llanberis; 4. Lamp Ochwr Gwely: Gwilym, Ystrad; 5. Basgedaid o Lysiau: Minafon, Waunfawr; 6. Sandalau merch: S. Roberts, Llanrug; 7. 6 gwyrdd gwin: G. Sutherland, Victoria Hotel, Llanberis; 8. Basgedaid o ffrwythau: A. Jones, G.C.C. Llanberis; 9. Cwpanau tŷ: A.C. Jones, Llanberis; 10. Siocled: M. Mothrsale, Y Borth, Môn; 11. Potel chwisi: S. Morris, Aelybryn, Waunfawr; 12. Tocyn llyfrau: J. Evans, Bethesda; 13. Tacen gartref: G. Jones, Tŷ Capel, Rhyd Ddu.

**Sachaid o fwyd cŵn ar y cae:** I. Morris, Bethel. **Coler ci:** Alan Jones, Pontllyfni.

**LLONGYFARCHIADAU** i Sara Williams, Parc, ar lwyddo yn ei harholiad piano, Gradd I gyda theilyngdod, ac i David Williams, Parc, ar ei lwyddiant yntau yn ei arholiad Lefel A.

**LLONGYFARCHIADAU** hefyd i Eurig Jones, Bryn Gloch ar lwyddo yn ei arholiadau terfynol gydag anrhydedd yng Ngholeg Technegol, Bangor, ac sy'n awr yn hunan-gyflogedig.

**DYMUNIADAU DA** Mae Brenda ac Iestyn Jones, "Cynefin" gynt, yn awr wrth y llyw ym Mharc Carafannau Bryn Gloch, a phleser yw cael dymuno pob llwyddiant iddynt. Bu Brenda yn gysylltiedig â'r Eco am dros 10 mlynedd tra'n gweithio yn Nghwasg Gwynedd.

**DIOLCH:** i Brenda Jones am gasglu newyddion y Betws dros yr holl flynyddoedd.

## LLEUFER O. ac N. PRITCHARD


### CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR

**AR AGOR**  
9-7pm  
9-5pm Sadwrn

**AR GAU**  
SUL,  
MERCHER.

Ffôn 291

(yn ystod oriau agor)



**GWLAU SENGL O £39 I FYNY**  
**GWLAU DWBL O £75 I FYNY**

**DEWIS EANG O '3 PIECE SUITES'**  
**O £200 i £800**

**LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'**

**5000 LLATHEN SGWÂR O GARPEDI MEWN STOC**  
**- ALLWCH CHI FFFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?**



**am**  
**Nenfydau Artex**  
**cysylltwch ag**

**A. LEWIS**

**12 Lôn y Bryn,**  
**Porthaethwy 712598**



# LLANBERIS

## LLONGYFARCHIADAU

I Mrs. Jennifer Hughes, 10 Stryd y Dŵr am fod yn llwyddiannus yn ei harholiadau yng Ngholeg Technegol Bangor. Mae Jean yn gweithio yng nghartref oedolion â nam meddyliol arnynt ym Mhenmaenmawr.

I Mr. a Mrs. Maldwyn Jones ar enedigaeth eu mab bach. I Mair a'i gŵr ar enedigaeth eu merch fach.

I Miss Rhiannon Pritchard, Madryn, Stryd Newton, Llanberis, ar lwyddo yn ei harholiadau terfynol yn y cwrs Bwrdd Arholi Meithrin Cenedlaethol yng Ngholeg Technegol Gwynedd.

I Cheryl Jane Owen, Amanda Welsby (Sellars gynt), Debra (Ellis gynt), Graham Cheeseman, Peter Lewis, Neil Gordon Jones, ar gyrraedd eu pen blwydd yn un-ar-hugain oed. Hefyd i Bryn Jones, Dewi Harris ac Alan Ellis ar eu pen blwydd yn deunaw oed.

## GWELLHAD

Dymunwn adferiad buan ar ôl triniaeth yn yr ysbyty i Mrs. Megan Owen, Maes Padarn; Mrs. Nancy Jones, Plastirion; Mrs. Jean Roberts, Maes Padarn; Mr. Dafydd Griffiths, Maes Padarn; Miss Ruth Jones, merch fach Mr. a Mrs. Hefin Jones, Balaclava; Mr. Dafydd Owen, Maes Padarn; Mrs. Margaret Roberts, Maes Padarn; Mr. Neil Jones, 2 Dol Elidir; Mrs. Clara Roberts, Anfield.

## GWELLHAD

Dymunwn adferiad buan i Mrs. Parry, Stryd Ceunant (mam nyrs Glenys Parry) sydd wedi cael damwain yn ei chartref ac wedi torri ei braich.

## CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â Mr. Hugh Williams a'r teulu, Stryd Tomos yn eu profedigaeth o golli ei fam.

I Mrs. Margaret Griffiths, Llainwen Isaf ar golli ei brawd.

I Mrs. Vera Newton, 1 Dol Elidir, ar golli ei thad yng nghyfraith.

I Mrs. Megan Owen, Maes Padarn ar golli ei brawd.

I Mr. Ben Rodrick, Maes Padarn ar golli ei fab Mr. John Rodrick, Aberffraw.

I Mrs. Megan Owen, ar golli ei gŵr, Mr. Gwilym Owen.

I Mr. Glyn Roberts, Bethesda Street â'r teulu ar golli ei dad.

Ac hefyd Mrs. Catherine Guy a'r teulu ar golli priod, tad a thaid, sef Mr. John Guy (gynt o Dol Elidir).

## CLWB Y MAMAU

Bydd cyfarfod cyntaf ar ôl gwyliau'r haf yn y Ganolfan, nos Fercher, Medi 3ydd am 7.30 Croeso yn ôl i'r hen aelodau a chroeso i unrhyw aelodau newydd.

## SANT IOAN

Ar Orffennaf 9fed, cafwyd cyfarfod gwobrwyo tystysgrifau i'r aelodau yng Nghapel Coch. Cafodd Catrin Ll. Roberts ei deuddegfed tystysgrif. Dywedodd Nyrs Glenys Parry mai braint oedd cael trosglwyddo'r dystysgrif i Catrin gan mai hi ydi'r cyntaf i wneud hynny yn Llanberis. Ymunodd Catrin yn 1977 a dechreuodd ei arholiadau yn 1980. Mae wedi cael tystysgrif am Redeg, Addysg Iechyd, Cerdd, Gofalu am blant, Tân, Gwaith Cymdeithasol, Llyfrgell, Clercio, ac am wneud dillad. Y rhai eraill a gafodd dystysgrif oedd:-

**Dan 10 oed** Joanna Thorton a Llinos Wyn Jones. **Dosbarth Canol - Gofal Plant** Michelle Willis, Annette Sellars, Carys W. Owen a Michelle Carr. **Gwaith Gwnio** Gillian V. Jones. **Oedolion** Gweini ar y claf yn y cartref, Safon 2 - Mary Lyn Carr, Stanley W. Griffith, Bernard Evans a Vivian Thomas.

## CWMNI DRAMA LLANBERIS

Bydd y cwmni yn ail ddechrau yn ôl ar Fedi 1af yn Ffestri Gorffwysfa am 7 o'r gloch. Os oes diddordeb gan unrhyw un i ymuno â'r cwmni mae croeso i chwi wneud os ydych dros un ar bymtheg oed.

## DYWEDDIO

Llongyfarchiadau i Peter a Sian, Iona a Gwyn, Dafydd a Dilys, Alicia a Keith, Michelle ac Arfon, Alison a Gareth a Steven a Delyth.

## PRIODAS ARIAN

Llongyfarchiadau i Wil a Grace Roberts, Hyfrydle, Capel Coch Road ar eu Priodas Arian ym mis Awst. Hefyd Mary a John Rhys Owen, 50 Dol Elidir ar eu dathliad hwy ym mis Medi.

## BEDYDD

Ffion, merch fach Mr. a Mrs. Eilir Parry yn Eglwys St. Padarn.

Mathew, mab bach Mr. a Mrs. Alwyn Ll. Roberts yng Nghapel Coch.

**DYMUNIADAU** gorau'r ardal i Mrs Betty R. Evans sydd wedi mynd at ei mab i aros.

## DIOLCH

Dymuna Dawn, gweinyddes Carnifal Llanberis, ddatgan ei diolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llw anrhegion, a hefyd i Anti Meirwen, Catherine a Margaret am fod mor garedig, ac i Anti Glenys ac Yncl Will am gael defnyddio eu ffenestr. Diolch yn fawr iawn.

## DIOLCH

Dymuna Brenhines Sally a'i theulu ddiolch i Bwyllgor y Carnifal, ac i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a dderbyniodd.

## SEFYDLIAD Y MERCHD

Ar Fehefin 26, mwynhawyd trip dirgel gan ymweld â'r Felin Ddŵr yn Glan Conwy ac yna ymlaen i Westy'r Split Willow, Llanfairfechan, lle cafwyd bwyd ardderchog. Diolchwyd ar y bws i Mrs. Glenys Jones a Mrs. Betty Jones am drefnu'r trip.

Cynhaliwyd cyfarfod mis Gorffennaf yn y Ganolfan gyda Mrs. Hannah Jones yn llywyddu. Ein gwraig wâdd oedd Mrs. Maud Williams, Caernarfon, yn siarad am "Gadw'n Heini". Diolchwyd iddi ac i'r gwestwagedd gan Mrs. Betty Humphreys a Mrs. Jean Elis. Y gwestwagedd oedd Mrs. Jan Davies, Mrs. Katie Williams a Mrs. Dilys Phillips. Enillwyd y raffl gan Mrs. M.E. Owen a Mrs. Helen Morris. Bydd y cyfarfod nesaf ar Fedi 25.

## DIOLCH

Dymuna Mrs. Clara Roberts, "Anfield", ddiolch o galon i'w theulu, cymdogion a ffrindiau am y llw o gardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd rtra yn Ysbyty Dewi Sant. Diolch yn fawr.

## GWELLHAD

Dymunwn adferiad buan i Mrs. Yvonne Maxwell Hughes, Stryd Goodman, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

## GWELLHAD

Dymunwn adferiad buan i Edryd, mab Mr. a Mrs. Sharp, Maes Padarn, sydd yn Ysbyty Gwynedd.

## DIOLCH

Dymuna Olwen a Mick ddiolch i bawb am y dymuniadau da, yr anrhegion a'r llw cardiau a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur eu priodas yn ddiweddar.

## DIOLCH

Dymuna Moreen, Plas Tirion, ddiolch i'r teulu, ffrindiau a chymdogion am y cardiau, blodau ac anrhegion a dderbyniodd ar ei hymddeoliad.



Trip Ysgol Sul?

## CARNIFAL

CWIS TERFYNOL\$ Nos Fawrth

1. Cuning Linguists 23
  2. Vaynol Victors 22
  3. Tim Penny
- Cynhaliwyd y cwis terfynol yng Ngwesty Prince of Wales. Y cwis feistr oedd Mr. Vernon Hughes a'r sgoriwr oedd Mrs. Dilys Philips.

Cyflwynwyd y tariannau gan Gadeirydd y Carnifal, Mr. Gwynfryn Griffiths, a chyflwynwyd tarian ychwanegol (rhodd gan Mrs. Enfys Parry a Pat Turner) i Dilys a Vernon am eu gwaith yn ystod wythnosau blaenorol yn gwneud y cwis mor llwyddiannus.

PŴL TERFYNOL nos Lun

Yr enillwyr oedd Tim Dolbadarn 5, ac yn ail Tim Grosvenor club 4.

DARTIAU - nos Fercher

Cynhaliwyd yng Ngwesty Dolbadarn Yr enillydd - Merched: Mrs. Gwyneth Owen, 2. Mrs. Jane (garage gynt), Dynion: Enillydd - Mr. Tony Sage, 2. Mr. Kevin Rowlands (Roco) Cyflwynwyd cwpan ychwanegol i Mr. Tony Sage. Rhodd gan Mr. Ifan Thomas er cof am Mr. Lal Jones.

Nos Sul, Gorffennaf 13 i agor wythnos y Carnifal, cafwyd Noson o Gân yng Nghapel Coch o dan arweiniad Mr. J.H. Hughes (y prifathro). Arweinydd y gân oedd Mr. Arwel Jones (un o hogia Llanbêr). Cafwyd eitemau gan Gôr Meibion Maelgwyn a Chôr Plant Ysgol Dolbadarn. Organyddion oedd Mrs. Iona Jones a Mr. Hugh P. Pritchard. Cafwyd noson o ganu gwych. Dywedodd Arwel ei bod yn fraint cael arwain y "Noson o Gân". Wel, Arwel, braint oedd i ninnau dy gael fel arweinydd. Diolch yn fawr.

CANLYNIADAU'R CYSTADLEUTHAU GWISG FFANSI

**Dan 3 oed:** 1. Smotyn - Gwyn Arfon Williams, 2. Minnie Mouse - Mari Harding, 3. Garden Gnome - Jack Thomas. **3-5 oed:** **Cymeriadau adnabyddus:** 1. Andy a Fergie - Elin Harding a Kevin Griffith, 2. Picni Tedi - Marc Evans, 3. Samantha Fox - Elwen Williams. **Gwisg hysbysebu:** 1. Road safety - Caludette Fleming, 2. Clwb S4C - Catrin Harris, 3. Weetabix - Ffion Roberts. **6-7 oed. Cymeriad adnabyddus:** 1. Long John Silver - Aeddon Whittaker, 2. Clown - Tristram Bedlow, 3. Postman Pat - Sarah Allen. **Gwisg hysbysebu:** 1. Mexico '86 - Iwan Harding, 2. Kia Ora - Sahron Wyn Griffiths. **8-9 oed. Cymeriad adnabyddus:** 1. She-Ra - Sara Pepper, 2. Pied Piper - Jessica Jones, 3. Smotyn - Aled Hughes. **Gwisg hysbysebu:** 1. Hellmans Mayonnaise - Heledd Whittaker, 2. Embassy - Llinos a Lliwen Hughes, 3. Homepride Flour - Andrew a Dominic Lawrence. **10-12 oed:** 1. Geisha girl - Miriam Thomas, 2. Clown - Bruce Turner, 3. Super Gran - Dylan Williams a Hitler - Llifon Foulkes. **13-16 oed:** 1. H.P. Sauce - Bethan Jones ac Annette Sellars, 2. Pair of punks - Sharon Lambert a Caroline Lloyd, 3. Cowboy - Christine Pitts. **Cymeriad unigol gorau** Long John Silver - Aeddon Whittaker. **Dros 16:** 1. Gwrach - Maud Jones, 2. Convicts - Alan, Eurwyn a Gareth, 3. Postman Pat - Peter Fretwell. **Agored dan 9:** 1. Ewok - Richard Henry Jones, Deiniolen, 2. Bwrdd Croeso Cymru - Alaw Mari Hughes, Deiniolen a Andrex Puppy - Iwan Jones, Dinorwig, 3. Nurse - Betsan Fflur Jones, Wrecsam a Joe Brown - Iwan Rhys, Llanrug. **Tablo ar olwynion:** 1. Fairies and Gnomes Maes Padarn, 2. Chinese Festival, 3. Fergie's Choir. **Grŵp ar**

## GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL  
TEGANAU, CARDIAU  
MELYSION  
ANRHEGION



Bara Ffres  
Teisennau  
Priodas, Bedydd  
Pen-blwydd ac ati,  
Peis, Rholiau Sosej,  
Pasteiod, Teisennau Hufen,  
Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

**BECWS ERYRI**

Stryd Fawr, Llanberis 870491

## APÊL SGANIWR CORFF

HWYL Cynhelir noson HWYL

**'SGANIWRAMA'**

gydag eitemau  
gan Ffylliaid y Fro '86  
yn Ysgol Brynrefail, nos lau,  
Hydref 9ed am 7.30

Arweinydd: Mr Arwel Jones

Oedolion £1,

Plant 50c



droed: 1. Snow white and the Seven Dwarfs. **Pâr digrif:** 1. Beauty and the Beast - Gloria a Mena. **Beic wedi ei addurno:** 1. Lisa Jones, 2. Sarah Ann Jones. **Pram wedi ei addurno:** 1. Young King Cole - Iwan Jones, 2. Balloons - Rowena Jones. **Brenhines:** 1. Brenhines Julie, Pwllheli. **Tywysoges:** 1. Tywysoges Caroline, Deiniolen. **Car Brenhines:** 1. Deiniolen. **Jazz Band:** 1. Rhos Royals.

#### RAFFL FAWR CARNIFAL LLANBERIS

**ENILLWYR**  
£50: Dylan, 16 Dol Elidir, Llanberis. £30: Will, 1158. £20: Non, Cynlas, Llanberis. **Pryd yn y Bistro:** Bodlondeb, Market Place, Penygroes. **Trip i gopa'r Wyddfa:** Margaret Owen, 32 Pentre Helen, Deiniolen. **£5 voucher Formag:** D. Hughes, 6 Bro Rhos, Bethel. **Glo:** Helen Vaughan, 41 Maes Padarn, Llanberis. **Sherry:** Melvyn Jones, Berwyn, Rhostryfan. **Trip ar Reilffordd y Llyn:** Iorwerth, Llanfairpwll. **Gwin:** M. Williams, Penterfyn, Llanrug. **Bocs o siocledi:** Nia Wyn Davies, Gwynant,

Capel Coch Road, Llanberis. **Gwin:** M. Prydderch, Bronallt, Llanberis. **Bocs o siocledi:** 1. Jones, 18 Hafan Elan, Llanrug. **Gwin:** Sue Lowe, Llanberis. **Pillow cases:** G. Williams, Garfield, Garth Road, Bangor. **Gwin:** G. Morris, 2 Rhos Efrog, Llanberis. **Plac llechen:** G.M. Parry, 18 Ceunant Street, Llanberis. **Mynediad i Amgueddfa'r Chwarel:** Dick Butch. **Bocs o siocledi:** L. Moses, Swyddfa'r Dref, Caernarfon.

Dymuna'r hyrwyddwyr ddatgan eu gwerthfawrogiad i'r sawl a gefnogodd y raffl mor hael eleni. Diolch o galon ichwi oll.

#### DIOLCH

Dymuna Ann Amos a Luan ddiolch i bawb am yr anrhegion a dderbyniodd ar yr achlysur o fod yn weinyddes i'r Frenhines Sally yn y Carnifal, ac hefyd fe ddymuna Dave a'i deulu ddiolch i bawb am ei anrhegion ar achlysur o fod yn cario'r goron i'r Frenhines Sally.



Dyma lun o'r dosbarth hynaf yn y 'Llanberis District County School' 1920. Fe'i hanfonwyd gan Mr Jack Roberts o Tadley, Hampshire (Llanberis gynt). Mae'n enwi'r bechgyn i gyd: o'r chwith i'r dde: Cecil Roberts, Gordon Parry, John Roberts, Guto Madog Ellis, Trebor Prosser Roberts, Teddy Radley, Bob Roberts (Bont) a Glyn O. Griffith. Yn eistedd: Wil Thomas (Stabla) a Nowi Williams. Miss Davies yw'r athrawes, ac y mae'n cofio enwau dwy o'r genethod, sef Hannah Roberts a aeth yn genhades i Affrica, a Lizzie Jane o Dan y Coed. Cred fod Trebor Prosser wedi ymfudo i Dde Affrica ond mae'n holi ynglŷn â'r lleill. Faint ohonynt sy'n dal yn fyw, a phwy yw gweddill y genethod?



Cwmni Drama Llanberis cyn prifio

## Er Cof am Mr Edgar Colliver Jones

Mr Edi Jones, neu Edi Patrwm, fel y'i hadwaenid yn Llanberis, oedd yr olaf o'r math o grefftwyr a oedd yn gysylltiedig â'r diwydiant llechi, sef y gwneuthurwyr patrymau mewn coed i'r peirianwyr yn y ffwndri. Os ewch chi i Amgueddfa'r Chwarel fe welwch enghreifftiau o'i waith, a gwaith ei dad a'i daid o'i flaen.

Daeth ei daid i'r ffwndri o Borthmadog, wedi bwrw'i brentisiaeth yn y gwaith adeiladu llongau a oedd ar ei anterth pan gludid llechi i bob rhan o'r byd. Fe ddysgodd y grefft i'w fab, William Jones (Wil Patrwm), yntau'n ŵr medrus yn ei grefft ac yn saer coed ac arlunydd.

Felly hefyd ei fab, Edgar Jones, gŵr cywrair ei grefft, hoffus a ffraeth ei gymeriad. Un annwyl a theimladol, union ei fuchedd, yn casáu rhagrith a sarhad. 'Roedd ganddo atgofion diddorol am yr amser prysur yn y ffwndri, lle'r oedd y diwydiant yn ganolbwynt i'r chwarel cyn y Rhyfel.

Cofiaf amdano'n dweud hanes ei daid a'i dad yn gorfod dringo llwybr yr Inglein i fyny i'r Swyddfa ar bnawn Gwener, ac yn olaf ar y rhestr ac felly'n olaf yn cyrraedd adre'r hwyr. Soniai am yr adeg pan oedd raid i'r gweithwyr brynu eu hoffer yn y stôr, y siop a berthynai i'r cwmni, ac fel y byddai rhai mewn dyled. Gelwid y siop yn 'Tragwyddol Stores'!

Fe hanai ar ochr ei fam o deulu a ddaeth o Gernyw, pan apwyntiwyd ei daid, Thomas Colliver, i gymryd rheolaeth dros y gwaith copr oedd ar droed ger Llyn Llydaw ar ochr yr Wyddfa. Yr adeg hynny 'roedd cryn gloddio am fetelau - plwm, arian, alcam a chopr, a thipyn o fenter ariannol oedd bwrw 'mlaen. Rhai'n llwyddo, eraill yn colli'r dydd. Ceir hanes Thomas Colliver - 'Captain of the Mine' - mewn sawl cylchgrawn mwyngloddio yn y ganrif ddiwethaf ac fe roddwyd carreg i goffáu ei waith, gan ysgolfeistr o Landudno, ar ochr y llwybr ger yr hen waith. Mae ei gofgofofn hefyd i'w gweld ym mynwent Llanberis.

'Rwy'n cofio'r sôn am Gaptan Colliver yn berchen ar gerbyd a cheffylau, a'r ferch, sef mam Edi, yn cael ei dysgu gan 'governess', a phan oeddwn yn blentyn yn York Terrace 'roedd Wil Patrwm a'i deulu yn byw yn yr un stryd. Gwraig fonheddig, gwrtais, yn 'dipyn o ledi' yn ôl y cymdogion.

'Roedd Edgar Jones, yntau, yn ŵr llednais a diffuant, yn barchus o'i grefft a'i gymeriad. Gwelir ei bersonoliaeth ar ei gorau ar waliau'r Amgueddfa yn Llanberis, lle'r anrhydeddwyd ei waith gan Uned Diwydiannol Amgueddfa Cymru.

Coffa da amdano.

Olwen Davies,  
Bangor

## CAM-GYMERIAD

Mae'n hawdd iawn i ohebwy'r papurau newyddion wneud camgymeriadau wrth deipio hysbysebion. Sylwch ar y gyfres anhygoel hon a ddigwyddodd mewn papur lleol yn Canada.

**LLUN:** Mae gan y Parch. J. Williams set deledu ar werth. Ffoniwch 174. 29683 ar ôl 7.00 o'r gloch a gofynnwch am Mrs Jones sy'n byw gydag ef yn rhad.

**MAWRTH:** Drwg gennym am y camgymeriad yn hysbyseb y Parch. J. Williams ddoe. Dylai fod wedi darllen:

Mae gan y Parch. J. Williams set deledu ar werth yn rhad. Ffoniwch 174. 29683 a gofynnwch am Mrs Jones sy'n byw gydag ef ar ôl 7.00 o'r gloch.

**MERCHER:** Mae'r Parch. J. Williams wedi ein hysbysu iddo dderbyn nifer o alwadau ffôn anwedus oherwydd yr hysbyseb a

ymddangosodd yn y papur hwn ddoe. Dylai fod wedi darllen:

Mae gan y Parch. J. Williams set deledu ar werth yn rhad. Ffoniwch 174. 29683 ar ôl 7.00 o'r gloch a gofynnwch am Mrs Jones sy'n cyd-fyw ag ef.

**IAU:** Dalier sylw. Nid oes gennyf i, y Parch. J. Williams set deledu ar werth. Rwyf wedi ei lluchio i ffwrdd. Peidiwch â ffonio 174. 29683. Rwyf wedi newid fy rhif. Dwyf i ddim wedi bod yn cyd-fyw â Mrs Jones. Hyd ddoe, Mrs Jones oedd yn glanhau'r tŷ i mi. Mae hithau, bellach, ar gais ei gŵr, wedi rhoi'r gorau i'w gwaith.

**GWENER:** Yn eisiau. Gwraig i lanhau tŷ. Dyletswyddau arferol i hen lanc. Cyflog i'w drefnu a chodiad i ddilyn yn ddiabynnol ar y gwasanaeth. Ffoniwch 174. 29683 a gofynnwch am y Parch. J. Williams.



# TAC SIS WEBB

Ffôn:

Llanberis

# 870145

**Gwasanaeth 24 awr - pell ac agos**  
**Gwasanaeth Maes Awyr**  
**a Phorthladd**  
**Gwaith Contract**



# Bistro

Glandŵr

43-45 Stryd Fawr

# LLANBERIS

Ffôn: LLANBERIS 871278

(Danny a Nerys Roberts)

Amser Cinio o ddydd Llun i ddydd Gwener  
Gwahoddir partïon o rhwng 6 a 15 i wylïo Nerys yn coginio  
ac ymuno yn y gwaith - Pris **£7.50** yn cynwys cinio.  
Bob nos ag eithrio nos Sadwrn pryd blasus 3 chwrs yn  
defnyddio bwydydd tymhorol gorau **£8.00**





# Agor Ffiniau'r Gorffennol

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

## PLWYF LLANRUG

Y diweddar Carneddog gafodd hyd i'r gerdd ganlynol wedi ei thorri allan o'r 'Drych' flynyddoedd lawer cyn hynny.

Cyfansoddwyd y gerdd gan fachgen o New Jersey a fu'n was yn Lleiniau, Llanrug. "Efallai mai Mr O.L. Owen, Arcade, New York oedd o" meddai Carneddog. Adroddwyd y penillion oddi ar ei gof gan Zacheus Jones, Little Falls, New York.

### TRI CHYFNOD OES

Mae'r hen blwyf prydfarth yma  
Yn haeddu gair o glod  
Oherwydd yr hynodrwydd  
Oedd iddo ac yn bod.  
Fe saif ar gwr Eryri  
A'r 'Lidir uwch ei ben,  
A rhyngddo a Beddgelert  
Ymsythar Wyddfa Wen.

Awr o wanwyn tirionaf - bore oes,  
Heibio'r aeth yn araf;  
Hon yn wir yw awr mewn haf-  
Awr noswyl ydyw'r nesaf.

### Y FFLYRT

Hi ddoe a rôl ar ddeall - ac ar lw  
Carai lanc yn ddiwall;  
Rhol ei llw heddiw i'r llall,  
Yfory hefo arall.

Ioan Brothen

### TARW MAWR Y LLWYN

I hwn y daeth Llew Llwyfo  
Fel i ddiweddu'i oes,  
A'i enaid aeth oddi yno  
I wlad na theimlir loes.  
Ac yno gorwedd Dafydd

(Ddu Eryri)

Yr Athro ysgol mawr  
Yng nghwmni llawer prydydd  
Sy'n llechu yn ei lawr.

Wyt ti'n cofio'r llawr yn crynu  
Dan hen darw mawr y Llwyn  
Pan fu agos im' aberthu  
Côt a gwasgod er dy fwyn?  
Wyt ti'n cofio'r chwechyn gollaist  
Yn y ffynnon fechan draw?  
Wyt ti'n cofio'r hen geiliagwydd?  
Wyt ti'n cofio cripio'm llaw?

'Er y tarw' oedd dy eiriau  
Y parhaet yn ffyddlon im'.  
O fy mhisin, O fy nghariad,  
Nid yw twlc gan darw'n ddim.  
Er wrth dorri'th ddillad gorau  
Hefyd iti 'nhorri i;  
Magi annwyl, mae dy 'sealskin'  
Eto'n 'sealskin' pur i ti.

Mae'th lawysgrif yn gwneud imi  
Lwyr anghoffo mi fy hun;  
Mae dy gydyn gwallt yn hongian  
Ar y weiran honno'n Llŷn.  
Mae dy 'winedd Magi annwyl  
Oll yn fflangoch fel yr haul;  
Lliw dy wallt sy'n newid beunydd,  
Gwyn a melyn bob yn ail.


O fanwylid, er mai cema  
Yw yn awr fy enw i,  
Maddau im' am fethu â pheidio  
Chwilio am enw amdanat ti!  
Maeden wyt ti, Magi annwyl,  
Maeden gostus fel erioed;  
Bûm i'n lwcus, cefnaist arnaf,  
Cest un arall dan dy droed.

Nid oedd enw'r awdur o dan y  
penillion. Maent yn bur hen ac os  
gwyddoch pwy yw'r awdur  
anfonwch ataf. Diolch.

### HOLI

Tybed a oes rhywun yn gwybod  
beth oedd enw iawn Deiniol  
Fychan? Evan Morgan oedd enw ei  
dad. Ffugenw, wrth gwrs, oedd  
Deiniol Fychan am ei fod wedi ei eni  
yn Neiniolen. Dyma fy nghyfeiriad:  
Llys Awen, Llanrug, Gwynedd.  
(Caernarfon 4474).

## LLAETH A LLEFRITH



Hen gi slei oedd ci Ritchi Fron Olau, bob amser yn cadw o gwmpas y  
tŷ. Yn ofalus o ddistaw, byddwn yn cau giât y ffordd ar fy ôl, cario'r  
jiwg gwag gan gerdded ar flaenau fy nhraed, at y giât ffrynt, ac yna  
cyn ei hagog, gwrando'n graff am chwyrnu neu gyfarth. Os oedd pob  
man yn ddistaw, hyderwn ei bod yn weddol saff i mi fynd trwyddi,  
ond byddai fy nghalon yn fy ngwddf yn barhaus. Agor a chau'r  
glwyd fach yr un mor ddistaw, ond fel y nesawn at y drws cefn, yn  
ddieithriad, deuai amdanaf fel rhyw lew rhyfygus.

Deuai Leila allan a galw "Smart,  
tyrd yma. Wyt ti'n clywad? Tyrd  
yma, Smart, mi rho' hi i ti." Gafaelai  
yn ei goler a'i lusgo i ffwrdd. Aeth  
hyn ymlaen am wythnosau ddydd ar  
ôl dydd. Doedd Smart a finnau'n  
amlwg ddim yn llawer o ffrindia, ac  
roedd hi'n bleser cau lliidiart y  
ffordd ar fy ôl. Nid peth bach oedd  
cario chwart o lefrith mewn jiwg ar  
hyd y ffyrdd caregog oedd yn bod y  
pryd hynny, ond roedd cario jiwg  
gwag i Fron Olau yn waith llawer  
mwy hyderus, na'i gario'n ôl yn  
llawn. Do, o do, fe ddaeth fy  
Waterloo.

Un prynhawn, doedd dim sôn am  
y ci. Allwn i ddim coelio fy lwc.  
Cnociais ddrws y cefn, rhoddais yr  
arian a'r jiwg i Leila, a diolch wrth ei  
dderbyn yn ôl. Cychwynnais am  
adra mewn gorfoledd, ond y ci a  
orfu. Mae'n rhaid ei fod wedi bod yn  
swatio yr ochr arall i'r tŷ. Doeddwn i  
ddim wedi cymryd dau gam am y  
giât fach pan ddaeth tu ôl i mi mor  
ddistaw â llygoden a'm brathu yn fy  
mhen ôl. Sgrech - sgrech o sioc cyn  
gymaint ag un o boen, y jiwg yn  
deilchion a'r llefrith yn diflannu i'r  
graeon. Brysiodd Leila i fy helpu, a  
dyna'r tro olaf yr es i Fron Olau i  
brynu llefrith. Dydi cŵn defaid  
ddim yn help mawr i redag busnas.  
Pan welodd mam fod dannedd y ci  
wedi rhwygo fy nhrowsus, a thynnu  
gwaed, penderfynodd brynu llefrith  
gan John, Carreg y Fran.

Ond lwc wahanol gafodd Harri

Bach. Safem yn griw ar waelod Allt  
Fawr wedi bod yn Manllwyd Uchaf  
yn nôl llaeth. Prynhawn braf, y  
piseri newydd o siop tinman yn  
llawn, a'r cyfan am ddwy geiniog.  
Roedd yna un neu ddwy hŷn na ni  
yn y cwmni, a bob hyn a hyn,  
arhosem i gael seibiant bach, ac  
efallai i dywallt ychydig o'r hylif  
blasus i'r caead, a'i yfed gyda  
phleser. Aeth un o'r genod mwyaf  
ati i ddangos ei gallu a'i medr, drwy  
dynnu'r caead i ffwrdd a throi'r  
piser llawn dros ei phen, heb golli  
diferyn. Yna crechwenodd a dweud,  
"Fedwrch chi ddim gwneud hynna.  
Mi ydach chi'n rhy fach." Roedd  
her i Harri fel moron i ful. Heb  
betruso o gwbl dywedodd,  
"Medra, sbia." Tynnodd gaead ei  
biser i ffwrdd, gafaelodd yn yr  
handlan, ond druan, doedd dim  
digon o nerth yn ei fraich a rheddodd  
y llaeth o'r piser dros ei ddillad i  
gyd. Cerddodd adra yn socian, hefo  
piser ysgafn a chalon drom. Er i ni  
gyd gyfrannu ychydig o'n llaeth ni  
iddo, hanner llawn oedd ei lestr  
wedyn, ac wrth i ni gyrraedd drws  
agored Nymbar Twelf, codai llais  
Nel ei fam yn gwynfanus, "O'r  
Arglwydd Mawr Harri Bach, be  
gythral wyt ti wedi neud? Drycha ar  
dy ddillad di."

Doedd dim rhaid mynd i Rwsia i  
ganfod ffidliwr ar y to. Roedd yna  
ddigon yn Llanberis.

Goronwy Owen

Ioan Brothen ydyw awdur pob un  
o'r englynion canlynol:


### SIOMEDIGAETH

Hawliai William mai lili - oedd ei fun  
Ddi-feth cyn priodi;  
Gan ddiffygion bron heb ri'  
Miaren gas oedd Mari.

### GWARTHUS

Gwarthus olwg wrth sylwi - a welir  
Ar heoludd trefi;  
Ceir Bob yn cario babi,  
A'i wraig Kate yn cario ci.

## BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques  
Ivy Cottage  
BETHEL

Ffôn:

Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da

Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol

## W.J. GRIFFITH

PLYMAR  
A GOSODWR  
GWRES CANOLOG  
PANT TIRION, LLANRUG  
Ffôn: Caernarfon 3248  
GOSODWR SWYDDOGOL  
SYSTEMAU  
GWRESOGI OLEW  
GWRES BP



Aelod o'r National  
Association of  
Plumbing and Mech-  
anical Services  
Contractors.

Dim un dasg rhy fychan,  
Dim un dasg rhy fawr..

## W.H. JONES

TRYDANWR

Green Bank  
Stryd Fawr  
LLANBERIS

FFÔN:  
LLANBERIS 871470

Contractau  
Weirio Tai

Cawodydd Trydan  
ac ati



# LLANRUG

**Gohebydd: Mrs Gillian Morris, Anedd Wen, Talybont. Caernarfon 76075.**

## GRADDIO

Llongyfarchiadau i Mrs. Olwen Humphreys, Glan Moelyn ar ennill gradd B.A. Anrhydedd ym Mhrifysgol Bangor.

## LLONGYFARCHAIDAU

I Dwynwen Parry, merch Meurig a Mary Parry, Bryn Golau, Stâd Minffordd ar ennill gradd B.D. Mae Dwynwen wedi ei phenodi i swydd yn Ysgol Llannerchymedd.

## LLONGYFARCHAIDAU

I Mrs. C.E. Roberts, Hedsor Villa ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 ar Awst 7fed.

## DIOLCH

Dymuna Mrs. Roberts ddiolch i'r teulu, cymdogion a ffrindiau am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da tuag ati.

## PEN BLWYDD

Llongyfarchiadau i Mrs. O. Jones, Llwyn Onn ar ddathlu ei phen-blwydd yn 87 oed ar Orffennaf 1af.

## PENBLWYDD

Llongyfarchiadau i Mrs. N. Williams, 16 Hafan Elan ar ddathlu ei phen-blwydd yn 90 oed yn ddiweddar.

## PEN BLWYDD

Llongyfarchiadau i Mrs. Jane Williams, 14 Hafan Elan ar ddathlu ei phen-blwydd yn 102 ar Gorffennaf 24ain.



## Y GYMDEITHAS LENYDDOL

Cyfarfu aelodau o Gymdeithas Lenyddol Capel Mawr ar nos Fercher, Gorffennaf 9fed i drefnu rhaglen ar gyfer tymor y gaeaf. Dewiswyd y canlynol fel swyddogion: Llywydd Mr. Gwilym Rees Parry, Ysgrifennydd Mrs. Mair Parry, Bryn Meli, Trysorydd Mrs. Mair Jones, Ogwen.

## CYDYMDEIMLAD

Estynnir cydymdeimlad i Mrs. Beryl Thomas, Gerallt ar farwolaeth ei mam, Mrs. Lydia Jones, 13 Hafan Elan.

## CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimler â Mrs. M. Hughes, 20 Rhos Rug, ar farwolaeth ei merch yn ddiweddar yng Nghapel Uchaf, Clynog.

## CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlir â theulu Mrs. Watson, 11 Rhos Rug yn eu profedigaeth yn ddiweddar.

## TEYRNGED CYMYDOG I'R DDIWEDDAR MRS. LAURA CLARKE, ISGAER

gan John E. Williams, Y Gors, Allt Riwith, Pontryhalit.

Pan ofynodd cyfaill i mi gyfansoddi teyrnged i Mrs. Clarke doeddwn i ddim yn siwr mai fi oedd y mwyafraddas, gan mai yn gymharol ddiweddar ar ei hoes y deuthum i'w hadnabod hi a'i chwaer yn Isgaer.

Cyn dychwelyd i'r fro i drigo, yr oedd yn wybyddus i mi fod Mrs. Clarke wedi bod yn hynod o garedig wrth fy mam weddw; yn gofalu am ei hangnion a'i chludo hwnt ac yma; ac nid wrthi hi yn unig, ond wrth unrhyw un arall fyddai angen cymwynas neu a oedd mewn argyfwng.

Rhyw fore o luwch fodd bynnag, a minnau bellach yn gymydog, euthum yno, ac ar ôl hynny datblygodd 'fymweliadau yn rhai dyddiol, a thrwy gyfrwng yr ymgomiau difyr a gefais â hi yr adeg honno, deuthum i ddeall fod ei chyfraniad i'r gymdeithas yn ardal Llanrug a Phenisa'rwaen, wedi bod yn eang a gwerthfawr. Yn ddiweddar ymddangosodd ei llun gydag un o'i dosbarthau hyfforddi yn yr 'Eco'.

Sylwais fod ei phoblogrwydd a'i pharch yn amlwg pan fyddwn yn ei chwmmi yn negesa yn y pentref, neu pan alwai'r ymwelwyr aml. Serch ei hoedran roedd hi'n gallu cysylltu â thonfedd yr ieuengaf, ac hyd yn oed pan oedd hi ar y goriwaered, fynnai hi ddim i 'run o'r plant lleol fod heb ei anrheg Nadolig neu ei gerdyn pen-blwydd.

Roedd ei chwmmi i mi yn aml yn ail ennyn sawyr bore oes. Nis gallaf ddatgan fy nheimplad o'i cholli oddiar yr Allt yn ddim gwell na thrwy ail adrodd beth a sgrifennais ar ei thusw blodau.

'Chwithdod am gyfeilles'.

## ADREF O'R YSBYTY

Y mae Miss Greta Davies, Grasogarth

wedi dychwelyd adref o Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan iddi.

## YSBYTY'R BWTHYN

Bu Mrs. Evans, Lloc a Mrs. Mari Pritchard, Afon Rhos, yn Ysbyty'r Bwthyn yn ddiweddar. Gobeithio eu bod wedi gwella erbyn hyn.

## GENEDIGAETH

Llongyfarchiadau i Michael ac Yvonne Ward, ar enedigaeth merch fechan, Melissa.

## CYFARFOD Y CHWIORYDD

Cynhaliwyd cyfarfod y chwiorydd pnawn lau, Awst 21ain am 2 o'r gloch. Llywyddwyd gan Mrs. Smith, Llechwedd a chafwyd pnawn diddorol yng ngofal Mrs. Pritchard, Cwm y Glo, yn dangos lluniau diddorol o'r gorffennol. Dechreuwyd y gwasanaeth gan Mrs. Jones, Dalar Deg, a rhoddwyd y te gan Mrs. C.E. Roberts, a Miss E.W. Jones, Hedsor Villa. Ffarwelwyd â Mrs. Jones, Bronwylfa ar ei ymadawiad i fyw i'r Bala a dymunwyd yn dda iddi. Rhoddwyd dymuniadau da i Mrs. Roberts, Hedsor Villa ar gyrraedd ei phen-blwydd yn 90 oed. Bydd y cyfarfod nesaf pnawn lau, Medi 18fed am 2 o'r gloch.

## PRIODAS AUR

Llongyfarchiadau i Mr. a Mrs. John Griffith Jones, Ger-y-Ffynnon, Talybont ar ddathlu eu priodas aur ar Fedi 2il.

## MERCHED Y WAWR

Nos Fawrth, Medi'r 9fed am 7.30 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd, bydd y gangen yn dechrau ar dymor newydd. 'lechydd Gwell' yw thema'r noson a'r wraig wadd fydd Miss Ceri Pierce, yr Ymwelydd lechyd. Bydd cyfle i hen aelodau ailymaelodi a bydd croeso arbennig i aelodau newydd ymuno â'r gangen.

## CRONFA MICHAEL BRADLEY

### (LEUKAEMIA FUND)

Ar Orffennaf 21, yn Ysbyty Gwynedd, cyflwynwyd siec am £103.50 i Dr. Alun Morris, (Ward y Plant).

Dymuna Mrs. Mair Humphreys, 17 Stad Minffordd, Mrs. Valerie Williams a Mrs. Jean Williams, Llys y Garn, Caernarfon, ddiolch o galon i'r holl gyfeillion a'u noddodd ar y daith gerdded fis Mehefin.

Aiff yr arian yma tuag at gostau'r rhieni hynny sydd yn gorfod trafailio yn ôl a blaen i'r Ysbyty lle mae eu plant yn cael triniaeth.

'Roedd yn agoriad llygad gweld y gwaith rhagorol a wneir gan Dr. Morris a'i dîm a gweld mor gartrefol yw'r awyrgylch yn Ward y Plant.

## CYFARFOD FFARWELIO

Nos lau, y 26ain yn Festri Pontrhythallt dan arweiniad y gweinidog y Parch John Morris, cynhaliwyd cyfarfod i ffarwelio â Mr. a Mrs. Huw Watcyn Jones, ar eu hymadawiad i'r Bala.

Cymerwyd y gwasanaeth dechreuol gan Mrs. Mary Lloyd Williams, ac yn dilyn cyflwynodd Mr. Glynne Owen, ar ran yr Eglwys ysgrifbin i Mr. Jones fel gwerthfawrogiad o'i wasanaeth fel Trysorydd yr Eglwys am 25 mlynedd.

Yna cyflwynodd Mrs. Jennie C. Williams (Llywydd Cymdeithas y Chwiorydd) gadwyn hardd i Mrs. Jones, hithau wedi dal y swydd o drysorydd i'r Gymdeithas.

Caed gair o ddiolch ymhellach gan Mr. Emrys Owen, Mr. W.A. Jones, Mrs. Gwladys M. Jones, a Mrs. Enid W. Thomas, yn tystio i'r gwasanaeth gwerthfawr a roes y ddau tra yma yn ein plith. Bydd chwithdod mawr ar eu hôl. Terfynwyd y gwasanaeth gan y Parch John Morris, trwy ddymuno'n dda iddynt yn eu hen gynefin.

## PLAID CYMRU

### CANGEN LLANRUG A'R CYLCH

I ddiweddu'r tymor diwethaf, cafwyd cyfarfod blynyddol gyda Leslie Larsen, y Cadeirydd yn llywyddu. Diolchodd i bawb am eu cefnogaeth i'r holl gyfarfodydd.

Etholwyd y swyddogion canlynol ar gyfer 1986-87: Cadeirydd - Phyllis Ellis; Is-gadeirydd - Leslie Larsen; Trysorydd - Gwyndaf Jones; Ysgrifenyddion - Nan Humphreys ac Olwen Llywelyn; Trefnydd aelodaeth - Vera Humphreys, Awelon; Trefnydd Clwb Cant - Goronwy Hughes, Eithinog.

Mae'r casglwyr yn derbyn tâl aelodaeth ar hyn o bryd, a byddant yn falch o groesawu aelodau newydd.

Mae hefyd yn adeg ailymaelodi â'r Clwb Cant, a bydd Goronwy Hughes, Eithinog, yn barod i dderbyn eich cyfraniad. Yr enillwyr diweddaraf oedd: Mehefin: 1. Olwen Llywelyn, 2. John Roberts, Bedw Gwynion. Gorffennaf: 1. Mrs. Inigo Jones, 2. John Rowlands, Llys Forgan.

Mae'r pwyllgor wedi trefnu rhaglen y tymor nesaf. Bydd y cyfarfod cyntaf nos Fercher, Hydref 1 pan fyddwn yn croesawu Dafydd Wigley, A.S., i'n plith. Cofiwch am y dyddiad. Edrychwn ymlaen at dymor llwyddiannus eto.

## CYMORTHFA

Bydd Dafydd Wigley, A.S., yn y Sefydliad Coffa, Llanrug fore Mawrth, Medi 16eg. A wnaiff unrhyw un sy'n dymuno ymweld ag ef i drafod unrhyw broblem, ffonio **Caernarfon 2076** i wneud trefniant.

## Cofiwch am EISTEDDFOD GADEIRIOL LLANRUG

Neuadd Ysgol Brynrefail  
Pnawn a nos Sadwrn,  
Hydref 11eg

Cyfansoddiadau llenyddol i'w hanfon i Twrog Jones, Glanffynnon, Llanrug erbyn Medi 20fed.

Testunau a Rhaglen y Dydd ar gael am ddim yn y siopau lleol

Am ffenestri, drysau, grisau neu unrhyw fath o gynnyrch coed, ffoniwch

## BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol  
Glanmoelyn  
LLANRUG

Ffôn Caernarfon 77482  
(dydd)  
Llanberis 870793 (nos)

Mae mwy o ddewis nag erioed gan  
**JOHN A ROBERTA GRIFFITH**

**Y STORFA SGWÂR LLANRUG**  
Ffôn: Caernarfon 2790

Bwydydd, Llysiau,  
Diodydd, Gwlân Sirdar,  
Patrymau, Gweill Aero  
Agored 7.30 a.m. - 6.30 p.m.  
Agored tan 8.00 p.m. nos  
Wener a  
9.30 - 12.30 fore Sul  
Archebwch dros y ffôn - fe'i danfonwn at eich drws



# GWAHANOL DDIGWYD



## CARNIFALAU CWM-Y-GLO A PHENISARWAUN

Ar y chwith:- Yr orymdaith fawreddog yn nadreddu drwy bentref Cwm-y-glo ar eu ffordd i'r cae chwarae — a'r beirniaid!  
Isod:- dau lun o gymeriadau amrywiol a ymddangosodd yng ngharnifal Penisarwaun.

Yn anffodus, ni dderbyniwyd lluniau o unrhyw garnifal arall o fewn y fro, er i ni apelio ar i aelodau o bentrefi eraill drefnu i gael benthg y camera.



## 'NI' — A 'NHW' — A 'NI'N' ENNILL



Tîm Ysgol Gynradd Llanrug — Mark Wyn Jones, Rhys Llwyd, Tudor Wyn Jones a Gethin Parry, gyda'r holwr Kevin Davies.

Bu tîm o bedwar o Ysgol Gynradd Llanrug yn ffilmio rhaglen gwis newydd — 'NI A NHW' yn Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug. Roeddynt yn cystadlu yn erbyn tîm o un o ysgolion cynradd Blaenau Ffestiniog. Y sgôr ar ddiwedd y cystadlu oedd — 'NI' (sef Ysgol Llanrug) 78 o farciau, a 'NHW' 73 o farciau. Roedd y fuddugoliaeth yn golygu fod y tîm wedi ennill teledu lliw, radio ac amrywiaeth o lyfrau i'r ysgol. Er mwyn gweld Llanrug yn ennill eto, cewch wylïo'r rhaglen ar Dachwedd 17eg.

## CODI ARIAN 'SPORT AID'

Ar dudalen flaen rhifyn Mehefin o "Eco'r Wyddfa" dangoswyd llun o ddisgyblion Ysgol Bryn'refail yn cymryd rhan mewn ymdrech i godi arian tuag at Sport Aid". O ganlyniad i'r ymdreccch arbennig honno, noddwyd yr holl ddisgyblion i swm o £800. Llongyfarchion yr holl blant a gymerodd ran yn yr ymdrech arbennig hon, a diolch i bawb a fu'n barod i'w noddi.



Cefnogwyr brwd Ysgol Gynradd Llanrug yn mwynhau'r frwydr.



Cyflwyno sic am £800 i 'Sport Aid'



# DIADAU'R HAF YN Y FRO

## TLWS 5-bob-ochr 'ECO'R WYDDFA'

Ar noson fendigedig o wlyb — nodweddiadol iawn o'r haf a gawsom eleni — daeth tri o dimau'r fro i gae chwarae Ysgol Gynradd Llanrug i gystadlu am Dlws 5-bob-ochr yr 'Eco'. Yn y gorffennol bu cystadlu brwd am y darian, ond siomedig iawn oedd yr ymateb eleni. Er gwaethaf y glaw a'r oerni, cafwyd chwarae da iawn, gydag ambell unigolyn yn disgleirio, ond tîm 'A' Llanrug a orfu, gyda Llanrug 'B' a Chwm-y-glo yn haeddu pob clod am wneud cystadleuaeth mor dda ohoni.



Tîm dan 12 oed Llanrug a fu'n chwarae yn erbyn tîm o Lerpwl yn ystod yr haf — unwaith eto, ar ddiwrnod eithriadol o wlyb — bydd hogia' Llanrug yn well am chwarae 'water polo' os pery pethau fel hyn am weddill y tymor!

## BAND IEUENCTID LLANRUG



Mae bellach dros ddeg ar hugain o aelodau'n perthyn i Fant Ieuenctid Llanrug, ac eleni, cynhaliwyd cyngerdd yn Ysgol Brynrefail ganddynt, ynghyd â Band Chwyth Ysgol Dinas Brân, Llangollen. Yn ystod Suliau'r haf cafodd y Band Ieuenctid y profiad o berfformio yng Nghastell Caernarfon fel rhan o weithgareddau 'CADW'. Yn ystod yr wythnosau nesaf byddant wrthi'n brysur yn paratoi gogyfer â'u cystadleuaeth gyntaf — yng Nghei Conna ym mis Tachwedd. Dymunwn bob llwyddiant i'r bobl ifanc a'u hyfforddwy yn y dyfodol.



## GWEN(YN)WCH



Coeliwch neu beidio, ond am hanner awr wedi deg y nos y tynnwyd y llun hwn, a hynny ar ôl i haid o wenyn lano ar goeden rosod ym Mro Rhuddallt, Llanrug. Oherwydd fod nifer helaeth o wenynod wedi eu lladd gan y gaeaf caled, roedd y gwenynwr hwn o Dal-y-sarn yn fwy na pharod i aros hyd oriau mân y bore i gael yr haid i gyd yn ddiogel i'w fased.

## CODI ARIAN 'CEFNOGWYR Y NANT'



O'r chwith i'r dde:- Bob Eaglestone, Y Waunfawr; Dafydd Thomas, Llanrug a Moi Parry, Treffynnon, yn arddangos Tlws y Tîm Gorau yn Ras yr Urdd, Llyn Tegid.

Mae 'Cefnogwyr y Nant' yn casglu arian i addasu tŷ yn Nant Gwrtheyrn ar gyfer rhai anabl. Ar gyfer Ras Llyn Tegid, sy'n cael ei chynnal gan yr Urdd, penderfynwyd casglu tîm

ynghyd i gael noddwyr i addo arian i bob aelod a gwblhai'r cwrs o un ar ddeg o filltiroedd. Deallwn wrth fynd i'r Wasg, fod dros fil o bunnau wedi eu casglu. Tîm 'Cefnogwyr y Nant' oedd y tîm buddugol yn y Ras eleni.



# CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen (C'fon 3536)

## CYDYMDEIMLO

Syfrdanwyd yr holl bentref gyda'r newydd am farwolaeth cyn-amserol Terence Higgins, Bwthyn. Roedd yn ceisio cwblhau taith mewn canŵ o Gaernarfon i Dun Laoghaire er mwyn codi arian i elusen pan aeth i drafferthion. Dyna'i fywyd, helpu pobl eraill yn ei ffordd ddiymhongar ei hun. Hoffai'r bywyd allanol, y môr a'i bethau. Roedd yn ddyn teuluol, yn ŵr a thad cariadus, ac mae'n cydymdeimlad dwysaf fel pentrefwyr gyda'i weddw Carol, a'i blant Mark a Jane.

## CYDYMDEIMLO

Cydymdeimlwn â Mrs. Elsie Jones a'r teulu, 2 Bryn y Gof, yn eu profedigaeth o golli priod a thad, sef Mr. Llew Jones.

## TEYRNGED

Ar brynhawn Sadwrn, Awst 23ain 1986 fe fu farw Llewelyn Jones - Llew Jôs Lein - yn 76 oed, yn ei gartre, 2 Bryn y Gof, Caeathro.

Nid oedd na llenor, na cherddor, na gwyddonydd, gwleidydd, pregethwr na chiciwr pêl. Dyn da, dyna'r cyfan.

Cychwynnodd weithio ym Melin Wlân Peblig, yna yn was bach yn Llwyn a Chaergofaint, Pontllyfni, ond yn un-ar hugain oed aeth ar y lein ac yno y bu fel 'platelayer' a giangar am dair blynedd a deugain. Fe fyddai yn hawdd pregethu am y cyfrifoldeb o adeiladu a gwaroch y lein a dylanwad hynny arno, ond fe gawn fy nghystwyo yn ddoniol a didrugaredd ganddo am y fath lol.

Yn ystod tymor y Parch John Smith yng Nghaeathro, bu Llew yn arweinydd y Band of Hope ac arolygwr yr Ysgol Sul ac yna, am bum mlynedd, yn arolygwr Ysgol Sul Bodfan, nes symud honno i Gonwy. Trysorai y blynyddoedd hynny; ymfalchïai yn y gwmni aeth a gafodd yn Bodfan.

Ond ei gartre oedd ei deyrnas. Y llynedd dathlodd ei briodas aur. Magodd ferch a dau fab ac ni fu erioed aelwyd mwy clos. Deuai'r plant o Lanfairpwll, Pontllyfni a Chorwen yn union fel pe na baent erioed wedi mynd oddi cartre.

Ac yna, dri mis yn ôl, fe ddaeth Angau i'w farcio â'i nod. Ac fe nodiodd yntau'n ôl. Dim cyffro, dim panig.

Bu'r teledu yn help. "Mi 'dwi wedi dysgu mwy am y criced 'ma na wnes i 'rioed o'r blaen."

Ac yna "Mi liciwn i fyw i gael cymanfaw'r Steddod". Ac fe gafodd.

Ond yna, tra'n eistedd yn ei gadair fe aeth, yn ddistaw bach, gan adael clamp o wacter ar ei ôl. Dyn da oedd Llew.

I.B.G.

## CARNIFAL CAEATHRO

Bu'n rhaid gohirio'r carnifal ar ddiwrnod Gŵyl y Banc oherwydd y tywydd. Fe'i cynhaliwyd ar y noson braf gyntaf wedi hynny, sef nos lau. Nid oedd mor llwyddiannus ac arfer o'r herwydd, ond serch hynny cafodd y rhai ddaeth allan ar noson oer hwyl a mwynhad.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i'r rhai a ddaeth i gefnogi'r carnifal, aci'r rhai fu'n helpu ar y stondinau.

## CANLYNIADAU GWISG FFANSI

5 oed neu lai: Cydradd 1af - Catrin a Rhys Roberts. 6,7 a 8 oed: 1. Gareth, 2. Elfyn, 3. Arwel ac Aaron (cyfartal). 9,10 a 11 oed: 1. Ceri Roberts a Manon Hughes (cyfartal) 2. Lois Roberts ac Eirian Roberts (cyfartal). 12 i 16 oed: 1. Ffion Hughes, 2. Sharon, Gwenno, Llyr a Gwyn, 3. Huw Humphreys.

## MABOLGAMPAU

Rhedeg Genethod 5 a 6 oed: 1. Heather (Caeathro). Bechgyn 5 a 6 oed: 1. Gareth, 2. Richard (y ddau o Gaeathro). Genethod 7 a 8 oed: 1. Carys (Dyserth), 2. Sarah Ceri Tomos. Bechgyn 7 a 8 oed: 1. Arwel (Caeathro), 2. Elfyn (Caeathro), 3. Aaron a Mark. Genethod 9 a 10 oed: 1. Cathy (Caernarfon), 2. Eirian Roberts a Ceri Roberts (Caeathro). Bechgyn 9 a 10 oed: 1. Andrew (Manceinion), 2. Richard (Caeathro), 3. Paul (Manceinion). Plant 11,12 a 13 oed: 1. Ffion Medi, 2. Huw, 3. Llyr (y cwbl o Gaeathro). Plant 14, 15 a 16 oed: 1. Sharon (Caeathro), 2. Slun (Wrecsam). Ras Berfa 14, 15 a 16 oed: 1. Ffion ac Ann, 2. Llyr a Gwyn, 3. Dylan a Huw (y cwbl o Gaeathro). Ras Berfa 7,8,9 a 10 oed: 1. Manon a Ceri, 2. Arwel ac Aaron, 3. Richard ac May (y cwbl o Gaeathro). Ras 3 coed 10 neu lai: 1. Eirian a Ceri, 2. Manon a Ceri, 3. Elfyn ac Aaron, 4. Richard a Lucy (y cwbl o Gaeathro). Ras 3 coes 14, 15 a 16 oed: 1. Sharon a Gwenno, 2. Llyr a Gwyn, 3. Ffion ac Ann (y cwbl o Gaeathro).

Enillwyd y raffi fel a ganlyn: 1. Ffrwythau - Ifor Hughes, Ham Pinc - Llinos Hughes, Pêl-droed - Mrs. Hurst o Wallasey.

DYMUNIADAU DA i Jacqueline Evans, 13 Erw Wen, sydd wedi dechrau ar ei gwaith fel nyrs yn Ysbyty Gwynedd, Bangor.

## LLONGYFARCHIADAU

I Eirian Roberts, Sea View, ar gael ei choroni yn Frenhines Carnifal y Bontnewydd 1986. Dyma lun o Eirian

## DRAENOG



Mae si anghyfforddus ar led fod Y Waunfawr wedi gwneud cais i gael cystadlu yn y rhaglen boblogaidd "Talwrn y Beirdd".

Bobol annwyl! Ac i feddwl y bydd yn rhaid i ni orfod dioddef darllen cynnyrch DAU dîm o'r fro o hyn ymlaen!

## CARPEDI GLÂN!

Mynnwch driniaeth

## STIMVAK

gyda'r offer mwyaf modern, diweddaraf, sydd ar gael. Am fanylion cysylltwch â

## TEGID PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR 291 Hefyd ail-osod carpedi

## IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLLEN Llanberis 870484

- \* Bysus o 12 i 53 sedd
- \* Teithiau Lleol a Thramor
- \* Gwaith Contract
- \* Telerau arbennig i bensynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol



gyda'i morwynion, sef Shirley Nia a Lisa Coole o'r Bontnewydd. Dymuna Eirian ddiolch i bawb am y llu anrhegion a'r cardiau a gafodd ar yr achlysur hwn.

## LLONGYFARCHIADAU

I Hefina a Richard Merfyn Roberts, 9 Bryn-y-Gof, ar enedigaeth mab, brawd bach i Richard, Llinos a Rhian. I Sarah a Tom Pritchard, 10 Rhes Glangwna ar enedigaeth eu plentyn cyntaf, merch fach o'r enw Delyth. I Glenda Jones, Tremallt, ar ennill ei gradd B.Ed. gydag anrhydedd, yn y Coleg Normal, Bangor. Dymunwn bob llwyddiant a hapusrwydd iddi yn ei swydd newydd yn Ysgol Corris. I Iolo Morris Roberts, Gerallt, am basio ei arholiad piano Gradd 5. I Eirian Roberts, Sea View, ar ei llwyddiant yn ei harholiad ysgrifenedig cerddorol Gradd 1. I holl blant y pentref sydd wedi bod

yn llwyddiannus yn yr arholiadau lefel 'O' ac 'A'.

I Dylan Pritchard, 8 Bryn y Gof, ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

I bobl ifanc o'r pentre sydd wedi pasio eu prawf gyrru.

## GWELLHAD BUAN

Da yw clywed fod y canlynol i gyd yn gwella ar ôl gwaeldd yn ddiweddar - Mrs. Jean Williams, 19 Rhes Glangwna; Miss Alwen Roberts, Minffordd; Mrs. Cassie Hughes, Tŷ Gwyn; Sara Wallace Edwards, Maes y Coed; Mr. Gwilym Griffith, Llys Menai; Mrs. Enid Roberts, 2 Caeathro Bach; Mrs. Albert Jones, 14 Rhes Glangwna; Mrs. M.A. Williams, Tremallt.

## SIOE ARDDIO

Canlyniadau a lluniau yn y rhifyn nesaf.

# BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

APÊL SCANYDD CORFF GWYNEDD Mae pwyllgor Arfon, o dan nawdd yr apêl uchod, wedi gosod nôd o £3 y pen ar gyfer oedolion a gofrestrwyd ym mhob plwyf. Felly, ar gyfrif 212 o etholwyr mae targed Brynrefail dros £600.

Efallai fod rhai wedi cyfrannu i'r apêlleisoes, os felly, fe gyfrif hynny at darged Brynrefail.

Yn hytrach na galw cyfarfod cyhoeddus, fe ysgrifennir ar bob mudiad yn y pentref yn y dyfodol agos, gyda'r bwriad o godi pwyllgor yn y pentref.

Y bwriad yw galw cyfarfod i godi pwyllgor yn ystod Mis Medi, rhoddir mwy o wybodaeth yn y rhifyn nesaf. Yn y cyfamser, gofynnir i unrhyw un â diddordeb yn yr ymgyrch gysylltu â Dafydd Ellis, Gwledfa.

## DIOLCH

Dymuna Mrs. Moreen Lennon ddatgan ei gwerthfawrogiad i bawb am y caredigrwydd a'r dymuniadau

da a dderbyniodd ar ei hymddeoliad.

## TAITH GERDDED

Dan nawdd Sefydliad y Merched a Chlwb y Mamau cynhelir taith gerdded nodedig o bum milltir ddydd Sadwrn, Medi'r 13eg. Bydd yr elw tuag at gronfa i gynorthwyo Keith Jones, 'Rallt, i dderbyn llaw-driniaeth yn yr Amerig. Mae ffurflenni i unrhyw un fydd yn caru ymuno yn y daith i'w cael gan Mrs. Helen Jones, 5 Trem Eilian.

## DOSBARTH NOS

Nos Fercher, Medi'r 10fed, yn yr ysgoldy, bydd cyfarfod agoriadol tymor o hyfforddiant mewn gwaith lledr ac engrafiad gwydr. Bydd y dosbarthiadau dan ofal Mrs. Gillian Smith. Estynnir gwahoddiad i unrhyw un yn yr ardal sydd â diddordeb i ymuno â'r dosbarth hwn.

## SEFYDLIAD Y MERCHED

Dydd Sadwrn, Medi'r 6ed, bydd gwibdaith flynyddol y gangen yn mynd i'r Amwythig.

## SASIWN CHWIORYDD ARFON

Cynhelir Sasiwn Chwiorydd Arfon o Eglwys Bresbyteraidd Cymru ym Mrynrefail ddydd lau, Medi'r 11eg. Dechreuir cyfarfod y prynhawn am 2.30 o'r gloch pryd y disgwylir Mr. Aneurin Owen i annerch ar Alcoholiaeth. Bydd cyfarfod yr hwyr yn dechrau am 5.30 ac annerchir gan Miss Gwenda Jones, Caernarfon. Trefnir paned rhwng y ddau gyfarfod. Croeso cynnes i bawb.

## YN EISIAU

Gohebydd i fod yn gyfrifol am 'ECO'R IFANC' Cysylltwch â'r Golygyddion



# CYMDEITHAS HANES BRO 'ECO'R WYDDFA'

Mewn llythyr yn Y BRYTHON ym mis Tachwedd 1860 mae rhywun sy'n sgwennu dan y ffugenw 'Celert' yn gwneud ymholiadau ynglŷn â chrwydryn a elwid yn Owain Llanddeiniolen. Yn ôl Celert, sgwennwyd y penillion gan Ieuan Lleyn. Dyna enw barddol Evan Pritchard, genedigol o Fryn croes, Llŷn, ac ŵyr i Charles Mark, un o bregethwyr cynnar y Methodistiaid yn Llŷn. Tua 1795 ymfudodd rhieni Ieuan Lleyn i'r America, a rhywdro rhwng y dyddiad hwn a 1800 bu Ieuan yn athro ysgol yn Llanddeiniolen. Roedd yn cyd-oesi â Dafydd Ddu Eryri, ac urddwyd y ddau ohonynt gan Iolo Morganwg yn feirdd Cadair Gwynedd ym mis Hydref 1799. Bu farw Ieuan Lleyn yn 1832, ac os gwir a ddywed Celert, yna roedd y penillion hyn wedi eu hysgrifennu cyn y dyddiad hwnnw, ac o bosibl, yn ystod y cyfnod rhwng 1795 a 1800 pan oedd Ieuan Lleyn yn byw yn Llanddeiniolen.

## 'Owain Llanddeiniolen'

I hope kind sir you will excuse  
The freedom of the Awen;  
Who begs your leave to introduce  
Poor Owen Llanddeiniolen.  
He always lov'd a wand'ring life  
As pilgrim, up and down, Sir;  
He bows, he scrapes, he knows no strife,  
Is harmless, though a clown, Sir.

He has no property to sell,  
No riches to sustain him,  
No home, no house wherein to dwell,  
No friends that can maintain him.  
From place to place, from door to door  
His habit is to wander;  
Whate'er he gets he keeps in store,  
Does not in riot squander.

His coat is thin, his shirt is gone,  
His body much neglected.  
The winter cold is coming on,  
Hard frost and snow expected.  
You have to give, and heart withall;  
O hear his mournful ditty,  
He summons up his power all  
To raise your bounteous pity.

When young, his journeys did extend  
Through England, even to Dover;  
But now his tours are at an end,  
His days are almost over;  
Soon shall he have a peaceful bed  
A grave in Llanddeiniolen  
With this inscription at his head -  
'Here lies poor rambling Owen.'

Mae'n ymddangos fod Ieuan Lleyn yn gofyn am nawdd i'r crwydryn, a chan ei fod yn ysgrifennu yn Saesneg, tybed ai gofyn nawdd teulu'r Faenol a wna?

Yn ogystal â'r penillion Saesneg hyn, mae Celert hefyd yn cynnwys rhai Cymraeg - wedi eu cyflwyno i 'John Humphreys, Tŷ Mawr, Llanddeiniolen'. Unwaith eto, penillion yn gofyn nawdd i'r hen gardotyn ydynt, ond nid oes enw awdur iddynt. Tybed ai Ieuan Lleyn oedd awdur y rhain hefyd?

John Humphreys, Llanddeiniolen,  
Chwi wyddoch les elusen;  
A rowch chwi glôs i guddio  
Yr hen bererin Owen?

Mae'n dweud mai chwi yw'r gorau  
O fewn y plwyf ers dyddiau;  
Rhydd weddi dros och ddydd a nos  
Nes elo'r clôs yn garpiau.

Daw dydd y derfydd Owen  
Grygleisio am elusen;  
Chwi gewch ei hebrwng yn y man  
I fynwent Llanddeiniolen.

Chwiliatws drwy rifynnau'r Brython am y misoedd canlynol ond ni chafodd Celert ateb i'w gais. Tybed a oes rhywun o ddarlennwyr yr Eco wedi clywed hanes yr hen gardotyn, neu a oes traddodiad llafar am y crwydryn yn ardal Llanddeiniolen.

## TRYDAN I GEFN GWLAD CYMRU - APÊL -

A siarad yn gyffredinol, aeth deng mlynedd ar hugain heibio ers dyfod trydan i gartrefi cefn gwlad Cymru. Anodd fyddai i'r gwragedd iau sy'n cadw tŷ yng nghefn gwlad heddiw ddychmygu byw yno heb y cyfarpar modern sydd ganddynt o'u cwrpas i'w cynorthwyo gyda'u gorchwylion beunyddiol. Er hynny, 'rwy'n siŵr na fyddai'n anodd i'r gwragedd hŷn gofio am y cyfnod pan ddaeth trydan i'w cartrefi am y tro cyntaf a'r newid syfrdanol a ddaeth yn sgîl hynny.

Y newid mwyaf trawiadol a'r newid a ddaeth â'r hwylustod mwyaf i bob gwraig, yn ddiaid, oedd cael golau trydan ymhob ystafell. 'Doedd neb yn hiraethu ar ôl y lampau oel a'r canhwylau gwêr a'r holl ofal a gwaith oedd wrthynt. Pa newidiadau ddaeth i'r gegin ar ôl cael y cyflenwad trydan? Gallwn ddychmygu y byddai pob gwraig yn rhuthro allan i brynu stôf drydan. Ai fel hynny y bu? Pa mor fuan yr enillodd y stôf drydan ei lle yng nghefn gwlad? Ar ôl ei phrynu, ai peth i'w defnyddio'n achlysurol oedd hi neu a oedd y glendid a'r hwylustod o fedru rheoli'r gwres yn atyniad i'w ddefnyddio'n rheolaidd? Ai hon fu'n gyfrifol am weddnewid bwydydd cefn gwlad - y gateaux yn disodli'r bara briith, ac yn y blaen.

Daw pob math o gwestiynau i'r meddwl wrth geisio dyfalu pa mor sydyn fu'r newid yng nghartrefi cefn gwlad ar ôl cael trydan yno. Sut fu pethau yn eich tŷ chi? Pa ddigwyddiadau neu argraffiadau sydd wedi aros yn y cof? A oedd gan y to hŷn ragfarn yn erbyn defnyddio'r peiriannau newydd a ddaeth o fewn eu cyrraedd? Pa offer a gafodd flaenoriaeth yn eich tŷ chi yn y pen draw? Prynu stôf drydan o flaen prynu tegell trydan efallai, gweld nad oedd lle addas yn y gegin i roi'r stôf ar ôl ei phrynu, ofni ei defnyddio a'r troeon trwstan a ddigwyddodd wrth ei defnyddio am y tro cyntaf.

Efallai i chwi benderfynu prynu boiler i ferwi dŵr cyn prynu peiriant

golchi dillad. Paham? Pryd ddaeth y cwpwrdd oer (fridj), y peiriant glanhau carpedi a'r mân-beiriannau eraill, e.e. haearn smwddio, peiriant tostio bara? Ym myd adloniant, pryd gafwyd radio yn gweithio wrth drydan yn eich tŷ chi?

Bydd cael atebion i'r cwestiynau hyn i gyd yn gymorth mawr i gofnodi hanes dulliau cadw tŷ yng Nghymru. Daw'r atebion a llu o atgofion yn eu sgîl i bob darlennydd, rwy'n siŵr. Anfonwch hwy ymlaen ataf i Amgueddfa Werin Cymru yn Sain Ffagan. Byddaf yn falch iawn o glywed oddi wrthynt; bydd pob cyfraniad yn werthfawr dros ben ond cynigir £10 o wobwr am y llythyr gorau a dderbynir cyn diwedd Rhagfyr 1986. Y cyfeiriad yw:-

Mrs. S. Minwel Tibbott,  
Adran Adeiladau a Bywyd Cartref,  
Amgueddfa Werin Cymru,  
Sain Ffagan,  
Caerdydd. CF5 6XB

## CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

COFIWCH AM  
GYFARFOD MIS  
MEDI AR NOS  
FERCHER 17eg  
(6.30 p.m.)  
YMWELIAD Â  
PHLASDY  
GLYNLLIFON

Yna sgwrs ar deulu  
Glynllifon gan Gareth  
Heulfryn Williams

Ni threfnir bws.  
Os bydd rhywun eisiau pas,  
cysyllter â'r Ysgrifennydd  
(Caernarfon 5605)

WELDIO OFFER FFERM  
A PHEIRIANNAU  
DIWYDIANNOL  
GWNEUD GIATIAU,  
FFENSYS AC ATI  
AR GYFER Y CARTREF  
ATGYWEIRIO TAI  
GWAIR  
**E. PUGH**  
WELDING &  
FABRICATING  
32 GLANFFYNNON  
**LLANRUG**  
Ffôn: Caernarfon 5394



**CRIB  
COCH**

**Y SGWÂR, LLANRUG**  
**Ffôn Caernarfon 76772**  
**TRIN GWALLT I BAWB**  
**O'R TEULU GAN JEN**  
Ffoniwch neu galwch i drefnu amser

## EMYR JONES

PLYMAR  
PEIRIANNYDD  
GWRESOGI  
GWAITH  
INSIWLEIDDIO

44 Glanffynnon  
**LLANRUG**  
Caernarfon.  
**3513**



# CAEL A CHAEL

## gan Y GWALCH

Roeddwn i yn yr ysbyty ers dim llawar 'ma yn cael pwytho fy llengig; ac nid cyn pryd. Roedd fy mherfadd i wedi mynd i hongian trosodd fel bag marblis. A deoddwn i ond prin wedi tynnu amdana, pan ddaru rhyw hen fachgan yn y gwely agosa, farw, a phan oeddwn nhw yn mynd a fo allan, dyma'r dyn oedd tros y ffordd yn deud.

"Ddoe yr oeddwn nhw yn cario un arall o dy wely di."

Roeddwn i yn ei weld o yn ddechra da.

Beth bynnag dyma rhyw hogan bach yn dwad ata i hefo papur a phensal. Roedd hi isio gwybod pob dim amdana i ers dechreuad y byd.

"Ydach chi'n dal a diddordab mewn genod?" medda hi.

"Ydw'n tad," medda fi a chythru iddi hi. Wrth gwrs roedd hi wedi tynnu'r cyrtans rheiny cyn dechra holi, a phan roddodd hi'r gora i sgrechian, dyma hi'n deud wrtha i mai deg o'r gloch y bora wedyn y baswn i yn cael fy mhwytho. Wedyn dyma hi'n rhoi arwydd wrth fy mhen i mewn llythrennau bras, nad oedd neb i fy mwydo fi ar un cyfiri, 'run fath a rhyw fabwn brathog mewn sycas.

Erbyn hyn roeddwn i wedi cael cymydog newydd, a doedd y doctoriaid hyd yn oed ddim yn gwybod beth oedd y matar arno fo. Roedd ei fol o yn biws bora cynta, ac yr oedd o yn cwyno gan boen yn ei silacs. Ond os nad oedd o yn gwybod fawr am ei haint ei hun, roedd o'n gwybod popeth am rai pobol eraill.

"Cym ofal na wnei di ddim sbio ar dy fol ar ôl yr oparesion," medda fo wrtha i fel yna.

"Pam hynny?" medda fi.

"Dyna wnaeth cefnder y wraig acw pan gafodd o yr un peth. Mi ddychrynodd am ei fywyd. Roedd ei fol o 'run fath a rhyw hen esgid wedi dwad oddi wrth ei waltas. Mi fuo ddigon iddo fo beth bynnag."

Doeddwn ni ddim wedi llwyr benderfynu gan bwy roedd y siawns ora i fynd arra yn fyw, pan ddaeth y dyn hefo'r drol i fy nôl i. Roedd o'n gawr a chôt wen amdano fo, a dyma fi'n cofio yn sydyn am rhyw gorula welis i yn ffilm Walt Disney yn gwerthu eis crim. Roedd ei ddynna fo fel peli canan, ac yr oedd rhai yn deud nad oedd o'n fyr o'i defnyddio nhw pan fyddai'r doctoriad yn rhedag allan o glorofform.

Roeddwn nhw wedi rhoi rhyw gap am fy mhen i, nes yr oeddwn i'n edrach 'run fath a howsgipar Jereboam, a dyma'r dyn yn mynd â fi drwy rhyw ddrysa spring, fel tasa fo'n hwy am y trê, a rheiny yn mynnu cau yn ein gwyneba ni, a phan afaelis i yn un, dyma fo'n deud wrtha i am

gadw fy nwylo i mi fy hun, neu mi fasa yn fy riportio fi i'w undab.

Ar ôl cyrraedd man y gyflafan, dyma fo yn fy ngadael i mewn rhyw barcin, achos roedd yna amryw o drolia eraill yno a phobol yn gorfadd arnyn nhw yn disgwyl mynd i'r lladd-dai. Ar wrth fy ochr i roedd yna rhyw hogan bach – hogan bach fawr felly – a gwallt gola ganddi wedi ei dorri yn gwt, gwt, a hynny yn ei gwneud hi edrach yn salach na ddylai hi fod. Dyma hi'n sbio arna i hefo'r llygada glas mawr rheiny oedd ganddi hi, ac yr oeddwn nhw yn llawn arswyd, ac mae'n siwr ei bod hi'n gweld yr un peth yn fy rhai inna.

Roeddwn i ar fin gofyn iddi oedd hi'n gwneud rhywbath arbennig gyda'r nos, pan ddaeth y boi mawr hwnnw yn ei ôl i fynd a fi i mewn, a phan oeddwn ni yn cychwyn dyma'r hogan yn gafael yn fy mraich i, ond gollwng fu raid iddi. Y peth nesa welais i oedd trwyn a llygada rhyw hogan arall uwch fy mhen i, ond dydw i ddim yn cofio lliw rheiny. Dyma hi'n rhoi nodwydd yn fy llaw i, nes yr oeddwn i yn clywad fy hun yn syrthio wysg fy nghefn i waelod rhyw gasgan. Ac yn ei gwaelod hi y buo fi am dipyn, a phan ddois i'r gwynab wedyn, dyma fi'n clywad rhyw leisia saesneg o fy nghwmpas. "Dos i nôl fy ngwn i Siôn," medda fi tros y lle. "Mae 'na rhyw ddiawl yn torri i mewn i Siop Riwth." Ond mi ddeudodd rhywun yn Gymraeg. "Mi rydach chi'n iawn rwan," ac mi dawelais.

Erbyn bora wedyn roeddwn i wedi dwad trosti hi yn reit ddel ac yn teimlo yn fflons. Mi rydw i'n siort gynta am daflu petha heibio, ac yr oeddwn i yn galu ymlwybro dipyn hyd y fan honno, ac yn ystod y dydd dyma fi'n sylwi ar rhyw ferchad yn mynd a dwad yn eu cobenni.

"Duwcs, be' ydy rheina?" medda fi wrth yr hen fachgan hwnnw. "Mae 'na lond ward ohonyn nhw tŷ nesa," medda fo. "Mae eu gweld nhw yn foddion i rai fendio, ond yn ddigon i'r lleill."

A dyma fi'n cofio am yr hogan bach wallt gola honno, a dyfalu beth ddaeth ohoni hi, ac at y nos dyma fi'n mynd at yno, a hi oedd y gynta welais i wrth y drws yn ista yn erbyn gobenydd, yn amlwg mewn poen, a fasa rhywun ddim yn rhoi ceiniog ledar am ei heinioes hi, ond mi wenodd pan welodd h fi, a dyma fi'n ista hefo hi am funud i dynnu ei meddwl hi, a phan oeddwn i'n mynd dyma hi'n deud.

"Mi rydw i'n well rwan."

Ar ôl hynny roeddwn i'n mynd yno yn rholaidd i roi fy mawd ar ei ffyls hi, ac yr oedd y ddynas llau wedi sylwi. "Ydych chi wedi bod yn gweld ych cariad heddiw?" medda hi.

Ac mi ddois i nabod rhai eraill oedd erbyn hyn yn disgwyl fy mweiliadau.

Roedd yno rhyw hen wraig o waelod Bangor. Wn i ddim beth oedd ei haint hi, a rhyw ddiwrnod dyma fi'n benthycu côt wen i rhywun oedd yn hongian ar gefn drws, ac yr oedd yna stethoscop yn digwydd bod ar led ymyl, a dyma fi'n bachu honno am fy ngwellig a mynd i edrych amdani hi.

"Doctor newydd ydach chi?" medda hi. "Lle mae'r doctor du bach neis hwnnw fydda yn arfar dwad?"

"Mae o wedi mynd yn ôl i Affrica," medda fi, "ei gweld hi'n oer."

"Ydach chi'n rhoi oparesions ar bobol ych hun?"

"Ydw'n tad. Mi roeddwn i'n agor dau bora 'ma a'u pwytho nhw."

"O mi rydach chi wedi pasio yn reit uchaf felly?"

"Agorwch ych ceg," medda fi, "a deudwch A."

"Mi welais amsar y basa'n well gin i weiddi O."

Erbyn hynny roeddwn i wedi dwad yn reit ddel, ond doedd gen i ddim munud i mi fy hun, yn cyrraedd ac estyn i'r celifion rheiny, yn boteli ac yn bils, ac yn falch o fedru gwneud. A dyma'r hen fachgan hwnnw yn deud yn y diwadd.

"Fydda dim gwell i ti drio cael lle yn bortar yma dwa?"

A rhyw fora dyma'r hogan lygada glas yn deud wrtha i y basa hi'n hoffi mynd i'r lle telefision.

"Mi af a chdi," medda fi, a thrwy hynny roi testun chwanag o bregath i'r ddynas llau, ond gyda hynny mi ddaeth yn amsar i mi hel fy mhac am adra a gwynt tŷ ar f'ôl i.

"Mi ddof i yma i dy weld di," medda fi wrthi hi, ac mi es, ond roedd hitha erbyn hynny wedi hedfan, ac yr oeddwn i'n falch.

Ymhen misoedd wedyn, roeddwn i yn y dre rhyw bnawn a fy meddwl i ar beth faswn i'n gael i dŷ, a dyma fi'n clywad rhywun yn gale f'enw fi tros y wlad, a phan drois i, dyna lle roedd rhyw hogan dal a gwallt melyn llaes

ganddi, a lliw haul arni fel toni yn dwad amdana i ar draws y stryd.

"Sut ydach chi?" medda hi wrtha i a rhoi clampan o gusan i mi, fel taswn i rhyw hen berthynas oedd hi yn disgwyl rhywbath ar ei ôl o. Ac yr oeddwn i wedi mynd i deimlo yn reit anifyr yng nghanol yr holl bobl rhieny, tan nes y darfu i mi ei nabod hi.

"Mi rydach chi'n edrach yn dda," medda hi.

"Ydw o bell," medda finna. "Sut wyt ti ydy'r peth. Wyt ti wedi mendio?"

"Mi rydw i'n ardderchog – diolch i chi."

"Am be'?"

"Cadw ein hysbrydoedd ni i fynny. Mi aeth yn fflat ar ôl i chi fynd. Mi rydw i'n byw i lawr y stryd 'na. Dowch i fy ngweld i rhyw dro."

"Mi ddo i," medda fi, "Mi rydw i'n siwr o ddwad."

Wn i ddim faswn i'n gneud peth doeth a'i peidio mynd mor bell ar gefn fy meic. Mi fasa yn reit hawdd i mi neud rhyw niwed arall i mi fy hun.

## STORIAU'R CYFAR MAIN

Bydd un o'r storiâu uchod, UN TENNYN, gan y Gwalch yn cael ei darllen yn Saesneg gan Meredydd Edwards fel 'Morning Story' ar Radio Wales ddydd Mawrth Medi 16eg, dan y teitl GLEANERS' HARVEST.

Darllenwyd pedair arall mewn cyfres o dan yr enw HOW BOWED THE WOODS ers dim llawer, ac mae'r cyfnodolyn 'The Countryman' wedi derbyn dwy yn ddiweddar ar gyfer eu cyhoeddi. Mae Jilly Cooper wedi cyfeirio yr holl gasgliad i'w chyhoeddwyr yn Llundain.

Mae'r Gwalch hefyd wedi sgrifennu hanes cyfnod carwriaeth ei rieni yn Llanddeiniolen yn erbyn cefndir y Rhyfel Mawr. Mae yn gyfres fisol yn 'Pais' ar hyd o bryd.

Mae'r rhan fwyaf o'r storiâu wedi ymddangos yn yr 'Eco' o bryd i'w gilydd.

## MERCHED Y WAWR YN EISTEDDFOD YR URDD

A fu erioed cweit gymaint o dreilaon i bobl bro Eisteddfod yr Urdd ag a gafwyd ym Methesda eleni. "Gwynt a glaw ar bob llaw" chwedl Almanac Caerdybi, ac wedyn llaid a mwy o laid. A chyn hynny problemau'r athrawon yn broblemau i'r Urdd. Ond goresgyn y cwbl wnaeth yr How Gets a chael Eisteddfod ardderchog. Diolch yn fawr iddynt – fe gododd y Phoenix o'r mwd a'r bar.

Yn stryd fawr y pebyll yr oedd gan Ferched y Wawr le clyd am banad a sgwrs, ac yno y bu Mererid James, y Trefnydd Cenedlaethol, drwy gydol yr wythnos efo nwyddau lliwgar a deniadol ar werth. Fe fu'r Llywydd Cenedlaethol, Eirlys Peris Davies yno hefyd ac amryw o bob rhan o Gymru.

Yr oedd trefniant y babell yn ddeniadol dros ben, Pwyllgor Celf a Chrefft Rhanbarth Arfon fu'n gyfrifol. Gill Brown, dysgwraig o Waunfawr gynlluniodd y collage, a Gwen Pritchard Jones o Benygroes wnaeth y cefndir iddo, ac aelodau'r pwyllgor wnaeth y gwaith gwnio a osododd Llyn y Felin a Wil Cwac Cwac ar y muriau.

Bu merched o bob cangen yn y Rhanbarth, yn eu tro, yn gyfrifol am y tebot a'r bisgedi, a phawb yn mwynhau cael gweinyddu cysur i'r ymwelwyr.

Diolch yn neilltuol i Eluned Bebb Jones - y llywydd, ac i Hafwen Roberts, yr ysgrifennydd a gadwodd drefn ar y gweithgareddau i gyd.

## Trowch at lyfr da

- HEN REBEL FEL FI** – Atgofion Richie Thomas  
Gol.: Arthur Thomas  
Hanes a storiâu un o'n tenoriaid enwocaf ac anwylaf. Pris: £2.25
- YN FY FFFORDD FY HUN**  
– HUNANGOFIANT DYN BYRBYWLL  
Cyfrol 1 – John Elwyn  
Mwy o atgofion awdur 'Pum Cynnig i Gymro' – llawn cyffro, cwffio, rhantant a rhyfel. Pris: £3.25
- BERW GWYLLT YN ABERGWEUN**  
T. Llew Jones (Llyfrynau Llafar Gwlad – 1)  
Hanes glaniad y Ffrancod yn Abergwaun ym 1797 a'r cyffro a'r drwgbybio a ddilynodd gan y pennaf o'n storïwyr.  
Y cyntaf mewn cyfres ddiddorol. Pris: £1.
- Rhifyn y 'Steddfod o LLAFAF GWLAD**  
24 tud. llawn erthyglau diddorol am draddodiadau a llen gwerin y môr. 40c
- CYFRES DAFYDD AP SIENCYN** – Rhif 8  
Dafydd ap Siencyn a'r Gwŷr Mud  
Nofel antur, hanesyddol ei cefndir  
Pris: £1.75



**HEN REBEL FEL FI**

Atgofion Richie Thomas

Yn eich siop lyfrau leol neu gan y cyhoeddwr:  
GWASG CARREG GWALCH  
Capel Garmon, Llanrwest, Gwynedd. (06902-261)

## YN EISIAU ... TREFNYDD HYSBYSEBION ECO'R WYDDFA

Cyfle diddorol i ddod i adnabod busnesau'r fro.  
Cysyllter â'r Golygydd -  
Caernarfon 3515  
neu'r Trefnydd  
presennol -  
Caernarfon 5605.

Apel i'r rhai sydd  
wedi addo ymuno  
neu ail-ymuno â  
**CHYMDEITHAS  
HANES  
BRO ECO'R  
WYDDFA**  
Brysiwch rhag  
colli gaeaf difyr  
dros ben!

Cysylltwch ag unrhyw  
swyddog neu'r  
ysgrifennydd ar  
Caernarfon 5605.



# LLYFRAU CYMRAEG NEWYDD

Dylai'r llyfrau isod fod ar gael naill ai yn eich llyfrgell neu yn eich siop lyfrau leol.

**Chilton, Irma**

*Cyffro Cloe*

Gwasg Gomer, £1.75.

Stori i bobl ifainc yn eu harddegau, ac un o gasgliad newydd o nofelau.

**Hart, Richard.**

*Cemeg o'n cwmpas*

Gwasg Addysg Gwynedd, £7.85

Llyfr cemeg y gellir ei ddefnyddio fel llyfr gwybodaeth neu fel llyfr darllen.

**Hughes, D.G. Lloyd**

*Hanes Tref Pwllheli*

Gwasg Gomer, £4.95 Clawr meddal, £7.50 Clawr caled.

Hanes y dref a darlun byw o bob agwedd ar fywyd cyhoeddus Pwllheli a'r ardal o amgylch.

**Jones, Penri**

*Jabas*

Gwasg Dwyfor, £1.75

Nid yw Jabas yn fachgen drwg o ran natur, ond rywsut mae ef yng nghanol pob helynt yn y diwedd. Stori i bobl ifainc yn eu harddegau, ac un o gasgliad newydd o nofelau.

**Jones, Siân Mererid**

*Cadwynau Papur*

Urdd Gobaith Cymru, £1.50

Cyrol fuddugol cystadleuaeth y Fedal Lenyddiaeth yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, Dyffryn Ogwen a'r Cylch, 1986.

**Jones, T. Gwynn**

*Dylanwadau*

Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd, 75c

Darlith gan T. Gwynn Jones ar y dylanwadau a fu arno yn ystod ei ieuenctid.

**Lloyd, Nesta,**

*Owen, Morfydd E. (Goln)*

*Drych Yr Oesoedd Canol*

Gwasg Prifysgol Cymru, £8.95

Golwg ar gefndir diwylliannol bywyd Cymro llythrennog yn yr Oesoedd Canol.

**Morris, Dewi**

*Pws*

Y Lolfa, £3.50

Llyfr gwreiddiol a gogleisiol gan Dewi Pws.

**Roberts, Manon Wyn**

## Gwraig Tŷ yn yr Ardd

'Croeso Fedi fis fy serch,  
Mis y porffor ar y ffriddoedd'

fel y dywed y bardd. Os ydyw'r ffriddoedd yn lliwgar, y mae'r ardd hefyd ym mis Medi. Dyma'r mis pan fo'r ardd ar ei gorau. 'Llawndra ydi gardd' meddai rhywun, ac yn wir mae'n help garw i bwrs gwraig y tŷ. Digon o lysiau - tatws, pys a ffa, letus a betys, onder yn anffodus nid ydym yn cael llawer o hwyf ar dyfu moron - mae rhyw hen bry yn ymosod arnynt. Ond y mae perygl inni or-fwynhau ein cynnyrch ac anghofio'r gwaith paratoi ar gyfer y dyfodol, ac o'r herwydd yn cael siomedigaethau ymhellach ymlaen. Un peth 'rydw i'n esgeulus o'i wneud ydyw torri'r blodau marw. Pe bawn yn fwy gofalus o wneud hynny byddai'r tymor blodeuo yn hwy.

Mi af o amgylch y coed rhosod a thorri pob blodyn sydd wedi darford. Ond cael tywydd i wneud yr holl weithgareddau hyn ydi'r gamp, ac y mae'r chwyn yn tyfu yn well na dim.

Os am gynyddu'r stoc yn yr ardd, dyma'r amser i gymryd toriadau o wahanol lwyni, a rhai blodau hefyd fel myniawyd y bugail (geraniums). Rwyf wedi begio am un wen gan ffrind imi ac wedi ei rhoi mewn pot gan obeithio y bydd wedi gwreiddio cyn y gaeaf. Collais lawer o fyniawyd y bugail y gaeaf diwethaf trwy eu gadael yn y tŷ gwydr di-wres ond gofalf eu bod yn cael aros yn y tŷ'r gaeaf nesaf 'ma.

'Roedd fy stoc o bins (dianthus ydi'r enw llyfr arnynt nhw) wedi

mynd i lawr ac mi gymerais doriadau o'r rhai sydd gennyf a'u rhoi mewn potiau, ac rwy'n siŵr eu bod bron yn barod i'w plannu yn y ffordor. Fe berthyn y 'Sweet William' (William bŵr yn Gymraeg) i deulu'r dianthus. Dwy-flynyddol ydyw'r rhain. Heuais rai ryw fis yn ôl ac erbyn hyn y maent hwythau yn barod i'w rhoi yn y ffordor. Gan y byddant yn blodeuo ym mis Mehefin maent yn dderbyniol iawn pan fo'n hirlwm yn yr ardd flodau.

'Roedd gen i goeden Tri lliw ar ddeg (Hydrangea) wen y llynedd, ac am ei bod dipyn yn anghyffredin 'roedd llawer yn gofyn am damaid ohoni. Yn rhyfedd iawn, eleni 'does yna'r un blodyn arni. Rhaid fy mod wedi bod yn rhy hael efo'r toriadau. Dyma'r amser iawn i gymryd toriadau o'r Hydrangea. Mae'r blodau Mihangel (Chrysanthemums) yn edrych yn dda iawn yn eu potiau ac wedi i'r tomatos orffen fe fyddant yn mynd i'r tŷ gwydr, a gobeithio y byddant yn llawn blodau yn y misoedd tywyll Tachwedd a Rhagfyr. Wrth sôn am domatos, dyma'r gŵr i'r tŷ yn cwyno "Wn i ddim beth i'w wneud efo'r tomatos 'ma, maen nhw'n cau coch." "Hidiwch befo," meddwn i, "maen nhw'n siŵr o gochi ym mis Medi, o gywilydd."

**CEFNOGWCH EIN  
HYSBYSEBWYR**

## CEUNANT

**MARWOLAETH:** Wedi cystiudd hir a chaled a ddioddefodd yn eithriadol o ddewr a chyda llawer o urddas, bu farw Anne Elvirah Parry yn ei chartref 15 Hall Lane, Hagley, Worcestershire, yn 55 mlwydd oed. Roedd yn briod annwyl i Thomas Robert Parry, gynt o Bodwyn, Ceunant, ac yn ddirprwy brifathrawes mewn ysgol gyfun yn Birmingham. Hanai o bentref Myddfai ger Llanymddyfri a daeth tyfa fawr i'w hangladd yno ar y 19eg o Orffennaf. Estynnwn ein cydymdeimlad â Tom yn ei brofedigaeth.

**CYDYMDEIMLAD:** Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr Francis Guy, Bryntirion yn ei brofedigaeth o golli ei fab hynaf John a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar Awst 8.

**LLONGYFARCHIADAU** i Mr Arwel Thomas, Arwelfa ar ei ddychafiad i swydd newydd yn Adran y Pensaer, Cyngor Sir Gwynedd. Hefyd ar ei lwyddiant yn yr arholiad CIOB.

Dymunwn hefyd longyfarch Carys Jones ac Einir Parri am eu llwyddiant yn yr arholiad Safon A. Bwriad Carys yw mynd i Goleg Politechneg Pont-y-pridd ac Einir i Goleg y Brifysgol, Bangor.

Llongyfarchiadau hefyd i'r rhai fu'n llwyddiannus yn yr arholiadau Safon O a TAU. Dymunwn bob llwyddiant iddynt eto yn y dyfodol.

### AR WERTH

LLIF mewn cyflwr da - £10.  
'Stepladder' bren - £5. Mrs D.M. Jones, 17 Lôn y Bryn, Caernarfon.  
Ffôn C'fopn 3917.

## TAN-Y-COED

Gohebydd: Miss Megan Humphreys, 4 Tai Tan-y-coed (Llanberis 870030)

**LLONGYFARCHIADAU** i Mr. a Mrs. Hefin Pritchard, Cynfaes, Bryn Moelyn, Llanrug ar enedigaeth eu hail fab, brawd i Llion ac ŵyr arall i Mr. a Mrs. W. Pritchard, Garnedd. Pob bendith i'r mab bychan a'i deulu. **LLONGYFARCHIADAU** hefyd i Miss Margaret Roberts, Tainewyddion ar enill gradd B.Pharm yng Ngholeg Caerdydd. Y mae Miss Roberts wedi dechrau ar ei swydd newydd yn Ysbyty Gwynedd a Mr. Richard Roberts, Prysgol wedi dechrau ar ymarfer blwyddyn mewn fferm yn ymyl Aberhonddu - rhan o'i gwrs fel myfyriwr Amaethyddol - Ein dymuniadau gorau i'r ddau.

**LLONGYFARCHIADAU** i'r ardal i blant y fro sydd wedi llwyddo yn eu gwahanol arholiadau.



### CAPEL TAN-Y-COED

Yng Nghapel Tan-y-Coed ar Awst 2il, priodwyd Mr. Garry y. Wynne, mab Mr. a Mrs. O.E. Wynne, Llety Llwyd â Miss Carol Townsend, merch Mr. a Mrs. W. Townsend, Runcorn. Y Parch John Morris a'r Parch W.O. Roberts oedd yn gweinyddu, a'r organyddes oedd Mrs. Ruth Rowlands. Ein dymuniadau gorau i Mr. a Mrs. Wynne. Byddant yn cartrefu yn Nhŷ Capel Tan-y-Coed. Croeso iddynt i'w cartref newydd.

### GWELLHAD BUAN

Ein cofion a'n dymuniadau gorau am adferiad buan i Mrs. Jennie Hughes, Oerddwr, sydd ar hyn o bryd yn Ysbyty Gwynedd.

### CARTREF NEWYDD

Yn ddiweddar symudodd Mrs. Nellie Hughes, 3 Maesgerddi i fyw i 4 Stryd Newydd, Cwm-y-Glo. Chwith ei cholli o'r gymodgaeth, pob dymuniad da iddi yn ei chartref newydd.

Bellach daeth cymdogion newydd i fyw i 6 Maesgerddi, 1 Min-y-Parc, 6 Tai Bryngwyn a Colwyn. Croeso

**Wavell  
Roberts**  
**CIGYDD**

LONDON HOUSE  
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon 3574  
PEN CIGYDD Y FROI

Yr ŵyn lleol mwyaf  
blasus

Selsig cartref, cigoedd  
parod i'w bwyta  
Archebion ar gyfer  
y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU  
A DEWCH ATOM NI!

Am waith  
PEINTIO, ADDURNO  
a mân atgyweirio oddi mewn  
neu tu allan am bris rhesymol  
cysyllter ag

**ERIC JONES**

17 BRYN TIRION

**PENISARWAUN**

Ffôn: LLANBERIS 872421



# CWM-Y-GLO

**Gohebydd: Mrs. G. Jones, Rhandir Mwyn (Waunfawr 626)**

## LLONGYFARCHIADAU

I Carys Williams, Bryn ar ei llwyddiant yn yr arholiad Theori Gradd 2 gyda chlod. Disgybl i Mrs. Linda Griffiths, Dôl Afon, Llanberis yw Carys.

I Dilwyn Morris, Merddyn, Ceunant a Michael John Williams, Llwyn Coed ar gyrraedd eu pen-blwydd yn un-ar-hugain.

I Heulwen a Deiniol Evans, Pengwern ar enedigaeth eu mab, Urien Deiniol.

I Beryl ac Islwyn Jones, 7 Dôl Afon, ar

enedigaeth eu mab Carl.

I Mr. a Mrs. Sam Jones, Bron Eryri, am fod yn nain a thaid am y tro cyntaf, hefyd i Mr a Mrs. Myrddin Owen, Glandŵr am fod yn hen nain a thaid am y tro cyntaf.

I blant y pentref yn eu llwyddiant yn eu arholiadau Lefel O a Lefel A.

I'r Arolygwr Gwryfai Jones, mab Mrs. E. Jones, Seiont House ar ei ddychafiad gyda'r Heddlu. Dymunwn bob llwyddiant iddo yn ei swydd newydd a phob hapusrwydd i'r teulu yn eu cartref newydd yn y Rhyl.

## Y CARNIFAL

Eleni eto bu wythnos y Carnifal yn llwyddiannus iawn. Dechreuwyd gweithgareddau'r wythnos gyda Noson Bingo. Enillwyd gwybrau'r raffl gan 1. Mrs. Glenda Roberts, Awelon; 2. Mrs. Margaret Williams, Bryn; 3. Mrs. Mary Roberts, Ty'n Ffridd; 4. Carys Owen, Bethel; 5. Mrs. Enid Pierce, 1 Stryd Newydd; 6. Mrs. Jean Hughes, 2 Bryn Gro.

Nos Fawrth cynhaliwyd Noson Disco i'r plant. Enillwyd tlws y gystadleuaeth ddawnsio i'r genethod gan Carys Williams a Darren Jones yn ennill yng nghystadleuaeth y bechgyn. Enillwyd y tlws am ddawnsiwr gorau'r noson gan 'kelvin Houston, Brynrefail. Enillwyd y raffl oedd:- 1. Mrs. Veronica Williams, Glanbogelyn; 2. Sandra Jones, 3 Dôl Afon.

Nos Fercher trefnwyd Helfa Drysor ar Droed gan Arweinydd y Clwb leuencid a rhai o'r Aelodau. Yr enillwyr oedd 1. Mrs. Margaret Williams, 2. Mrs. Elizabeth Hughes, 3. Sharon Thomas, (Booby - Brynrefail Unedig). Enillwyd gwobrau'r raffl gan 1. Gwilym Williams, Bryn, 2. Mrs. Catherine Foulkes, 2 Tan-y-Bryn.

Cynhaliwyd cystadleuaeth dartiau yng Ngwesty Snowdon nos lau a'r enillwyr oedd 1. Gwyn Williams, 2. Michael John Williams.

Oherwydd y tywydd garw nos Wener, bu rhaid gohirio'r Mabolgampau hyd fis Medi. Dydd Sadwrn arweinwyd yr orymdaith gan Seindorf Arian Llanberis ac agorwyd y Carnifal yn swyddogol gan Myrddin (Hogia'r Wyddfa). Y Beirniaid oedd Rosalind a Myrddin, Mr. a Mrs. Harvey Lewis, Bontnewydd a Mr. a Mrs. Berwyn Hughes, Llanrug.

Dyma'r buddugwyr yn y wisg ffansi.

Dan 5 oed, Unrhyw wisg  
1. Kelly Jones, 2. Delyth Roberts, 3. Huw Davies.

Dan 5 oed, Unrhyw wisg. 1. Kelly Jones, 2. Delyth Roberts, 3. Huw Davies. Dan 7 oed, Unrhyw Hwiangerdd. 1. Awen Haf Griffiths. Unrhyw Wisg Hysbysebu. 1.

Kevin Williams, 2. Eluned Davies, 3. Gwenan Roberts. Unrhyw gymeriad adnabyddus. 1. Glyn Price. Dan 9 oed, Unrhyw Hwiangerdd. 1. Donna Williams, 2. Sara Roberts, 3. Bethan Hughes. Unrhyw wisg hysbysebu. 1. Delyth Morris ac Elen Roberts. Unrhyw gymeriad adnabyddus. 1. Jessica Jones a Terry Williams. Dan 11 oed, Unrhyw wisg hysbysebu. 1. Irfon Jones. Unrhyw gymeriad adnabyddus. 1. Darren Jones, 2. Owain Gwyn, 3. Dafydd Williams. Dan 13 oed, Unrhyw wisg hysbysebu. 1. Carys Williams, Nia Hughes a Debbie Jones. Unrhyw gymeriad adnabyddus. 1. David Foulkes. Dan 15 oed, Unrhyw gymeriad adnabyddus. 1. Catrin Gwyn. Agored i bob oed, Unrhyw wisg hysbysebu. 1. Debbie Jones a Nia Hughes. Y Wisg rataf. 1. Elen Roberts. Unrhyw gymeriad adnabyddus. 1. Avril Jones, 2. Hefin Williams. Pâr Gorau. 1. Elizabeth a Bethan Hughes, 2. Catrin ac Owain Gwyn. Beic neu Bram wedi addurno. 1. Arwyn Jones, 2. Mark Roberts a Sioned Hughes. Y Grwp gorau. 1. Allt Goch, 2. 'Hippies' Cwm-y-Glo. Coes mwyaf siapus. 1. Hanudla Hadley, 2. Andrew, 3. Roberta. Cystadleuaeth Camera. Mr. Idwal Williams, Elidir View. Cystadleuaeth Babanod. 1. Christopher Williams, 2. Rachel Owen ac Elizabeth Hadley, 3. Garry Jones a Keith Williams.

## Enillwyr y raffl fawr

1. Cathrine Owen, Penrhyn Bach, Llanrug; 2. Helen Roberts, Llwyn Coed Bach, Cwm-y-Glo; 3. Tom Owen, 3 Maes Gerddi, Cwm-y-Glo; 4. Mrs. Morris, Becws, Cwm-y-Glo; 5. Gareth Jones, Coed-y-Glyn, Llanberis; 6. Mrs. E. Thomas, 14 Stryd-y-Plas, Caernarfon; 8. Dennis Jones, Swyddfa'r Post, Llanberis; 9. Sara Jane, Carreg Wen, Cwm-y-Glo; 10. Alan Jones, Bod Elan, Cwm-y-Glo; 11. B. Jones, 7 Dôl Afon, Cwm-y-Glo; 12. Howard Parry, Caernarfon; 13. Gwyn Williams, Elidir View, Cwm-y-Glo; 14. Clifford Williams, Curry's Caernarfon; 15. B. Hughes, 12 Trem Eilian, Brynrefail; 16. Christina, Trigfa, Cwm-y-Glo; 17. Myfanwy Roberts, Bod Gwilym, Cwm-y-Glo;

Raffl Stondin Undeb y Mamau Mrs. Jones, Lyndale, Llanrug.

## Raffl Stondin Pobl y Cwm

1. E. Jones, 13 Hafan Elan, Llanrug, 2. Eryl Roberts, Llanrug, 3. Idwal Williams, Elidir View, Cwm-y-Glo.

## Rhif Iwcus y Rhaglenni: 33

Dymuna pwyllgor y carnifal ddiolch i bawb am eu cyfraniad, cefnogaeth a'u cymorth i lwyddiant y carnifal.

## ADREF O'R YSBYTY

Da yw deall fod Dilwyn Morris, Tan-y-Graig yn gwella ar ôl damwain gyda'i feic modur, hefyd Sara Roberts, Argrai ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Anfonwn ein cofion a dymunwn wellhad buan i Mrs. Megan Pritchard, Bryn Difyr a Mr. Llew Hughes, Hyfrydle, ar ôl triniaeth yn Ysbyty Gwynedd.

## DIOLCH

Dymuna Mrs. Megan Pritchard, Bryn Difyr, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu

cardiau, anrhegion a'r galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

Dymuna Mrs. Megan Olwen Jones, 21 Dôl Afon ddiolch i bawb o Gwm-y-Glo, Llanberis, a Llanrug am eu rhoddion i Siop Spina Bifida yng Nghaernarfon.

## SYMUD O'R ARDAL

Dyna fu hanes Elfed a Dora Roberts a'r plant, Mark a Sara, Argrai. Dymuniadau gorau a phob hapusrwydd iddynt yn eu cartref newydd yn Nhan-y-Coed.

## YSGOL GYMUNED CWM-Y-GLO



## FFARWELIO AG ATHRAWESAU

Ddiwedd tymor yr Haf, ymadawodd dau aelod o'r staff ag Ysgol Cwm-y-Glo. Ymddeolodd Mrs. Moreen Lennon wedi pedair blynedd yn Ysgol Cwm - bu'n Brifathrawes ym Mrynrefail a Nant Peris cyn hynny, ar ôl cychwyn ei gyrfa ym Mhorth Amlwch. Cafwyd cyfarfod cyhoeddus brynhawn Gwener olaf y tymor i gyflwyno tysteb iddi. Cafwyd eitemau gan y plant a thalwyd teyrnged uchel i Mrs. Lennon gan Mr. Llewelyn Hughes ar ran y Llywodraethwyr, Mrs. Audrey Roberts ar ran y rheini, Mr. Gwyn Hefin Jones ar ran yr Awdurdod Addysg a'r Prifathro ar ran yr ysgol. Cyflwynwyd llun iddi gan yr artist Keith Andrew i gofio am yr achlysur. Yn yr un cyfarfod ffarwelwyd â Mrs. Pat Jones, y Weinyddes Feithrin, ac oedd yn gorffen yr un pryd ac yn symud i weithio'n llawn amser yn Ysgol Bethel. Diolchwyd yn gynnes iddi am ei gwasanaeth diflino ym Mrynrefail ac yng Nghwm-y-Glo, a chyflwynwyd llun iddi i gofio am yr Ysgol. Cyflwynwyd tusw o flodau i'r ddwy gan Donna Williams a Siân

McKerracher. Paratowyd tē i ddilyn y cyfarfod gan famau'r ysgol, a diolchwyd i Mrs. Audrey Roberts am ei drefnu.

Dilynodd rhai o blant y dosbarth uchaf gwrs Beicwyr Medrus y Gymdeithas Genedlaethol Er Atal Damweiniau ar y Ffyrdd yn ystod Tymor yr Haf. Enillodd pob un a fu'n dilyn y cwrs distysgrif hardd i ddangos eu bod bellach yn feicwyr diogel. Mr. Dafydd Edwards, Swyddog Diogelwch y Ffyrdd yn Arfon a'u dysgodd. Y Cwmstabl Ceris Williams fu yn yr ysgol yn profi'r plant. Gwelir y ddau ohonynt yn y llun gyda'r plant, sef, o'r chwith i'r dde, John Evans, Gareth Smith, Owain Gwyn, Irfon Jones, Marian Jones, Sian McKerracher, Nicola Houston a Mark Roberts. Nid oedd Debbie Jones yn bresennol ar y diwrnod.

Bydd Mrs. Gwawr Morris o Lanuwchllyn yn cychwyn ar ei dyletswyddau yn adran y babanod ym mis Medi. Estynnwn groeso cynnes iawn iddi gan obeithio y bydd yn hapus yn ein plith.

## BEICWYR DIOGEL



**GWASANAETH  
TRIN GWALLT YN  
EICH CARTREF**

**Linda**

MOBILE HAIRDRESSER

Lliwedd

Ffordd  
Glanmoelyn

Llanrug

Ffoniwch

**CAERNARFON 3674**

i drefnu amser



Dysgwch yrru'r car gydag

**Y.Y.O.**

**YSGOL YRRU  
OFALUS**

- \* Gwasanaeth 7 diwnod
- \* O ddrws i ddrws
- \* Control Deuol

**D L**

**PRITCHARD  
43 Glanffynnon  
LLANRUG**

**CAERNARFON 5112**

Cymeradwyir gan yr Adran  
Drafnidiaeth

**DERWYN HUGHES**

Treflys  
**PENISARWAUN**

Ffôn Llanberis  
**870945**

Am  
nenfydau  
a waliau  
siapus

**Antex**



# DROS Y MÔR

gan John O. Harvey

(Cyhoeddiar gyda chaniatâd 'Y Glorian')

DAETH newyddion am y Rhyfel Mawr i Bennesylvania cyn i America gymryd rhan ynddi, a phan glywodd fy nhad hyn penderfynodd ar unwaith groesi'r Iwerydd ac ymuno â'r Ffiwsilwyr Cymreig. Er iddo gael ei enwi yn Jackson Munroe ar ôl dau Arlywydd, a'i dad yn Americanwr, nid oedd am anghofio mai Cymraes oedd ei fam.

Yn wahanol i Nain gynt, yn gadael pentref Dwyran yn eneth ifanc a chroesi Môr Iwerydd i America, cefais innau y cyfle i hwylio mewn llong fawr i Ogledd Affrica.



Dyma lun tad a nain John Harvey ym Mhennsylvania. Hanai ei nain o Ddwyran.

Ar fwrdd y Batoryr yr aethom ni a glanio gyda'r Llu Awyr yn rhan o Fyddin Gyntaf y Cadfridog Alexander. 'Roedd hi'n ffordaith stormus a llawn perygl a ni oedd yr ail gonfoi mawr o rai cannoedd o longau i gyrraedd Algiers.

'Roedd y llong yn foethus, o wlad Pwyl yn wreiddiol, ac wedi arfer galw ym Mhrydain ar ei ffordd i Efrog Newydd ar adeg Heddych. Gwelsom tra'n cerdded ar ei bwrdd ym mhorthladd Greenock, yr Alban, fod paent tywyll yn cuddio pob modfedd ohoni a gynnu bach a mawr arni o un pen i'r llall. Yng nghorff y llong gwelem fod y waliau a phopeth hardd wedi'u cuddio gan adael un ystafell yn unig yn union fel yr oedd cynt, sef y lle torri gwallt! 'Roedd y paneli gwydr a'r goleuadau hardd yno i gyd, a dau ddyn yn dal i dorri gwalltau, gyda'r lle'n dresi o bersawr!

Wedi symud o un gwersyll i'r llall ar draws Algeria a Tunisia cawsom ein hunain yn 'Suk-el-Arba' pan ddaeth yr ymladd i ben, a gan ein bod yn cydweithio'n agos iawn â'r Llu Awyr Americanaidd cefais fynd gyda swyddog i mewn i ddinas Tunis ddau ddiwrnod ar ôl i'r Almaenwyr ildio.

Dyma ni'n hwylio wedyn, yn uned fechan, o borthladd Carthage, a minnau'n cael croesi ar draws y Môr Canoldir i gyfeiriad Sicily mewn llong cludo tanciar, ac yna i fynw ochr ddwyreiniol yr ynys o dref i dref fel yr oedd yr ymladd yn mynd ymlaen. Wedi peth amser, cyrraedd Messina, ger mynydd Etna, ac ar ôl glanio mawr gan yr Wythfed Fyddin, croesi i'r Eidal ar draws y culfor. Yna ymlaen drwy Calabria fynyddig ac i fynw am y gogledd hyd

ochr y Môr Adriatic. Fel y gwyr llawer, araf iawn oedd y symud o hynny ymlaen, o afon i afon, a phob pont wedi'i chwythu'n ddarnau.

Ar ôl bod dros y dŵr ac oddi cartref am dair blynedd a hanner cawsom o'r diwedd fynd ar wyliau byr gartref, gan deithio drwy dwnel Simplon, ar draws yr Yswistir, rhan o'r Almaen, a hefyd Ffrainc. Yna ar ôl cael bod adref am ddeg diwrnod dychwelyd i'r Cyfandir, a'r tro hwn i Awstria, ac wedi bod yno am gyfnod mynd yn ôl eto i Brydain a chroesi'r culfor mewn llong.



Wedi i flynyddoedd lawer fynd heibio ar ôl y rhyfel cefais gyfle eto i groesi'r môr mawr, a'r tro hwn gyda Chôr Meibion y Traeth i Canada a hynny mewn awyren. 'Roedd hwnnw'n brofiad arbennig.

Ymhen dwy flynedd mi es gyda'r Côr am yr ail waith i Canada, a'r tro hwn gwelais fwy o'r wlad ei hun, a'i gwahanol ddinasoedd a'i threfi. Mor wahanol oedd siwrnai Nain, yntê, ar droad y ganrif yn croesi'r Iwerydd i chwilio am waith, a hynny ar ei phen ei hun. On'd oedd hi'n eneth ddewr?

Do, fe gafodd Nain waith, a chyfarfod â'i darpar ŵr, ac yna priodi a chael mab. Mae Taid a Nain wedi'u claddu ym mhriidd Pennsylvania, a gobeithio rhyw ddiwrnod y caf fynd unwaith eto dros y dŵr a gweld eu bedd.

Bydd mwy o atgofion John O. Harvey yn y rhifyn nesaf. Gol.

## YN EISIAU

Rhywun i fod yn gyfrifol am y Croesair. Cysyllter â'r golygydd.

## YSGOL BRYNERYR 1923?



Credir mai llun o Ysgol Bryneryr, Llanrug yw hwn — tua 1923. Yn y rhes flaen ar y chwith mae Edward Robinson, gynt o Manchester House, Cwm-y-glo. Oes unrhyw un o'r darllenwyr all gadarnhau'r dyddiad neu roi i ni enw'r athrawes a'r disgyblion eraill?

## O BANTRI BETH



Gan fod tymor casglu madarch bron ar ein gwarthaf, beth am y pryd hwn i lenwi'r cylla:

**SWPER TATWS A MADARCH**  
Pwys a hanner o datws  
6 owns o gig moch wedi ei falu'n ddarnau (heb fod yn rhy fan)  
4 owns o fadarch  
Tun 10 owns o gawl madarch  
2 lond llwy fwrdd o lefrith  
3 owns o gaws coch  
2 owns o friwsion bara (brown neu gyflawn)

Berwi'r tatws — ond nid gormod — mewn dŵr ag ychydig o halen ynddo. Gwagio'r dŵr a sglesio'r tatws. Ffriwch y cig moch yn ei saim ei hun ag ychwanegu'r madarch. Parhau i ffrio nes bydd y madarch wedi meddalu.

Rhowch hanner y sglesion tatws ar waelod dysgl fâs a'u gorchuddio â'r cig moch a'r madarch. Tywalltwch y cawl madarch a'r llefrith dros y cyfan. Rhowch weddill y tatws i mewn, a'u gorchuddio â chymysgedd o'r caws a'r briwsion bara.

Rhowch y cyfan mewn popty ar

wres o 240 gradd C (450 gradd F) Marc 8 am tua chwarter awr i ugain munud nes bo'r cyfan wedi dechrau crasu.

## CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

## RHODDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion hael tuag at gostau'r 'Eco'.

£10: D.L. Owen, 1 Rhes Bryn Afon, Llanrug  
£5: Mrs. Marian Williams, Llythyrdy, Betws Garmon.  
£5: Mr. a Mrs. JAMES, Regent House, Deiniolen.  
£5: Mrs. C.E. Roberts, a Miss E.W. Jones, Hedsor Villa, Llanrug.  
£2: Delyth ac Alwyn Williams, Caer Bythod, Penisarwaun  
Owen a Mick, Llanberis  
Gwyn, 9 Maes Gwylfa, Deiniolen  
John Williams, Morawel, 3 Cynfi Terrace, Deiniolen  
Gwerfyl, Anna a Mrs. M. Morris, Rhydfadog, Deiniolen  
Mr a Mrs. Emlyn Griffiths, Rhes Uchaf, Rhiwlas  
Mrs. Delyth Roberts, Didfa, Llangoed  
Mrs. Nellie Roberts, 12 Llys y Gwynt, Penisarwaun  
Di-enw  
£1: Hugh John, 9 Maes Gwylfa, Deiniolen  
Mrs. Pleming, 1 Maes Eilian, Dinorwig  
Di-enw, Deiniolen  
£1: Di-enw Bethel (fisoedd yn hwy! Ymddiheurn yn yr oedi!)



Perchennog: E.P. Hughes

**MODURDY DOLYDD**  
**GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562**

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas



# PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

## YSGOL TAN-Y-COED

Wedi Gwyliau Haf gwyntog a gwlyb roedd y plant yn fwy na pharod i ail ddechrau yn yr ysgol. Croesawyd pump o blant bach newydd a byddant yn sicrhau o setlo'n fuan iawn. Dymunwn pob whyl a llwyddiant i'r plant sy'n dechrau yn Ysgol Brynrefail. Llongyfarchwn Anti Bet ar fod yn nain.

## YR URDD

Nos Lun, Gorffennaf 15 am 6.30 p.m. cafwyd gormes galed o beldroed ar gaeau King - 11 o enethod chwim a medrus Bontnewydd yn erbyn 11 sionc a dawnus Penisarwaun. Y rheolwr teg a diduedd oedd Selwyn Griffith ac yn wir yr oedd wedi'i syfrdanu at fedr un neu ddwy. Diolch i chwi genod Bont am gêm lân a chyfeillgar. **Sgôr Bont 4 Penisarwaun 3.**

## YMDDEOL

Dymunwn pob hapusrwydd i Selwyn Griffith ar ei ymddeoliad fel prifathro Ysgol Gynradd Rhiwlas. Dyma gerdd ganddo ar achlysur ei ymddeoliad.

### Ffarwelio

(ar achlysur fy ymddeoliad)

Hapusd y ffarwelio  
yn sgil y sdreic-tylwyth-teg  
yn felys o atgofus.

Dim mwy o frath cwynion  
a gwan swmian cyson  
rhaf mwy na phlant.

Dim mwy o roi trefn ar anrhefn  
yn sgil y sdreic-tylwyth-teg  
na fu'n aberth i neb  
ond i'r plant.

Hapusd y ffarwelio.

Colli bwrllwm yr afiaith,  
gwên a gwg a dwdio,  
y digri a'r dagrau,  
diniweidrwydd a direidi  
a 'dolig.

Colli cyfle i lunio cerddi talcen slip,  
a'r wefr o sgorio gôl.

Dim mwy o nawniau Gwener,  
a "marchog" nid wyf mwyach.

Hapusd,  
dristed  
y ffarwelio.

Selwyn Griffith

## DYMUNIADAU DA

Pob dymuniad da i Jean, Gwynfor, Sioned, Siôn a Llion yn eu cartref newydd yn Nhaf Croesion.

Croeso adref i Dylan Williams, Careb - mae adref am seibiant o'r fyddin yn yr Almaen.

Pob dymuniad da i Cai Larsen fel athro yn Ysgol Llanfawr, Caergybi.

## Y CARNIFAL

Gorffennaf 6 - 12fed

Er gwaetha'r glaw cafwyd wythnos lwyddiannus iawn. Nos Sul cafwyd cynulleidfada deilwng i'r Gymanfa Ganu. Roedd y Neuadd yn llawn i'r Bingo nos Lun a chafodd amryw ohonom ddorchfa dda nos Fawrth yn y Gemau Giamocs. Siomedig oedd y tywydd i'r gemau pel-droed a'r rownderi nos Fercher, a gohiriwyd y mabolgampau o nos lau i bawn Sadwrn oherwydd y glaw. Cafwyd disgo i'r plant yng Nghlwb Eryri nos Wener, ac roedd pawb wedi mwynhau eu hunain.

Fe wenodd yr haul arnom ddydd Sadwrn a chafwyd Carnifal ardderchog, - llond lôn o blant ac oedolion mewn gwisgoedd amryliw. Y beirniad teg oedd Mr. a Mrs. Len Jones, Y Groeslon a Mr. a Mrs. Selwyn Griffith, Crud yr Awen. Yr oeddent yn gytûn fod safon y cystadleuthau yn uchel iawn ac mai anodd iawn oedd beirniadu.

### Canlyniadau

**Addurno Het 1.** Llŷr Tegai, 2. Sioned Wyn a Bedwyr. **Cymeriad gyda cheffyl.** 1. Pyns, 2. Eurgain Haf, 3. Pippa, Samantha a Catherine. **Unrhyw Bâr dan 12** 1. Eryl a Dafydd, 2. Vincent a Stephen, 3. Sioned a Lois, Nia ac Yvonne. **Unrhyw Bâr dros 12** 1. Syr Wynff a Plwmsan, 2. Doliau, 3. Clowniau. **Dan 5 oed** 1. Wena, 2. Matthew ac Elgan, 3. Rowan a Tracey. **5 - 8 oed** 1. Iwan a Siôn, 2. Ynyr a Gwenllian, 3. Daniel ac Eira Wyn. **8 - 10 oed** 1. Andrea Patterson, 2. Sioned Lewis, 3. Owen a Môrrigan. **11 - 15 oed** 1. Andrew Turner. **Unrhyw Wisg** 1. Teulu Cwprdd Cornel, 2. Maradona a'i Dim Pel-droed, 3. Pawb arall! **Enillwyr y Carnifal** 1. Andrea Patterson, 2. Teulu Cwprdd Cornel, 3. Dafydd ac Eryl. **Rhiant a phlentyn tebyg** 1. Sioned a Janice, 2. Delyth a Rhian, 3. Jonathan a Meirion. **Coesau Blewog!** 1. Meirion, 2. Dafydd

Yn dilyn y carnifal cafwyd mabolgampau a bu'r plant a'r oedolion yn rhedeg, rhedeg mewn sach a'râs gyfnewid ac erbyn tua 6 o'r gloch teimlai pawb eu bod wedi cael pnawn diddorol a hwyliog dros ben.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i **bawb** a gymerodd ran yng ngweithgareddau'r wythnos - bu'n wythnos lwyddiannus eto eleni.

## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau calonog i bawb fu'n sefyll arholiadau'r Cyd Bwyllgor Addysg a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Ganwyd mab bychan i Bronwen a Kevin Jones, Rhiwlas. Ein llongyfarchiadau iddynt ac i Mr. a Mrs. Ron Hughes ar fod yn nain a thaid a Mrs. Rees Thomas ar fod yn hen nain unwaith eto.

Ganwyd merch fach, Gwenan Haf, i Gwenda ac Alan o'r Bontnewydd, llongyfarchiadau iddynt ac i Mrs. Griffiths, Bryntirion ar fod yn nain.

Deallwn fod Dilwyn Green wedi cael llwyddiant mawr gyda'r ieir yn Sioe

Llanelwedd, Caernarfon a Môn.

Fe lwyddodd Hefina Jones, Tai Arthur yn arholiad Theori Piano Gradd 2, ac Eurgain Haf, Theori Piano Gradd 5, ac Olwen Jones, Theori Fiola Gradd 5. Llongyfarchiadau mawr iddynt.

## CYDYMDEIMLO

Yn Ysbyty Eryri, Caernarfon yn 78 mlwydd oed, bu farw Mrs. Myfanwy Roberts, Pen Gaer, annwyl wraig y diweddar Huw. Bu'r angladd ddydd lau, Gorffennaf 17, gyda gwasanaeth cyhoeddus yn Eglwys Santes Helen. Cydymdeimlwn â'r teulu oll. Derbyniwyd rhoddion at apêl y Sganydd.

Cydymdeimlir yn ddwys iawn hefyd â Mrs. Eluned Jones, Cae Corniog o golli ei mam oedd yn byw ym Mhandy Tudur.

Collodd Dafydd Owen, Bryn Hyfryd ei fam hefyd, wedi cystudd hir. Ein cydymdeimlad llwyrfa â chwi fel teulu. Cydymdeimlwn â Mr. a Mrs. Larsen, o golli nai, Paul Canaway, mab i chwaer Mrs. Larsen.

## DIOLCH

Casglwyd £28.20 tuag at Gymdeithas y Sbastics a dymuna'r casglwyd ddiolch i bawb a gyfranodd.

Dymuna Delyth ac Alwyn Williams ddiolch i bawb am y rhoddion a dderbyniwyd at apêl y Sganydd wedi marwolaeth Mrs. Myfanwy Roberts, Pen Gaer.

Gorffennaf 23ain, cafodd rhai barti i ddathlu'r briodas frenhinol. Dymuna'r rhai a drefnodd y tē ddiolch i bawb a gyfranodd ac am eu help. Cynhaliwyd y parti yn Neuadd yr Eglwys. Roedd £5.50 o elw ac fe'i rhoddwyd i Gronfa'r Eglwys.

Dymuna Dafydd Owen a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad yn ystod eu progedigaeth lem.

## CAPEL BOSRA

Bydd yr Ysgol Sul yn ail ddechrau, Medi 7 am 10.00 am. Croeso cynnes i aelodau newydd.

## EGLWYS SANTES HELEN

Ar 27 o Orffennaf bedyddiwyd Nicola Anne, merch fach Geoffrey a Janice Lamerick, Alun House, Bethel.

Awst 24ain, bedyddiwyd Gareth, mab bychan Aled a Judy Roberts, Crigyll, Llanrug.

Cafwyd Ffair Haf ar Gaeau King nos Fercher, Awst 20. Mwynhaodd y plant fabolgampau o bob math ac roedd nifer o stondinau nwyddau a gemau yno. Dymuna'r trenfwyr ddiolch i'r Mri Morris am gael defnyddio'r cae ac i bawb a fu'n helpu a chyfrannu.

Bydd Ffair Hydref yn cael ei chynnal nos Lun, Hydref 20 yn Neuadd yr Eglwys am 6.30 p.m. Croeso cynnes i bawb.

## CLWB CANT

Tynnwyd Clwb Cant mis Gorffennaf yn Llygad-yr-Haul. Yr enillwyr oedd 1. Mr. H. Davidson, Tai Arthur, 2. Mrs. A. Jones, Ty'n Gerddi, 3. Mrs. Jean Roberts, Tai Croesion.

Nos Sadwrn, Awst 23ain, aeth llond bws i Westy'r Dingle am bryd o fwyd. Cafwyd noson hwyliog dros ben - diolch i Doug ac Eric am ddod a'u gitâr. Tynnwyd y Raffl Fawr gan Mrs. Pat Larsen. 1. £50 Rhiannon Huws, Pennant, Llanwnda, 2. £25 Sharon Owen, Bryn Hyfryd, 3. £15 Teulu Arddun, Penisarwaun. Enillwyr raffl y noson oedd 1. Ann Ifans, 2. Elizabeth Jones, 3. Margaret Williams, Carrog.

Enillwyr Clwb Cant mis Awst, 1. Teulu 8 Bryntirion, 2. Mrs. Katie Williams, 8 Llys y Gwynt, 3. Mr. Tony Elliot.

Dymuna'r pwyllgor ddiolch i bawb fu'n gwerthu a phrynu'r ticedi raffl. Ein diolch hefyd i Elizabeth Jones ac Ann Patterson am drefnu'r noson inni - roedd pawb wedi mwynhau eu hunain.

Gweithgaredd mis Medi fydd **Bingo** yn Neuadd yr Eglwys, nos Wener

Medi 26ain am 6.30 p.m. yng ngofal Helen Owen.

Nos Calangaeaf yw nos Wener Hydref 31 - bydd cystadleuthau yn Neuadd yr Eglwys - y beirniad fydd Miss Anwen Jones.

Y mae mantolen o gyfrif ariannol y clwb ar gael i unrhyw un sy'n dymuno cael un. Fe'i darllenwyd gan Mr. Larsen yn y Noson Gymdeithasol ac mae £6,000 mewn llaw eisoes.

## GWELLA

Dymunwn adferiad buan i Mr. John Griffith, Cerrig Gwynion wedi triniaeth yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn wellhad buan i bawb sy'n sâl yn y pentref.

## CLWB YR HEULWEN

Gorffennaf 15 dechreuwyd fel arfer gyda darlleniad o'r cofnodion. Cydymdeimlwyd â theulu Mrs. Myfi Roberts, Pen Gaer. Dymunwyd gwellhad buan i Mrs. Rose Jones a J. Munro. Cafwyd tipyn o hanes y Clwb ers pan ddechreuodd ac anrhegwyd Mrs. Rees Thomas ar ei hymddiswyddiad fel trysorydd am 30 mlynedd, a Mrs. K. Williams yr ysgrifennydd ariannol am ei helpu am y bedair mlynedd ddiwethaf. Cyflwynwyd yr anrhegion gan Mrs. Nesta Jones. Rhoddwyd y tē gan Mrs. A. Williams a Mrs. Rees Thomas. Enillwyd y raffl gan Mrs. N. Roberts. Diolchwyd iddynt gan Mrs. Nel Williams. Gorffennaf 24ain, mwynhaodd pawb y trip i'r Bermo. Mr. Selwyn Griffith fydd y gŵr gwadd yn y cyfarfod nesaf ar Fedi 16eg am 1.30

## DRAENOG



Gŵr hoffus a chariadus yn cynnig gwneud y siopa i'w wraig flinedig. Cafodd hyd i bopeth oedd ar y rhestr, talodd am y nwyddau ac adref ag ef yn falch ohono'i hun. Aeth i'r bwt o nôl y bocs ond OW! - Na! OEDD roedd wedi gadael y cwbl yn y siop. Rêl dyn ynte genod?!!



Wyddoch chi pwy yw'r bachgen bach siriol yma yng nghwmni ei ffrindiau! 'Pwy ydyw dy gariad fab ifanc o - ?'

## SGANYDD CORFF

Sefydlwyd Pwyllgor Apêl Sganydd Corff Ysbyty Gwynedd yn y pentref ac apwyntiwyd yn Swyddogion:- Cadeirydd - Y Cyngorydd Mrs. Pat Larsen; Ysgrifennydd, Mr. Leslie Jones; Trysorydd, Mr. Leslie Larsen. Y mae £1,300 wedi ei nodi fel targed i'r pentref a bwriedir anfon llythyr Apêl i bob cartref i ofyn am gyfraniadau. Mae'r Pwyllgor yn obeithiol iawn y ceir cefnogaeth haeddanol i'r Apêl teilwng hwn.

## O LAW I LAW

### THEATR GWYNEDD

Fe drefnir bws i weld addasiad o'r uchod yn Nhachwedd. Enwau i Ann Evans, Sycharth os gwelwch yn dda.

## SWMBA

Medi 9fed, bydd Cwmni Bara Caws yng Nghlwb Eryri, Penisarwaun am 8.30 (Ffôn: Mrs. Owen, Llanberis 871272)

AM DDEWIS HAEL A  
GWASANAETH CYFEILLGAR  
DEWCH I

**SIOP GRON**  
A SWYDDFA'R POST  
**PENISARWAUN**

Ffôn:  
**Llanberis 871272**

CANOLOG I'R FRO





# NANT PERIS

**Gohebydd: Mrs Mary Ff. Roberts, Cerrigydrudion**

## LLONGYFARCHIADAU

I Esther Searell ar ei llwyddiant yn pasio lefel A mewn Cymraeg. Mae Esther yn wraig i Emyr Searell sy'n byw yn Saron, Llanwnda. Mae ganddynt ddau fab, Dyfan ac Owain. Mae gan Esther hefyd raddau mewn Ffrangeg ac Almaeneg, a Saesneg wrth gwrs, gan ei bod wedi ei magu yng nghanol Birmingham, lle trig ei thad a'i mam Mr. a Mrs. Arthur Wilde. Llongyfarchion arbennig oddi wrth taid a nain Nant, sef Mr. a Mrs. G.S. Jones, Gwynant.

## CARNIFAL NANT PERIS

Cafwyd noson o hwyl a diddanwch nos Wener, 25 o Orffennaf, pan gynhaliwyd y Carnifal blynyddol.

Carai y pwyllgor ddiolch i'r canlynol: Arweinydd y noson - Mr. Dei Tomos; y Beirniaid Mr. a Mrs. Clifford Williams, Rheilffordd yr Wyddfa a'r Frenhines Sally a'i gosgordd o Lanberis.

Diolch hefyd i H.L. Hughes a'i feibion, Llanberis, Mr. Wavel Roberts, Llanrug, Rheilffordd yr Wyddfa, Mr. a Mrs. Harvey Lloyd, Pen-y-Pass, a Seindorf Arian Llanberis am eu cefnogaeth.

**Enillwyr y wisg ffansi, dan 5:** Nant - 1. John Paul, 2. Sally Benbow, 3. Jo Anttoine. **Agored** - 1. Steven Williams, 2. Delwen Haf, 3. Rhys Huws. **5-8 oed Nant:** Aled a Sara Davies. **Agored:** 1. Melissa, 2. Aled Hughes, 3. Jessica Jones. **8-11 oed Nant:** 1. Stephen Bayliss, 2. Eryl Ogwen, 3. Llinos Haf. **Agored:** 1. Hayley (o Essex), 2. Philippa (Lerpwl), 11-18 1. St. Trinians, 2. Gerallt a Nia. **Dros 18** 1. Arfon a Linda. **Baban Bochgoch:** 1. Nia Wyn. **Beic Harddaf:** John Paul. **Pram Harddaf:** 1. Stephen Williams. **Anifail Anwes:** 1. Ben.

## Mabolgampau

**Rasus Genethod Dan 5:** 1. Jo Anthoine, 5-8 oed: 1. Jennifer Owen, 8-11 oed: 1. Sandra Nesbitt, 11-18 oed: 1. Maria Willis. **Bechgyn Dan 5:** 1. Marcus Hamilton, 5-8 oed: 1. Euron Jones Parry, 8-11 oed: 1. Stephen Bayliss, 11-18 oed: 1. Andrew Griffiths. **Ras Tair Coed:** 1. Bethan a Bethan; John a David. **Pengliniau Blewog:** Plant - Julie Bayliss, Oedolion - Marie Bayliss. **Enillwyr**

**Pwysa'r Oen:** 54.10 - L. Smith (£5 Rhodd M.W. Pritchard) Cyw iâr - Glenda Jones (Rhodd Wavel Roberts), Llun - Nia Morris, Glendale (Rhodd S. Davies), Basged o Ffrwythau - Huw Ceunant (Rhodd S. Davies), Enw'r Ddraig: Elidir - Paul Prydderch.

**Raffl**  
1. Pwrs coluro - Sheila, Llanberis; 2. Potel o win - B. Lewis; 3. Tray - John, Chwarel y Penrhyn; 4. Blwch Tiws - Eirlys Ellis, Llanberis; 5. Dol Gymreig (Rhodd Rheilffordd y Wyddfa) - Emma Griffiths, Nant Peris; 6. Mwnci Blewog - M. French; 7. Cant o lo (Rhodd H.L. Hughes a'i feibion) - Jan Davies, Llanberis; 8. Basged Dal Blodau - Rhif 88 (neb wedi dod ymlaen i'w nôl).

Diolch yn fawr i bawb a gyfrannodd at y Carnifal gyda rhoddion o bob math, a diolch yn fawr i drigolion yr ardal am eu cefnogaeth. Bydd elw o £316.88 yn mynd at Gronfa Apêl y Sganydd am aleni.

Bydd Trip y Carnifal ar Fedi 20fed yn mynd i Gaer a'r Rhyll eleni. Os am ddod rhowch eich enwau i Mrs. A. Price, y Llythyrdy erbyn Medi 15.

## APÊL Y SGANYDD

Mae'r Apêl wedi llwyddo i basio ei darged o £700.00 ac ar hyn o bryd yn sefyll ar £970.

LLONGYFARCHIADAU i John Noel Pritchard, Tŷ Isaf a Nia Humphries, Rhes yr Hafod, Caernarfon ar eu dyweddïad yn ddiweddar.

LLONGYFARCHIADAU gorau i Dafydd Pritchard, Tŷ Isaf ar gael ei ddewis yn fyfyrwyr y flwyddyn yn adran yr Eidion a'r Defaid yng Ngholeg Glynllifon. Bydd Dafydd yn mynd i Goleg y Brifysgol yn Aberystwyth i astudio Amaethyddiaeth ddiwedd yr haf, dymunwn ddyfodol llwyddiannus iddo.

LLONGYFARCHIADAU i bobl ieuanc y Nant sydd wedi bod yn llwyddiannus yn yr ysgol a'r colegau gyda'r arholiadau. Dymunwn ddyfodol da iddynt hwythau hefyd.

## YSGOL BRYNREFAIL

Bydd Llinos Haf, Owain Tudur a Stephen Bayliss yn dechrau yn Ysgol Brynrefail, Llanrug ddiwedd gwyliau'r haf. Gobeithiwn y byddant yr un mor hapus yno ac y buont yn Ysgol Dolbadarn.

## LLWYDDIANT

Tra ar ei gwyliau yng Ngwersyll Pontins yn ystod mis Awst, yr oedd Helen Mai, Tŷ Isaf yn gwisgo blows a throwsus yr oedd wedi eu gwneud ei hun pan ddaeth ar draws cystadleuaeth "Did you make it yourself". Am dipyn o hwyl, cynigiodd arni, ac er mawr syndod iddi fe ddaeth yn gyntaf ac ennill pen-wythnos yn rhad ac am ddim ym Mhontins Torquay yn ystod y flwyddyn nesaf, a hefyd bocs yn llawn o bob math o ddefnydd coluro. Da iawn Helen.

**Cefnogwch  
ein  
Hysbysebwy**



Côr Ysgol Brynrefail — Enillwyr Eisteddfod Llanrwst. Arweinydd, y diweddar Mr James.

# BETHEL

**Gohebydd: Geraint Elis, Cilgerran (Portdinorwig 670726)**

## CLWB Y MAMAU

Trefnwyd taith gerdded nodedig gan aelodau o Glwb y Mamau yn ystod mis Mehefin, ac o ganlyniad casglwyd y swm o £147.00 tuag at Apêl Sganydd Corff Cyfan, Ysbyty Gwynedd.

Hoffai'r Pwyllgor a'r aelodau ddiolch i bawb a gefnogodd yr ymgyrch hwn.

LLONGYFARCHIADAU i Gareth Jones, Bwlch Gwynt a Helen W. Jones, 5 Eryri, y ddau yn dathlu eu pen blwydd yn 18 oed ar Awst 18fed. Dymuniadau gorau hefyd i Myfyr Jones, Glan Gors fydd yn dathlu ei 18 oed ar Fedi 11eg.

## GYRFA CHWIST

Nos Fawrth, Medi 2il, cynhaliwyd gyrfa chwist yn Neuadd Santes Fair, Y Felinheli gyda'r elw yn mynd at atgyweirio Eglwys Sant Deiniol, Llanddeiniolen.

## DERBYN YN GYFLAWN AELODAU

'Roedd gwasanaeth nos Sul, Gorffennaf 27 yn Y Cysegr yn wasanaeth arbenig iawn pan dderbyniwyd 17 o blant yr Eglwys yn gyflawn aelodau gan y gweinidog, y Parchedig W.R. Williams. Yr aelodau newydd yw Catrin Ann Evans a Barry Evans, 7 Tan-y-Cae; Lynn Hardwich, 10 Tan-y-Buarth; Helen Jones, Carreg Goch; Helen Wyn Jones, Fro Dawel; Mark Jones, Cefn Llan; Myfyr Jones, Glan Gors; Robert David Jones, Tyddyn Oer; Amanda a Judith Ann Owen, 10 Rhoslan; Gareth Owen, Fron Helyg; Gareth Wyn Owen, 18 Cremlyn; Ceinwen a Rhian Parry, Waun Deg; Clive Roberts, 21 Bro Rhos; Dewi Wyn Williams, Cefn Gwyn; Meinir Danncey Williams, Elan.

## LLONGYFARCHIADAU

Dymuniadau gorau i Delyth Jones, 15 Stâd Eryri a David Wyn Roberts,

Isfryn, Glanrafon, Llangoed a briodwyd yng nghapel Bethel ddydd Sadwrn, 12fed o Orffennaf. Mr. Esmor Owen, ffrind y priodfab, oedd y gwas gyda Bethan Pennant Jones, chwaer Delyth, Bethan Ann Owen ei nith, ac Eluned Wigley, ei ffrind yn forynion. Gwasanaethodd Mr. Glyn Jones, Mr. Len Taylor, Mr. Myrddin Roberts a Mr. Harri Williams fel ystlyswyr.

Ein dymuniad yw pob hapusrwydd i'r ddau yn eu bywyd priodasol ac yn eu cartref newydd yn Didfa, Glanrafon, Llangoed.

## CYDYMDEIMLO

Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf a'r Parchedig R.W. Roberts a'r teulu yn eu profedigaeth. Bu farw Mrs. Roberts, 8 Cynfi Terrace, Deiniolen, mam Mr. Roberts ar Awst 5ed ar ôl gwaeledd byr iawn.

## DYMUNIADAU GORAU

Mae diwedd yr Haf bob blwyddyn yn gyfnod o newid byd i lawer o bobl ieuanc, rhai yn newid ysgol, eraill yn mynd i waith neu i goleg. Dymunir y gorau i bawb fydd yn dechrau mewn byd newydd ddechrau Medi.

Llongyfarchiadau hefyd i bawb o'r pentref fu'n llwyddiannus yn eu harholiadau yn ddiweddar a dymuniadau gorau iddynt i gyd i'r dyfodol.

## MERCHED Y WAWR

Bydd cyfarfod cyntaf y tymor yn yr Ysgol nos Fercher, 19fed o Fedi. Y wraig wadd fydd Anita Jones, Brynrefail, gyda arddangosfa o'i gwaith llaw. Mae Anita yn gwerthu ei chynnyrch dan y label "Calon Lân". Bydd cyfle i brynu'r nwyddau ar ddiwedd y noson. Mae'r pwyllgor wedi dewis rhaglen amrywiol a diddorol gobeithio am y flwyddyn. Croeso i bawb i ymaelodi, aelodau hen a newydd.

## E.W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

**Ffôn: 870202 a 870272**

**TREFNWYR ANGLADDAU  
CEIR AR GYFER PRIODASAU  
GWASANAETH TACSI**



**STRYD FAWR, DEINIOLLEN Ffôn Llanberis 871210**

**Crefftau llechi:** arlunwaith, clociau, calendrau, raciau llythyrau ac ati. Hefyd **crefftau lleol eraill:** crochenwaith, gwaith coed, blodau addurnol.

**Arddangosfa o hen luniau chwarel.**

A dewis rhagorol o Fideos i'w benthg  
Hefyd yn Siop

**FFYNN A CHERRIG, STRYD FAWR, LLANBERIS**



## Mwy o bobl yn dysgu

Mae pob tystiolaeth yn dangos bod cynnydd mawr yn nifer y bobl sy'n dysgu siarad Cymraeg, a chynnydd mawr hefyd yn y ddarpariaeth ar eu cyfer. Ystyriwch rai ffeithiau:

- Sefydlwyd ysgol uwchradd Gymraeg am y tro cyntaf yn 1959 – Ysgol Glan Clwyd yn Llanelwy.

- Mae nifer yr ysgolion uwchradd Cymraeg wedi codi i 13 trwy Gymru.

- Mae mwy a mwy o blant yn dysgu Cymraeg mewn ysgolion cynradd, a hynny yn ysgogi eu rhieni i ddysgu siarad Cymraeg.

- Mae tua saith mil o bobl yn cofrestru i ddysgu Cymraeg bob blwyddyn gydag awdurdodau a sefydliadau addysg yng Nghymru.

- At hynny mae nifer sylweddol iawn o unigolion yn dysgu Cymraeg nad ydyn nhw wedi cofrestru'n swyddogol.

- Mae yna 500 o ddosbarthiadau nos i ddysgwyr yng Nghymru – ac mae'n sicr felly bod yna un yn eich ardal chi.

- Mae yna 70 o gyrsiâu dwys i ddysgwyr trwy Gymru.

- Hefyd mae yna nifer fawr o gylchoedd a grwpiau dysgwyr yn cyfarfod yn gyson mewn cylchoedd cinio a thafarndai.

rhaglenni radio a theledu, cyrsiau di-rif a chanolfan breswyl trwy'r flwyddyn – NANT GWRTHEYRN.

- Y galw mawr am y Gymraeg fel cymwystr ar gyfer swyddi – hyd yn oed i actorion S4C.

- Llwyddiant dysgwyr eraill.

Mae mwy a mwy o deuluoedd ac unigolion yn cael agoriad llygad i ddiwylliant a chymdeithas hollol newydd trwy ddysgu siarad Cymraeg. Nid diddordeb academiaidd sydd wedi ysgogi'r toreth o ddysgwyr sydd wedi llwyddo ond yn hytrach awydd i ddod yn rhan fwy naturiol o gymunedau a chymdeithasau Cymreig ac i fedru siarad â'u cymdogion yn eu hiaith eu hunain.

## Eich rhan chwithau

Mae angen eich cymorth CHI i helpu oedolion i ddysgu siarad Cymraeg HEDDIW. Beth fedrwyd chi ei wneud?

- Magu perthynas â dysgwyr o bob safon gan roi pob anogaeth a chymorth iddyn nhw.

i gymunedau Cymreig eu hardaloedd eu hunain a hefyd i ddod i adnabod y diwylliant Cymreig yn well. Mewn gair, eu helpu nhw i ddod yn Gymry CYMRAEG. Felly, cysylltwch â'ch cangen leol chi o CYD (ffoniwch 0970 4501 i ganfod ble mae hi) ac ewch yno â breichiau agored i groesawu dysgwyr eich ardal chi i gymdeithas naturiol Gymreig.

- Gallwch helpu i sefydlu dosbarth nos yn eich ardal chi gan ddefnyddio'r daflen hon er mwyn annog pobol i ddysgu. Mae awdurdodau lleol a Bwrdd Datblygu'r Canolbarth yn darparu grantiau ar gyfer prosiectau cymunedol i ddysgu ail iaith. Cysylltwch â ni, y Grŵp Dysgwyr (Aberystwyth 4501) am gymorth i fynd o'i chwmpas hi.

- Pwyswch ar eich cymdeithas neu fudiad, undeb llafur neu gyflogwr i ddechrau dosbarth nos eu hunain neu i dreulio cyfnod mewn canolfan breswyl fel NANT GWRTHEYRN.

- Ymunwch â GRŴP DYSGWYR CYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG er mwyn helpu i drefnu cyrsiau ar gyfer dysgwyr yng Ngwersylloedd yr Urdd ac i ddefro pobl eraill i'r angen am gymorth i ddysgwyr ac i ymgyrchu am amodau teg a chyflawn i bobl sy'n mynnu dysgu Cymraeg.

# HELPWCH NHW I DDYSGU EIN HIAITH NI

## Beth sy'n eu hysgogi?

- Darlledu proffesiynol a phoblogaidd ar S4C a Radio Cymru.

- Deffroad mewn diwylliant poblogaidd i bobl ifanc.



- Y cynnydd mawr mewn darpariaeth addysgol ar gyfer dysgwyr – llyfrau,



- Ewch i'ch cangen leol o CYD – CYNGOR Y DYSGWYR. Mae hwn yn fudiad newydd a phwysig sy'n tyfu'n fuan. Mae canghennau yn cael eu sefydlu trwy Gymru gyfan er mwyn cynnal gweithgareddau cymdeithasol a diwylliannol, cylchoedd cinio a chyfarfodydd min nos mewn canolfannau cymdeithasol a thafarndai. Yr amcan ydi pontio'r bwlch rhwng dysgwyr a Chymry Cymraeg er mwyn helpu dysgwyr i ymdoddi

## Prinder athrawon – Beth amdanoch chi?

Na, na! Nid athro yn ystyr ysgolheigaidd y gair – nid rhywun i ddysgu holl gymhlethdod a gramadeg iaith i bobl. Yr hyn sydd ei angen yw pobl frwdfrydig sy'n fodlon rhoi noson neu ddwy yr wythnos ar gyfer dysgu pobl i SIARAD Cymraeg. Dydi hi ddim yn anodd. Ewch i wyllo rhywun arall wrthi – neu dewch ar un o gyrsiâu hyfforddi y GRŴP DYSGWYR. 'Rydym yn dechrau cynnal cyrsiau penwythnos trwy'r flwyddyn mewn gwahanol ardaloedd er mwyn hyfforddi pobl sydd am ddysgu eraill i SIARAD Cymraeg.

Oes, mae yna brinder ofnadwy o athrawon i gymryd dosbarthiadau nos. Dyma eich cyfle chi i wneud rhywbeth cadarnhaol dros yr iaith a ddaw â boddhad mawr i chi eich hun hefyd.

Hoffwn ymuno â Chymdeithas yr Iaith Gymraeg / I would like to join the Welsh Language Society

ENW (NAME) \_\_\_\_\_

CYFEIRIAD (ADDRESS) \_\_\_\_\_

FFÔN \_\_\_\_\_

|                          |    |                     |       |                |       |
|--------------------------|----|---------------------|-------|----------------|-------|
| Tâl Aelodaeth – Oedolion | £5 | Myfyrwyr/Di-waith   | £2.50 | Myfyrwyr Ysgol | £1.50 |
| Membership Fee – Adults  |    | Students/Unemployed |       | School Pupils  |       |

Amgaeaf sic/archeb post yn daladwy i: Cymdeithas yr Iaith Gymraeg.  
I enclose cheque/postal order payable to: 5 Maes Albert, Aberystwyth, Dyfed





# Dyddiadur y Mis

## DYDDIADUR MEDI

Llun, 1: LLANBERIS: Y Cwmni Drama yn Ffestri Gorffwysfa am 7.00. Pwyllgor Sganydd Corff yn Angorfa am 7.00.

DEINIOLLEN: Sefydliad y Merched - Sgwrs gan Miss Margaret Griffith, Bangor ar Fwydydd Iach.

Mawrth, 2: ARDAL BETHEL: Ysgolion yn ail-ddechrau. Gyrfa Chwist yn Neuadd Santes Fair, Y Felinheli.

Mercher, 3: LLANBERIS: Clwb y Mamau yn y Ganolfan am 7.30.

Gwener, 5: DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00. Tê yr Henoed.

Sadwrn, 6: YR ARDAL: Diwrnod Agored Gwaith Trydan Dinorwig. Râs 'Antur Waunfawr' am 2.00. DEINIOLLEN: 'Operation Sport' o 10.00 tan 1.00 yn y Ganolfan. BRYNREFAIL: Gwibdaith Sefydliad y Merched i Shrewsbury.

Sul, 7: YR ARDAL: Côr Bethel a'r Cylch yn ail-ddechrau ymarfer yng Nghapel Cysegr am 8.00.

Llun, 8: LLANRUG: Clwb Ieuenctid yn Ysgol Brynrefail am 7.00.

Mawrth, 9: PENISARWAUN: Cwmni Bara Caws yng Nghlwb Eryri am 8.30. DEINIOLLEN: Clwb Elidir.

BETHEL: Taith Ddirgel Clwb Bro Bethel.

Mercher, 10: WAUNFAWR: Noson ymaelodi'r Urdd.

BETHEL: Merched y Wawr - yng nghwmni Anita Jones, Brynrefail.

Gwener, 12: WAUNFAWR: Plaid Cymru - Spwer Glyndŵr yn Llety, Caeathro.

DEINIOLLEN: Disgo yn y Ganolfan. Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00.

Sadwrn, 13: YR ARDAL: Râs Elidir Fawr (Nant Peris)

DEINIOLLEN: 'Operation Sport' yn y Ganolfan o 10.00 tan 1.00

Llun, 15: DEINIOLLEN: Merched y Wawr - yng nghwmni y nofelydd, Jane Edwards.

Mawrth, 16: PENISARWAUN: Clwb yr Heulwen.

Iau, 18: LLANRUG: Cyfarfod y Chwirydd Capel Pontrhythallt.

Gwener, 19: LLANBERIS: Tê yr Henoed.

DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00.

Sadwrn, 20: NANT PERIS: Gwibdaith y Carnifal i Gaer a Rhyl.

DEINIOLLEN: 'Operation Sport' yn y Ganolfan o 10.00 tan 1.00

Iau, 25: LLANBERIS: Sefydliad y Merched.

Gwener, 26: PENISARWAUN: Bingo yn Neuadd yr Eglwys am 6.30

DEINIOLLEN: Bingo yn Ystafell y Seindorf am 8.00.

Sadwrn, 27: YR ARDAL: Ras 10k Caernarfon.

DEINIOLLEN: 'Operation Sport' yn y Ganolfan o 10.00 tan 1.00.

## DYDDIADAU I'W COFIO

Hydref 1: Cangen Plaid Cymru Llanrug a'r Cylch - Noson yng nghwmni Mr. Dafydd Wigley, A.S.

Hydref 3: Clwb Eryri

Hydref 9: "Sganiwrama" - Noson yng nghwmni Ffylliaid y Fro yn Ysgol Brynrefail.

Hydref 11: Eisteddfod Gadeiriol Llanrug

Hydref 20: Ffair Hydref yn Neuadd yr Eglwys, Penisarwaun am 6.30

Hydref 24 a 25: Eisteddfod Gadeiriol Gwaun Gynfi

Tachwedd 1: Eisteddfod Bethel

Tachwedd 12: Cangen Plaid Cymru Llanrug a'r Cylch

# CLWB PEL DROED LLANRUG YSTAFELLOEDD NEWID NEWYDD

Adroddiad Mr. George Lovatt, ar ran Pwyllgor Clwb Pel droed Llanrug.

Oherwydd cyflwr gwael yr ystafelloedd newid presennol, (cytiau pren a brynwyd gennym yn ail law yn 1968) y cyfleusterau ymolchi (dau dwb enamel) a'r angen am deoledau, mae'r clwb yn codi adeilad parhaol mewn brics a mortar i gynnwys ystafelloedd newid a chyfleusterau ymolchi a thoiledau. Bydd y rhain i'r safon a awgrymir gan Gyngor Chwaraeon Cymru, ac ar gael i dimau pel droed o bob oed, gemau elusenol a chwaraeon y carnifal lleol.

Mae'r Clwb yn dibynnu'n gyfangwbl am ei gynhalieth ar roddion, ambell raffl, nosweithiau coffi, disgos a rhoddion gan y cefnogwyr. Ei nod yw hybu, datblygu a darparu cyfleusterau ar gyfer y rhai o bob oed sy'n ymwneud â pheldroed amatur.

Codir yr adeilad gan bobl ieuanc, o dan nawdd Cynllun Hyfforddi'r Ieuenctid, Gwynedd. Hyd i gadw'r costau o fewn ein cyllideb, ond caiff y gwaith i arbenigwyr oddi mewn i'r adeilad ei wneud yn rhad ac am ddim gan grefftwyr lleol. Sicrhawyd gwasanaeth pensaer a thir fesyrdd drwy garedigrwydd cefnogwr y prosiect ac aelodau o'r pwyllgor. Y Clwb fydd yn prynu'r holl ddefnydd adeiladu.

Amcangyfrifir mai'r gost, gan gynnwys y defnyddiau, ffi rheolau adeiladu a chynllunio, y tâl am gysylltu dŵr,


carthffosiaeth a thrydan fydd £12,800. Sicrhawyd cymorthdal o £6,400 gan Gyngor Chwaraeon Cymru; £1,000 o gronfa jiwbill'r Brenin Siarl a £200 gan Gyngor Cymuned Llanrug. Mae ein diolch yn ddiffuant i'r cymdeithasau hyn, heb eu cymorth hwy ni ellid ystyried y prosiect.

Casglwyd y £5,200 sy'n weddill drwy gynilo ar wariant y clwb, drwy weithgareddau megis teithiau noddedig a benthyciadau tymor byr gan wŷr busnes lleol, y chwaraewyr, aelodau o bwyllgorau'r merched a'r dynion a chyfeillion eraill!

Carem ddiolch yn gyhoeddus i bawb am bob cymorth i'n galluogi i roi'r prosiect ar droed; menter a ddylai sicrhau oes o gyfleusterau newid da a glân ar gyfer y clwb pel droed ac a allai, yn ei ffordd fach, fod o gymorth i gadw ieuenctid y pentref rhag loitran a gwastraffu eu hamser hyd y strydoedd.



Y gwaith adeiladu ar Gae Pel-droed Llanrug.



LLUN wedi ei dynnu oddi ar Graig y Dinas, ac yn edrych i gyfeiriad pentref Llanrug. Mae'r llun o leiaf o gyfnod yr Ail Ryfel Byd oherwydd nid yw Stâd Tai Cyngor Bro Rhuddallt wedi ei hadeiladu. Mae'r ddwy reilffordd i'w gweld yn y llun, ac y mae'n amlwg fod ffermwr y Ddôl Helyg wedi bod yn brysur yn cynaeafu! Sylwch hefyd gymaint o bobl sy'n byw yn Stryd Craig y Dinas - mae ôl gwaith yn y gerddi, ac mae bron bob un corn simnai yn mgyu.

# RAS ANTUR WAUNFAWR

Gobaith Cyfarwyddwyr Cwmni Antur Waunfawr yw y gall llwyddiant y fenter yn y Waunfawr symbylu datblygiadau tebyg mewn ardaloedd eraill, ac mae'r cwmni yn amcanu ceisio cymaint o gyhoedduswydd ag sydd modd i'r hyn sy'n digwydd yn y Waunfawr.

Mae Mr. Bob Eaglestone, un o'r Cyfarwyddwyr yn perthyn i'r Eryri Harriers, a chafodd syniad newydd. Felly, bydd Ras Antur Waunfawr yn cael ei rhedeg ar Ddydd Sadwrn, Medi 6ed 1986 am 2 p.m.

Trefnwyd y Ras - y gyntaf o'i bath yn yr ardal ar y cyd gyda Mudiad Curiad Calon Cymru.

Bydd Ras 10km i redwyr profiadol a ras o rhyw 2 filltir ar gyfer y rhai ohonom sydd o'r farn fod rhedeg mor bell a phen Cefnddu yn rhy debyg i waith!!

Mae'r cwpanau etc., ar gyfer yr enillwyr eisoes yn cael eu



harddangos yn ffenestr Swyddfa Cymdeithas Adeiladu Cheltenham & Gloucester yng Nghaernarfon, ac yn y Post yn Waunfawr.

Bydd y Rasus yn cychwyn o'r Ganolfan, ac mae Cymdeithasau Lleol yn paratoi byrddau gwerthu etc. yn y Ganolfan.



Parti Dawnsio "Summer Hill"



# CHWARAEON

## PYSGOTA

### GLANIO EOGIAID A SEWIN

Tybiaf fod hwn o leiaf hyd at yr ail wythnos yn Awst, wedi bod yn un o'r tymhorau gorau ers rhai blynyddoedd, ac mae'r nifer o eogiaid a sewin a rwydwyd yn werth sôn amdanynt. Hyd at eleni, peth pur anarferol fyddai gweld eog tan tua chanol Hydref.

Yr eog cyntaf a glywais am ei ddal oedd un 11 pwys a hanner gan Norman, postmon o Gaernarfon. Yng Nglan Gwna y glaniwyd hwnnw. I un o aelodau ieuanc y clwb y daeth yr ail, sef i Dafydd Jones, Pant Hywel, Penisarwaun, 10 pwys braf a godwyd yng Nghrawia.

Mae eraill a fu'n llwyddiannus yn cynnwys Brian Evans o Langefni (Llanrug yn wreiddiol), 3 sgodyn, a'r gorau yn 9 pwys a hanner; Merfyn Harris, Felinheli (3 eto, a'r gorau yn 14 pwys a hanner); Tom Christy, Groeslon (3, y gorau yn 9 pwys); ac un yr un i Emyr Jones, Deiniolen, D. Jones, Caernarfon, H. Hughes, Bethel, G. Jones, Caernarfon, O. Evans, Bethel ac Elwyn Williams, Gaerwen.

Mae nifer sylweddol o sewin wedi eu rhwydo, yn enwedig yn ardal Llanrug. Daliodd Alen Ginsberg o Fethel wyth mewn ychydig nosweithiau, i gyd o gwmpas y dau bwys. Bu gormod yn llwyddiannus yn y maes hwn i'w henwi.

Bu cynnydd yn nifer y sewin a godwyd o afon Llyfni hefyd, yn dilyn yr adnewyddu a fu ar bylloedd Glan Môr. Bachwyd un a bwysai 9 pwys gan M.

Craig o Lanllyfni.

Y sewin gorau i'w godi o'r Seiont hyd yma yw'r 4 pwys a hanner a ddaliwyd gan Maurice Jones, Penllyn yn Stablau.



Dafydd Jones a'i eog 10 pwys a hanner

## ADNABOD Y TIMAU

Gyda thimau o Lanberis a Llanrug yng Nghyngair Gwynedd, Llanrug a Bethel yng Nghyngair Sain Arfon a'r Cylch, a nifer fawr o dimau ieuencid yn yr ardal, sgwn i faint ohonoch chi, ddarlennwyr yr Eco, sy'n gwybod pwy sy'n chwarae i dimau eich pentref? Bwriadaf dros yr ychydig fisoedd nesaf lunio rhyw fath o bortread ohonynt, a chan mai gan Llanrug mae'r dasg o redeg day dim cynghrair, fe ddechreuaf ar gae Eithin Duon.

## CLWB PEL DROED LLANRUG



Tîm cyntaf — yn cael eu noddi gan Penbont

Nid ar y maes chwarae'n unig y gwelir cyffro yn hanes y clwb yma, gan fod y fenter o adeiladu ystafelloedd newid a phwyllgor ar y maes wedi mynd ag oriau o lafur eisoes (gweler adroddiad Mr. George Lovatt ar dud. 23).

Penodwyd Mike Kennedy yn rheolwr-chwaraewr y tîm cyntaf. Chwaraewr canol-cae yw Mike, a chanddo profiad o chwarae â thimau yn Lloegr, yn ogystal â Hiracl, Porthaethwy a'r Felinheli. Yn wir, roedd yn aelod o dîm y Felinheli a enillodd gynghrair Gwynedd yn 83-84. Mae'n gweithio fel peiriannydd sifil yn Lloegr, ac yn teithio adref i'w gartref yn Llanllechid, ac i chwarae i Lanrug bob pen-wythnos.

Ymysg y rhai a arwyddwyd ganddo mae'r gol-geidwad, Gary Thomas (wedi chwarae i Lanfairfechan); Kevin Williams o Lanrug (Llanrug a Felinheli); Alan Williams (Porthmadog a Nantlle Vale); Dic Williams (Porthaethwy a Bethesda) a David

Brailsford o Ddeiniolen (Llanrug a Bontnewydd) yn gefnwyr. Yng nghanol y cae bydd Mike ei hun, Nick Hopkins (Porthmadog); Gwynfor Owen (Bethesda, Caernarfon ymysg eraill); Adrian Wakeham (Deiniolen) a Sel Allsup (Llanberis, Llanfairfechan a nifer o dimau eraill), y ddau o Lanberis.

Ymysg yr ymosodwyr, Colin Jones o Fethesda (Deiniolen); Dilwyn John Williams o Benisarwaun (Llanrug a Llanberis); Hefin Williams o Gaernarfon (Bontnewydd); John Williams (Llanrug) a Gwyn Morris.

Bydd holl chwaraewyr yr ail dîm hefyd, wrth gwrs, ar gael iddo. Gobeithia Mike wneud yn dda yn ei dymor cyntaf fel rheolwr Llanrug yn y gynghrair newydd yma, a chafwyd dechrau rhagorol. Byddant yn cystadlu hefyd am Gwpanau Barrett, y Gynghrair a Gogledd Cymru.

Mwy o chwaraeon ar dudalen 23

# PEL DROED

Daeth y tymor criced i ben a bu rhai timau pêl-droed yn brysur ers rhai wythnosau. Mae gwyliau'r ysgol wedi darford ac mae'n fwy na thebyg felly, y daw tywydd braf o'r diwedd.

Bu datblygiadau cyffrous yn hanes rhai o dimau'r ardal dros gyfnod yr haf. Bellach ni welir tîm o Lanberis yng Nghyngair Caernarfon a'r Cylch, (a hybir bellach gan gwmni Sain), a Llanrug Uts Res., ie, ail dîm sydd ar ben y tabl. Mae Bethel yn parhau'n aelodau o'r gynghrair.

Ymunodd Llanberis a Llanrug â Chyngair Gwynedd, gan obeithio y codir safon y pêl-droed tra'n lledaenu'i gorwelion trwy deithio cyn belled â Chonwy a Phenmachno.

Fe sefydlwyd y gynghrair hon yn nhymor 83-84, ond bu nifer o glybiau'n amheus ohoni a siomedig fu'r ymateb, gyda'r canlyniad na fu'n gweithredu ond am yr un tymor hwnnw. Rhodod cynnig arall arni eleni, ac ymunodd deg clwb, sef Llanberis, Llanrug a Harlech o gynghrair Arfon, ail dîm Llanfairpwll, Benllech a Llannerch-y-medd o Fôn, y ddau goleg, Normal a'r Brifysgol o Fangor, Penmachno ac ail dîm Conwy. Mae enw da i rai o'r timau hyn, a mawr obeithir y bydd dyfodol disglair i'r fenter.

Yn sicr bu'r ddau dîm lleol yn llwyddiannus ar y Sadwrn cyntaf, sef y 30ain o Awst. Gêm gyfartal rhwng Llanberis a Llannerch-y-medd, dwy gôl yr un gyda Derfel Roberts a Terence

Griffiths yn rhwydo i Lanbêr. Gêm dda iawn yn ôl Iwan Williams, eu rheolwr, a hogiau Môn yn dipyn gwell na Llanbêr, yn enwedig yn yr hanner cyntaf.

Bu'n dasg dipyn haws i Lanrug guro ail dîm Conwy o 6 gôl i ddim. Gwelwyd rhai symudiadau hyfryd dros ben gan yr hogiau lleol, gyda Gwyn Morris yn rhwydo deirgwaith, hyn yn dilyn y 5 gôl a sgoriwyd ganddo y Sadwrn blaenorol pan drechwyd Porthmadog o 10 gôl i ddim gan yr ail dîm. Hefin Pritchard, Kevin Williams a Robert Morris sgoriodd y gweddill.

Siomedig fu taith Bethel i Nefyn y Sadwrn diwethaf, gan golli'n drwm o 8 gôl i 1. Hyn yn syndod, gan iddynt chwarae'n dda iawn mewn gêm gyfartal yn erbyn ail dîm Llanrug yng nghanol yr wythnos.



Ail dîm Llanrug — wedi cael eu noddi gan y Glyntwrog



Mike Kennedy a'r capten, Kevin Williams

Melvyn Jones o Lanrug yw rheolwr yr ail dîm, sydd ar ben y tabl ar hyn o bryd. Mae Mel wedi arwyddo Gareth Parry o Lanrug fel gol-geidwad; Merfyn Morris o Ddeiniolen; Alwyn Williams o Benisarwaun; Ceris Jones a Chris Owen o Lanrug; Kevin Owen o Bontnewydd; Glyn Williams o Fethel; Eilian Williams o Lanrug; Michael Owen, Llanberis;



Melvyn Jones, y rheolwr, a'r capten Gary Davies

Kevin Edwards, Bontnewydd; Robert Morris, Rhosgadfan a Hefin Pritchard o Lanrug. Gary Davies yw'r capten.



Moment gyffrous o gêm ail dîm Llanrug yn erbyn Porthmadog.